



**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda
Cynon Taf**

**Arfarniad Cynaliadwyedd
Integredig ar gyfer y
Cynllun Datblygu Lleol
Diwygiedig
Y Strategaeth a Ffefrir**

Adroddiad Terfynol
Paratowyd gan LUC
Ionawr 2024

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Y Strategaeth a Ffefrir

Fersiwn	Statws	Wedi'i lunio	Wedi'i wirio	Wedi'i gymeradwyo	Dyddiad
1.	Adroddiad Drafft yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2022-2037	K Moroney R Finnigan L Hadad K Nicholls	K Nicholls	K Nicholls	08.01.2024
2.	Adroddiad Terfynol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2022-2037	K Moroney R Finnigan L Hadad K Nicholls	K Nicholls	K Nicholls	16.01.2024

Cynnwys

Pennod 1

Cyflwyniad 1

Ardal y Cynllun	1
Y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig	2
Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol	2
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	4
Strwythur yr adroddiad hwn	5

Pennod 2

Methodoleg 7

Cam A yr Arfarniad Cynaliadwyedd: Cwmpasu	9	
Cam B yr Arfarniad Cynaliadwyedd: Datblygu a mireinio'r opsiynau ac asesu'r effeithiau		14
Cam C yr Arfarniad Cynaliadwyedd: Paratoi Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	15	
Cam D yr Arfarniad Cynaliadwyedd: Ymgynghori ar y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	15	
Cam E yr Arfarniad Cynaliadwyedd: Monitro gweithrediad y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig		15
Y fethodoleg arfarnu	15	
Anawsterau a chyfyngiadau'r data	17	

Pennod 3

Cyd-destun Cynaliadwyedd 18

Y berthynas â chynlluniau neu raglenni perthnasol eraill	18
Gwybodaeth sylfaenol	24
Materion cynaliadwyedd allweddol	25

Pennod 4

Canfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer yr Opsiynau Strategol a'r Opsiynau o ran Safleoedd Posibl 29

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r opsiynau twf	29
Effeithiau tebygol yr opsiynau gofodol ar gynaliadwyedd	42

Pennod 5

Canfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir 67

Gweledigaeth	67
Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig	68
Safleoedd Allweddol Posibl	70
Blaenoriaethau strategol	72
Argymhellion	80

Pennod 6

Monitro 82

Pennod 7

Casgliadau

86

Yr effeithiau disgwylidig o ran amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	86
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	87
Yr effeithiau o ran y Gymraeg	87
Yr effeithiau o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	87
Y camau nesaf	88

Atodiad A

Sgrinio'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

A-1

Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol A-1	
Asesu'r Effaith ar Iechyd	A-1
Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb	A-2
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	A-3
Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	A-4
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016	A-4

Atodiad B

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

B-1

Atodiad C

Adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni

C-1

Atodiad D

Gwybodaeth sylfaenol

D-1

Gwybodaeth Amgylcheddol Sylfaenol	D-1
Gwybodaeth Gymdeithasol Sylfaenol	D-11
Gwybodaeth Economaidd Sylfaenol	D-18

Atodiad E

Meini Prawf Asesu Safleoedd Posibl

E-1

Atodiad F

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

F-1

Pennod 1

Cyflwyniad

- 1.1** Ym mis Mai 2022, bu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) gomisiynu LUC i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd (SA) a oedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) o Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig Rhondda Cynon Taf (RhCT) 2022-2037. Yn unol ag argymhellion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu¹, mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd yn cynnwys asesiadau eraill, fel Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, ac yn rhoi sylw i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Adran 6). O'r herwydd, cyfeirir at y broses fel Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI).
- 1.2** Roedd CDLI mabwysiedig RhCT (Mawrth 2011) yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol trwy gydol y broses o'i baratoi, ac mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r CDLI diwygiedig yn seiliedig ar y gwaith hwnnw, lle y bo'n briodol.
- 1.3** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Strategaeth a Ffefrir (Ionawr 2024).

Ardal y Cynllun

- 1.4** RhCT yw'r awdurdod unedol mwyaf poblog yng Nghymru, ar wahân i Gaerdydd ac Abertawe, gyda phoblogaeth o oddeutu 237,700 o bobl². Mae'n cwmpasu arwynebedd o 424km² yng nghanol meysydd glo'r De, gan estyn o gyrion Caerdydd a Bro Morgannwg yn y de i Fannau Brycheiniog yn y gogledd, fel y dangosir yn **Ffigur 1.1** ar ddiwedd y bennod hon.
- 1.5** Mae rhan ogleddol RhCT wedi'i lleoli ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n gyfrifol am faterion cynllunio yn yr ardal honno. Mae saith awdurdod lleol arall yn cydffinio â RhCT: Powys i'r gogledd, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr i'r gorllewin, Bro Morgannwg a Chaerdydd i'r de, a Chaerffili a Merthyr Tudful i'r dwyrain. Bu i'r CDLI mabwysiedig nodi mai Prif Aneddiadau RhCT yw Aberdâr, Llantrisant/Talbot Green a Phontypridd.
- 1.6** Ymhlith y prif ffyrdd strategol yn RhCT mae'r M4 yn y de, yr A470 sy'n estyn o'r de i'r gogledd yn nwyrain y Fwrdeistref Sirol, yr A465 sy'n croesi gogledd y Fwrdeistref Sirol rhwng Castell-nedd Port Talbot i'r gorllewin a

¹ Llywodraeth Cymru (Mawrth 2020) Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3).

² Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cymru: Cyfrifiad 2021.

Merthyr Tudful i'r dwyrain, a'r A4119 sy'n estyn i'r gogledd i Donypanyd o'r M4 yn y de.

Y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

1.7 Bu i'r Cyngor fabwysiadu ei CDLI cyfredol ym mis Mawrth 2011, ac roedd yn amlinellu'r strategaeth gynllunio ar gyfer y Fwrdeistref Sirol (ac eithrio'r Parc Cenedlaethol) hyd at 2021. Mae'r Cyngor yn mynd ati i ddiwygio'r CDLI yn sgil Adroddiad yr Adolygiad o'r CDLI mabwysiedig a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019. Mae'r Cyngor yn dilyn y weithdrefn adolygu lawn a nodir yn Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol³ ac yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.

1.8 Ym mis Medi 2020, dechreuodd y Cyngor baratoi adolygiad cychwynnol o'r CDLI a fyddai wedi trafod Cyfnod Cynllun a fyddai wedi estyn o 2020 tan 2030. Ym mis Mawrth 2022, penderfynwyd rhoi'r gorau i'r holl waith ar y CDLI Diwygiedig hwnnw a dechrau gweithio ar CDLI Diwygiedig newydd ar gyfer Cyfnod Cynllun a fydd yn estyn o 2022 i 2037. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Gytundeb Cyflenwi CDLI Diwygiedig 2022-2037 yn ffurfiol ym mis Ebrill 2022.

1.9 Bydd y CDLI Diwygiedig yn cynnwys gweledigaeth ac amcanion ar gyfer ardal y cynllun, strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu yn RhCT, safleoedd a fydd wedi'u neilltuo ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau, gan gynnwys tai a chyflogaeth, a pholisïau rheoli datblygu i reoli'r ceisiadau a fydd yn dod i law. Yn yr un modd â'r CDLI mabwysiedig, ni fydd y CDLI Diwygiedig yn berthnasol i'r rhannau hynny o RhCT sy'n rhan o'r Parc Cenedlaethol.

Braslun o'r CDLI Diwygiedig: Y Strategaeth a Ffefrir

1.10 Mae'r ddogfen ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir (Ionawr 2024) yn cyflwyno'r broses o baratoi'r CDLI Diwygiedig, ac yn rhoi gwybodaeth gefndir am y cyd-destun polisi, y sylfaen dystiolaeth a'r tueddiadau a'r problemau sy'n effeithio ar ardal y cynllun. Yna, mae'n cyflwyno gweledigaeth gyffredinol ar gyfer RhCT a ategir gan 18 amcan. Mae'r rhain yn cydweddu'n fras ag amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (egllurir hyn ymhellach ym **Mhennod 2**).

1.11 Mae Adran 5 dogfen y Strategaeth a Ffefrir yn cyflwyno'r hierarchaeth aneddiadau, tra mae Adran 6 yn cyflwyno'r opsiynau twf ac Adran 7 yn cyflwyno'r opsiynau gofodol a ystyriwyd ar gyfer RhCT. Mae Adran 8 yn cyflwyno'r Strategaeth a Ffefrir, wedi'i hategu gan y prif ddiagram. Mae rhan olaf dogfen y Strategaeth a Ffefrir yn cyflwyno'r naw polisi strategol a ganlyn ar gyfer RhCT:

- SP1: Newid yn yr Hinsawdd a Charbon
- SP2: Creu Lleoedd a Chymunedau Cynaliadwy
- SP3: Rheoli Perygl Llifogydd
- SP4: Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol
- SP5: Seilwaith Gwyrdd a Mannau Agored
- SP6: Tai
- SP7: Tir Cyflogaeth a'r Economi
- SP8: Canolfannau Anheddiad
- SP9: Twristiaeth

Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.12 O dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Adran 62(6)), mae'n orfodol paratoi Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer pob Cynllun Datblygu Lleol. Mae hefyd yn angenrheidiol cynnal asesiad amgylcheddol yn unol â gofynion y Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (Cyfarwydddeb Ewropeaidd 2001/42/EC) a droswyd i gyfraith Cymru trwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Felly, yn unol â'r gyfraith, mae'n ofynnol i CDLI Diwygiedig RhCT fod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol trwy gydol y broses o'i baratoi.

1.13 Mae'r gofynion i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ofnion neilltuo, ond gellir bodloni'r naill ofyniad a'r llall trwy un broses arfarnu (fel y mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn ei argymhell) oherwydd gall defnyddwyr gydymffurfio â gofynion y Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol trwy un broses arfarnu cynaliadwyedd integredig, sef y broses sydd ar waith yn RhCT. O hyn ymlaen, dylid cymryd mai ystyr y term 'Arfarniad Cynaliadwyedd' (SA) (neu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI), fel proses integredig sy'n cael ei chynnal yn yr achos hwn) yw 'Arfarniad Cynaliadwyedd sy'n cynnwys gofynion Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol' (SEA)).

1.14 Mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys sawl cam, fel y dangosir yn **Ffigur 1.2** isod.

Ffigur 1.2: Prif gamau Arfarniad Cynaliadwyedd

³ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.

Cam A: Nodi'r cyd-destun a'r amcanion, pennu'r llinell sylfaen, a phenderfynu ar gwmpas yr arfarniad.

Cam B: Datblygu a mireinio opsiynau ac asesu effaith.

Cam C: Paratoi adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd.

Cam D: Ymgynghori ar y Cynllun ac adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd.

Cam E: Monitro effeithiau arwyddocaol rhoi'r cynllun ar waith.

Bodloni gofynion Rheoliadau'r SEA

1.16 Cafodd y Gyfarwydddeb SEA ei throsi i gyfraith Cymru trwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (y cyfeirir atynt fel y 'Rheoliadau SEA'). Mae'r Rheoliadau SEA yn parhau i fod mewn grym ar ôl Brexit ac, yn unol â'r gyfraith, mae'n ofynnol i'r CDLI Diwygiedig fod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol trwy gydol y broses o'i baratoi. Mae **Tabl 1.1** isod yn cyfeirio at adrannau perthnasol yr adroddiad hwn y tybir eu bod yn bodloni gofynion y Rheoliadau SEA. Bydd y tabl hwn yn cael ei gynnwys yn Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (Adroddiad yr Arfarniad) ym mhob cam o'r broses o baratoi'r cynllun i ddangos sut y cafodd gofynion y Rheoliadau SEA eu bodloni trwy gydol proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

1.17 Tabl 1.1: Gofynion Rheoliadau SEA (Cymru) ac adrannau'r adroddiad sy'n eu bodloni

Gofynion Rheoliadau SEA (Cymru)	Adrannau'r adroddiad sy'n eu bodloni
Paratoi adroddiad amgylcheddol sy'n dynodi, yn disgrifio ac yn gwerthuso'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd yn sgil gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen, a'r dewisiadau eraill rhesymol, gan gymryd i ystyriaeth amcanion a sgôp daearyddol y cynllun neu'r rhaglen (Rheoliad 12). Yr wybodaeth i'w darparu yw (Atodlen 2):	
a) Amlinelliad o gynnwys a phrif amcanion y cynllun neu'r rhaglen, a'u perthynas (os oes un) â chynlluniau a rhaglenni eraill.	Penodau 1 a 3 ac Atodiad C.
b) Agweddau perthnasol cyflwr cyfredol yr amgylchedd a'i esblygiad tebygol heb weithredu'r cynllun neu'r rhaglen.	Pennod 3 ac Atodiad D.
c) Nodweddion amgylcheddol yr ardaloedd y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn arwyddocaol.	Pennod 3 ac Atodiad D.
d) Unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen gan gynnwys, yn benodol, y rhai sy'n ymwneud ag unrhyw ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol arbennig, megis ardaloedd a ddynodwyd yn unol â Chyfarwydddeb y Cyngor 79/409/EEC ar gadwraeth adar gwylt a'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd.	Pennod 3 ac Atodiad D.
e) Amcanion diogelu'r amgylchedd, a sefydlwyd ar lefel ryngwladol, Gymunedol neu Aelod-wladwriaethol, sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen a'r dull y cyflawnwyd yr amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol a gymerwyd i ystyriaeth wrth eu paratoi.	Pennod 3 ac Atodiad C.
f) Yr effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd, gan gynnwys effeithiau byr, canolig a hirdymor, ac effeithiau parhaol a thros dro, effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac effeithiau eilaidd, cronol, a synergyddol, ar faterion gan gynnwys – bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd dynol, ffawna, fflora, pridd, dŵr, awyr, ffactorau hinsoddol, asedau materol, y dreftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys y dreftadaeth bensaernïol ac archeolegol, tirlun a'r gydberthynas rhwng y materion uchod.	Pennod 5.
g) Y mesurau a ragwelir i atal, i leihau ac i'r graddau mwyaf posibl i wrthbwysio unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd yn sgil gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen.	Pennod 5.
h) Amlinelliad o'r rhesymau dros ddedol y dewisiadau amgen yr ymdrinnir â hwy, a disgrifiad o'r dull y gwnaed yr asesiad gan gynnwys unrhyw anawsterau a gafwyd wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol.	Pennod 2.

i) Disgrifiad o'r mesurau a ragwelir o ran monitro yn unol â rheoliad 17.	Pennod 6.
j) Crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth a ddarparwyd o dan y penawdau uchod.	Bydd y gofyniad hwn yn cael ei fodloni yn ddiweddarach yn ystod proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.
Rhaid i'r adroddiad gynnwys yr wybodaeth y cyfeirir ati yn Atodlen 2 y gall fod angen rhesymol amdani, gan gymryd i ystyriaeth – yr wybodaeth gyfredol a'r dulliau asesu, cynnwys a lefel y manylder yn y cynllun neu'r rhaglen, statws y cynllun neu'r rhaglen yn y broses o wneud penderfyniadau, ac i ba raddau y mae'n fwy priodol asesu rhai materion ar wahanol lefelau yn y broses honno er mwyn osgoi dyblygu'r asesiad (Rheoliad 12(3)).	Bydd yr Adroddiadau Amgylcheddol a baratoir ym mhob cam o'r broses o lunio'r cynllun yn ymlynu wrth y gofyniad hwn.
Y gofynion ymgynghori	

Gofynion Rheoliadau SEA (Cymru)	Adrannau'r adroddiad sy'n eu bodloni
<ul style="list-style-type: none"> Wrth benderfynu ar sgôp a lefel manylion yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr adroddiad, rhaid i'r awdurdod cyfrifol ymgynghori â'r cyrff ymgynghori (Rheoliad 12(5)). 	Ymgynghorwyd â'r cyrff statudol ynghylch Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022. Mae fersiwn derfynol yr Adroddiad Cwmpasu (Rhagfyr 2022) yn cynnwys newidiadau a ddeilliodd o'r ymgynghori hwnnw (gweler Atodiad B).
<ul style="list-style-type: none"> Bydd awdurdodau â chyfrifoldebau amgylcheddol a'r cyhoedd yn cael cyfle cynnar ac effeithiol o fewn amserlenni priodol i fynegi eu barn am y cynllun drafft neu'r rhaglen ddrafft a'r adroddiad amgylcheddol sy'n cyd-fynd ag ef neu hi cyn mabwysiadu'r cynllun neu'r rhaglen (Rheoliad 13). 	Mae Adroddiad yr Arfarniad yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffeirir er mwyn ymgynghori arnynt rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024.
<ul style="list-style-type: none"> Aelod-wladwriaethau eraill yr UE y mae gweithredu'r rhaglen neu'r cynllun yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar eu hamgylchedd (Rheoliad 14). 	Amherthnasol.

Cymryd i ystyriaeth yr adroddiad amgylcheddol a chanlyniadau'r ymgynghoriadau yn y broses benderfynu (Rheoliad 16)	
<p>Darparu gwybodaeth am y penderfyniad:</p> <p>Ar ôl mabwysiadu'r cynllun neu'r rhaglen, rhaid hysbysu'r cyhoedd ac unrhyw wledydd yr ymgynghorwyd â hwy o dan Rheoliad 14 a rhaid darparu'r pethau a ganlyn er mwyn eu hysbysu:</p> <ul style="list-style-type: none"> y cynllun neu'r rhaglen, fel y'i mabwysiadwyd; datganiad sy'n crynhoi sut y cafodd ystyriaethau amgylcheddol eu hintegreiddio i'r cynllun neu'r rhaglen a sut y cafodd yr adroddiad amgylcheddol, y farn a fynegwyd a chanlyniadau'r ymgynghori a wnaed eu cymryd i ystyriaeth, a'r rhesymau dros ddewis y cynllun neu'r rhaglen a fabwysiadwyd, yng ngoleuni'r dewisiadau rhesymol eraill yr ymdriniwyd â hwy; y mesurau y penderfynwyd arnynt o ran monitro. 	Bydd y gofyniad hwn yn cael ei fodloni yn ddiweddarach yn ystod proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.
<p>Monitro effeithiau amgylcheddol arwyddocaol gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen (Rheoliad 17).</p>	Bydd y gofyniad hwn yn cael ei fodloni yn ddiweddarach yn ystod proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Nodir y dangosyddion monitro arfaethedig ym Mhennod 6.
<p>Sicrhau ansawdd: dylai adroddiadau amgylcheddol fod o safon ddigonol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb SEA.</p>	Bydd yr Adroddiadau Amgylcheddol a baratoir ym mhob cam o'r broses o lunio'r cynllun yn ymlynu wrth y gofyniad hwn.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.17 O dan Erthygl 6 (3) a (4) o Gyfarwyddeb 92/43/EEC ar Gadwraeth Cynefinoedd Naturiol a Ffawna a Fflora Gwylt (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd), mae cynlluniau defnydd tir, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol, yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Cafodd y gofyniad i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o gynlluniau datblygu ei gadarnhau gan y diwygiadau i'r Rheoliadau Cynefinoedd a gyhoeddwyd ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2007⁴. Ar hyn o bryd, y fersiwn gymwys yw Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017⁵ (fel y'u diwygiwyd). Bwriedir i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd asesu effeithiau'r cynllun yn erbyn amcanion cadwraeth safleoedd Ewropeaidd a phennu a fyddai'n effeithio'n andwyol ar uniondeb y safleoedd hynny.

1.18 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n ymwneud â CDLI Diwygiedig RhCT yn cael ei baratoi ar wahân i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, a bydd hefyd yn destun adroddiad ar wahân, yn unol â'r argymhelliad a geir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Fodd bynnag, bydd y canfyddiadau'n cael eu hystyried yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig lle y bo'n berthnasol (er enghraifft, i osod sail ar gyfer barn ynghylch effeithiau tebygol y CDLI Diwygiedig ar ffoamrywiaeth).

⁴ Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc.) (Diwygio) 2007 (2007) OS 2007/1843. Y Llyfrfa, Llundain.

⁵ Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (2017) OS 2017/1012, Y Llyfrfa, Llundain.


Strwythur yr Adroddiad hwn

1.19 Mae'r bennod hon wedi disgrifio cefndir y gwaith i adolygu CDLI RhCT a'r gofyniad i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Pennod 2: Methodoleg** yn disgrifio'r dull a ddefnyddir i baratoi Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r CDLI Diwygiedig.
- Mae **Pennod 3: Cyd-destun Cynaliadwyedd** yn disgrifio'r berthynas rhwng y CDLI Diwygiedig a chynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill, yn crynhoi nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol RhCT, ac yn pennu'r prif faterion y mae'n eu hwynebu o ran cynaliadwyedd.
- Mae **Pennod 4: Canfyddiadau'r Arfarniad ar gyfer yr Opsiynau Strategol** yn cyflwyno canfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer yr opsiynau strategol a ystyriwyd ar gyfer y CDLI Diwygiedig hyd yma.
- Mae **Pennod 5: Canfyddiadau'r Arfarniad ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir** yn cyflwyno canfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y ddogfen ymgynghori gyfredol.
- Mae **Pennod 6: Monitro** yn disgrifio'r dangosyddion a awgrymir i fonitro effeithiau posibl y CDLI Diwygiedig ar gynaliadwyedd.
- Mae **Pennod 7: Casgliadau** yn crynhoi casgliadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Strategaeth a Ffefrir ac yn disgrifio'r camau nesaf i'w cymryd o ran yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r CDLI Diwygiedig.
- Mae **Atodiad A: Sgrinio** yn disgrifio sut y cafodd y CDLI Diwygiedig ei sgrinio yn erbyn gofynion y broses Asesu Amgylcheddol Strategol a phrosesau asesu eraill.
- Mae **Atodiad B: Sylwadau Ymgynghori** yn cofnodi'r sylwadau ymgynghori a ddaeth i law o ran Adroddiad

Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac yn egluro sut yr aethpwyd i'r afael â hwy.

- Mae **Atodiad C: Adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni Perthnasol** yn cyflwyno adolygiad o gynlluniau, polisiâu a rhaglenni rhyngwladol, cenedlaethol a lleol sy'n berthnasol i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.
- Mae **Atodiad D: Gwybodaeth Sylfaenol** yn cyflwyno gwybodaeth sylfaenol am RhCT sy'n gosod sail ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.
- Mae **Atodiad E: Meini Prawf Asesu Safleoedd** yn cyflwyno'r meini prawf a ddefnyddir i sicrhau bod Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yr opsiynau o ran Safleoedd Posibl yn gyson.
- Mae **Atodiad F: Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb** yn cyflwyno asesiad o effaith y Strategaeth a Ffeirir ar gydraddoldeb.



Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans (c) Hawffraint y Goron a hawffraint cronfa ddata 2020

CB:JH EB:Harbich_J LUC Fig1_1_11226_r0 Location of RCT_A4P 11/11/2020 Fynhonnell: Data'r Arolwg Ordnans

Ffigur 1.1: Lleoliad Rhondda Cynon Taf


- Rhondda Cynon Taf
- Awdurdod lleol cyfagos
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Pennod 2

Methodoleg

21 Yn ogystal â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol, mae'r dull a ddefnyddir i baratoi Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r CDLI Diwygiedig yn seiliedig ar arferion gorau cyfredol a'r canllawiau ar baratoi Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a geir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Mae hyn yn galw am i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig gael ei gyflawni fel rhan annatod o'r broses o baratoi'r cynllun. Mae **Ffigur 2.1** trosodd yn dod o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ac mae'n nodi prif gamau'r broses o baratoi cynllun a'r ffordd y mae'r rhain yn cyfateb i broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

Ffigur 2.1: Camau cyfatebol y broses o baratoi'r cynllun a'r Arfarniad Cynaliadwyedd



22 Mae'r adrannau isod yn disgrifio'r dull a ddefnyddiwyd i baratoi Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r CDLI Diwygiedig hyd yma, ac yn darparu gwybodaeth am gamau nesaf y broses.

Cam A yr Arfarniad Cynaliadwyedd: Cwmpasu

23 Mae cam cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ymwneud â deall llinell sylfaen gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal y cynllun, ynghyd â'r cyd-destun o ran polisiau cynaliadwyedd a'r prif faterion cynaliadwyedd, ac mae'n defnyddio'r rhain i osod sail ar gyfer fframwaith yr arfarniad, fel a ganlyn.

Adolygu polisiau, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill i bennu'r cyd-destun polisi

24 Nid yw CDLI yn cael ei baratoi yn annibynnol ar bopeth arall; yn hytrach, mae'n cael ei baratoi yng nghyd-destun polisiau, cynlluniau a rhaglenni eraill. Yn unol â'r Rheoliadau SEA, mae'n ofynnol i'r Adroddiad Amgylcheddol ddisgrifio perthynas y cynllun â chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill. Dylai hefyd fod yn gyson â deddfwriaeth diogelu'r amgylchedd, a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion cynaliadwyedd a bennwyd ar lefelau rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol/is-ranbarthol.

25 Felly, cynhaliwyd adolygiad o bolisiau, cynlluniau a rhaglenni eraill ar lefelau rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol ac is-ranbarthol y tybiwyd eu bod yn berthnasol i gwmpas y CDLI Diwygiedig. Cyflwynwyd yr adolygiad hwn yn wreiddiol yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac fe'i diwygiwyd, fel yr oedd yn briodol, yn sgil y sylwadau a ddaeth i law trwy'r ymarfer ymgynghori. Cafodd y fersiwn a gyhoeddwyd yn Adroddiad Cwmpasu terfynol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (Rhagfyr 2022) ei diweddarw eto erbyn hyn fel rhan o'r broses o baratoi'r Adroddiad hwn. Mae fersiwn gyfredol yr adolygiad i'w gweld yn llawn yn **Atodiad C**, gyda chrynodeb ym **Mhennod 3**.

Casglu gwybodaeth sylfaenol i bennu'r cyd-destun o ran cynaliadwyedd

26 Mae gwybodaeth am yr amodau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cyfredol yn ardal y cynllun yn darparu llinell sylfaen y gellir asesu effaith y cynllun ar ei sail yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'u monitro tra mae'r cynllun yn cael ei roi ar waith.

27 Gellir cyfuno gwybodaeth sylfaenol hefyd â dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n sbarduno newid sy'n debygol o barhau, er gwaethaf y cynllun, er mwyn deall yr amodau cynaliadwyedd tebygol yn y dyfodol yn absenoldeb y cynllun.

28 Yn unol â'r Rheoliadau SEA, mae'n ofynnol i'r Adroddiad Amgylcheddol ddisgrifio agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a sut y maent yn debygol o ddatblygu heb y cynllun. O ddeall y dyfodol tebygol hwn, ynghyd ag effeithiau'r cynllun, fel y'u haseswyd, gall yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig adrodd ar effeithiau cronus tebygol y cynllun, sef un o ofynion eraill y Rheoliadau SEA.

29 Yn unol â'r Rheoliadau SEA, mae'n ofynnol asesu'r effeithiau o ran y 'testunau SEA' a ganlyn: bioamrywiaeth, poblogaeth, ffawna, fflora, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau materol, y dreftadaeth ddiwylliannol (gan gynnwys y dreftadaeth bensaernïol ac archeolegol), tirwedd, a'r gydberthynas rhwng y materion hyn. Felly, cafodd gwybodaeth sylfaenol ei chasglu mewn perthynas â'r testunau SEA hyn, yn ogystal â thestunau cynaliadwyedd eraill sy'n ymwneud â materion economaidd-gymdeithasol ehangach, fel tai, mynediad at wasanaethau, trosedd a diogelwch, addysg a chyflogaeth. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull integredig a ddefnyddir ar gyfer prosesau'r Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, ynghyd â'r prosesau asesu ehangach sy'n rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Cafodd yr wybodaeth sylfaenol ar gyfer RhCT, a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig er mwyn ymgynghori arno, ei diwygio a'i hehangu, lle'r oedd yn briodol, yng ngoleuni'r sylwadau a ddaeth i law trwy'r ymgynghoriad. Cafodd y fersiwn a gyhoeddwyd yn Adroddiad Cwmpasu terfynol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (Rhagfyr 2022) ei diweddarw eto erbyn hyn fel rhan o'r broses o baratoi'r Adroddiad hwn. Cyflwynir yr wybodaeth sylfaenol yn **Atodiad D**, gyda chrynodeb ym **Mhennod 3**.

Nodi'r prif faterion cynaliadwyedd

210 Drwy adolygu'r wybodaeth sylfaenol, gellir pennu'r materion cynaliadwyedd sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys unrhyw broblemau, fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau SEA.

211 Ceir manylion y prif faterion cynaliadwyedd y mae RhCT yn eu hwynebu, a dadansoddiad o'u datblygiad tebygol heb y CDLI Diwygiedig, ym **Mhennod 3**. Cyflwynwyd y prif faterion cynaliadwyedd yn wreiddiol yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a gwnaed nifer bach o newidiadau iddynt yn sgil y sylwadau a ddaeth i law trwy'r ymgynghoriad.

212 Cafodd y prif faterion cynaliadwyedd eu hadolygu eto fel rhan o'r broses o baratoi'r Adroddiad hwn, gan ystyried y sylfaen dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig. Mae'r ddogfen ymgynghori, CDLI Diwygiedig: Y Strategaeth a Ffefrir, yn pennu'r prif faterion, heriau a sbardunau sy'n wynebu RhCT. Bu i'r adolygiad o'r prif faterion cynaliadwyedd a gynhaliwyd fel rhan o'r broses o baratoi'r adroddiad hwn sicrhau eu bod yn fras yn gydnaws â'r hyn a geir yn nogfen y CDLI Diwygiedig: Y Strategaeth a Ffefrir.

Llunio Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

2.13 Bu i'r amcanion cynaliadwyedd perthnasol a bennwyd trwy adolygu polisïau, cynlluniau a rhaglenni eraill, ynghyd â'r prif faterion cynaliadwyedd y mae RhCT yn eu hwynebu a nodwyd trwy gasglu ac adolygu gwybodaeth sylfaenol, helpu i lywio'r gwaith o lunio cyfres o amcanion cynaliadwyedd ('fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig') a fydd yn sail i asesu effeithiau'r CDLI Diwygiedig.

214 Nid yw llunio fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn un o ofynion y Rheoliadau SEA, ond mae'n ffordd gydnabyddedig o ddisgrifio, dadansoddi a chymharu effeithiau tebygol cynllun ar gynaliadwyedd mewn ffordd dryloyw a chyson. Mae fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys cyfres o amcanion cynaliadwyedd a meini prawf ategol a ddefnyddir i lywio'r arfarniad o'r opsiynau a'r polisïau a geir mewn cynllun.

2.15 Cyflwynir fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig y CDLI Diwygiedig isod. Mae'r amcanion yn adlewyrchu'r dadansoddiad o'r amcanion polisi rhyngwladol, cenedlaethol a lleol, yr wybodaeth sylfaenol a'r prif faterion cynaliadwyedd a bennwyd ar gyfer RhCT. Cyflwynwyd fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn wreiddiol yn yr Adroddiad Cwmpasu, a gwnaed nifer bach o newidiadau iddo yn sgil y sylwadau a ddaeth i law trwy'r ymgynghoriad.

216 Mae amcanion y CDLI, a gyflwynir yn Adran 4 o ddogfen ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir, bron yn gyfan gwbl yr un fath ag amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd

Integredig, ac mae hyn yn adlewyrchu'r berthynas rhwng yr Arfarniad a'r broses o baratoi'r Cynllun. Fodd bynnag, mae'r CDLI yn cynnwys tri amcan ychwanegol o ran canol trefi, mynd i'r afael ag effeithiau gwaddol mwyngloddio RhCT, a thwristiaeth a hamdden. Yng nghyd-destun yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, tybir bod y materion hyn yn cael sylw o fewn cwmpas amcanion eraill sy'n ymwneud â'r economi.

217 Mae amcan 11 y CDLI hefyd ychydig yn wahanol i'r amcan cyfatebol yn yr Arfarniad. Cafodd amcan y CDLI ei ehangu i fynd i'r afael â gwella seinweddau ledled RhCT. Yn hytrach, mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ystyried yr effeithiau posibl ar seinweddau RhCT trwy amcan 4 fel rhan o'r broses o ystyried yr effaith gyffredinol ar iechyd y boblogaeth leol. Mae hyn yn cynnwys ystyried y posibilrwydd o lygredd sŵn.

Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Cwestiynau i hwyluso penderfyniadau A fydd y polisi/opsiwn/safle yn...?
<p>1.Lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, addasu iddynt, a lleihau perygl llifogydd</p>	<p>Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwyr i'r eithaf? Cyfrannu at gymuned garbon niwtral? Lleihau perygl llifogydd i bobl ac i eiddo, a chynnal y gorlifdir? Hyrwyddo'r defnydd o systemau draenio cynaliadwy a dyluniadau eraill sy'n gwrthsefyll llifogydd? Ystyried effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd ar seilwaith o bob math? Annog datblygiad ynni adnewyddadwy, gan gynnwys microgynhyrchu? Annog safonau effeithlonrwydd ynni uchel ym mhob datblygiad newydd? Hyrwyddo dyluniadau a fydd yn helpu i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd (er enghraifft, trwy godi adeiladau sy'n wynebu cyfeiriad priodol)? Osgoi datblygiadau ar orlifdir lle y bo modd, ac atal unrhyw gynnydd yn y perygl o lifogydd mewn mannau eraill? Hyrwyddo dyluniadau a fydd yn cefnogi seilwaith gwyrdd? Cynorthwyo i warchod storffeydd/dalfeydd carbon yn y Fwrdeistref Sirol i ryddhau cyn lleied â phosibl o garbon o'r pridd (gan gynnwys priddoedd heb eu troi, llystyfiant lled-naturiol a mawnogydd)?</p>
<p>2.Darparu nifer a chymysgedd priodol o dai i ddiwallu anghenion lleol</p>	<p>Darparu tai o ansawdd da? Hyrwyddo cymysgedd o dai o wahanol faint, math a deiliadaeth? Hyrwyddo tai sy'n ateb gofynion y rheiny ag anghenion penodol, gan gynnwys pobl hŷn a phobl ag anableddau? Helpu i ateb y galw am dai fforddiadwy i sicrhau bod modd i bobl leol aros yn eu cymunedau? Diogelu a gwella'r stoc dai bresennol, gan gynnwys y tai teras nodweddiadol?</p>
<p>3.Hyrwyddo cymunedau bywiog, gyda chyfleoedd i bawb fyw, gweithio a chymdeithasu</p>	<p>Annog camau i ddarparu cyfleusterau cymunedol mewn mannau hygyrch? Hyrwyddo mynediad at addysg i bawb?</p>

Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Cwestiynau i hwyluso penderfyniadau A fydd y polisi/opsiwn/safle yn...?
	<p>Ystyried anghenion grwpiau penodol, gan gynnwys y rheiny â nodweddion gwarchoddedig?</p> <p>Cynllunio lleoedd â chyfleoedd ar gyfer dinasyddiaeth weithgar i annog pobl i ymgysylltu â'u cymunedau?</p> <p>Darparu manau cyfarfod ar gyfer gwahanol ddiwylliannau?</p> <p>Hyrwyddo datblygiadau cymysg?</p> <p>Darparu mynediad cyfartal i bawb?</p> <p>Helpu i hyrwyddo datrysiadau dylunio a fydd yn helpu i ddiogelu cymunedau rhag troseddu ac i leihau ofn troseddu?</p>
<p>4. Annog ffyrdd o fyw iach a diogel sy'n hyrwyddo llesiant ac yn gwella lefelau iechyd cyffredinol RhCT</p>	<p>Hyrwyddo camau i ddarparu cyfleusterau gofal iechyd a mynediad atynt?</p> <p>Atal effeithiau annerbyniol ar amwynder (fel llygredd sŵn a golau)?</p> <p>Darparu lleoedd, fel rhandiroedd a gerddi cymunedol, a fydd yn annog pobl i fwya'n iach?</p> <p>Diogelu'r manau agored sy'n bodoli eisoes?</p> <p>Hyrwyddo camau i ddarparu cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau hamdden corfforol a chwarae (gan gynnwys cerdded a seiclo)?</p> <p>Hyrwyddo pwysigrwydd diogelu manau chwarae naturiol?</p> <p>Gwella mynediad y cyhoedd at fannau gwyrdd naturiol a/neu gefn gwlad?</p> <p>Darparu ar gyfer manau awyr agored preifat personol mewn datblygiadau newydd?</p> <p>Diogelu a gwella iechyd meddwl pobl?</p> <p>Helpu i wella'r lefelau iechyd cyffredinol ac i leihau'r anghydraddoldebau iechyd yn RhCT?</p> <p>Hyrwyddo pwysigrwydd diogelu manau chwarae naturiol?</p> <p><i>Sylwch fod y graddau y bydd opsiynau safleoedd yn hyrwyddo'r defnydd o ddulliau teithio llesol yn cael sylw o dan amcan SA 5 isod.</i></p>
<p>5. Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau mwy cynaliadwy o deithio</p>	<p>Darparu dewisiadau amgen, yn lle ceir preifat, a gwella cysylltiadau cludiant cyhoeddus?</p> <p>Gwella'r rhwydwaith trenau?</p> <p>Darparu llwybrau cerdded a seiclo diogel a deniadol?</p> <p>Lleihau'r angen i deithio mewn datblygiadau newydd?</p> <p>Sicrhau cysylltedd â band eang cyflym?</p> <p>Lleihau'r angen i allgymudo i weithio?</p> <p>Hyrwyddo camau i ddarparu seilwaith ategol ar gyfer cerbydau trydan, a'r defnydd ohonynt?</p>
<p>6. Hyrwyddo, gwarchod a gwella'r dreftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig</p>	<p>Diogelu a gwella ardaloedd ac adeiladau o bwys hanesyddol neu ddiwylliannol?</p> <p>Diogelu a gwella archaeoleg?</p> <p>Diogelu a gwella'r dreftadaeth ddiwydiannol?</p> <p>Hyrwyddo mynediad cynaliadwy at safleoedd diwylliannol?</p> <p>Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cael ei ddylunio at safon uchel?</p> <p>Diogelu a gwella cymeriad a natur unigryw yr ardal, gan gydnabod rôl arloesi?</p>

Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Cwestiynau i hwyluso penderfyniadau A fydd y polisi/opsiwn/safle yn...?
7.Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg	<p>Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith gwahanol grwpiau o bobl, gan gynnwys yn y gweithle ac mewn addysg?</p> <p>Hyrwyddo cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith?</p> <p>Hyrwyddo statws y Gymraeg?</p>
8.Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd	<p>Hyrwyddo gwelliannau i'r dirwedd lle y mae wedi'i diraddio o ganlyniad i ddefnydd diwydiannol blaenorol?</p> <p>Diogelu a gwella ardaloedd dynodedig, gan gynnwys y Parc Cenedlaethol, yn ogystal â'i leoliad yn ardal y cynllun ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig?</p> <p>Diogelu a gwella tirweddau hanesyddol?</p> <p>Diogelu a gwella cymeriad a natur unigryw tirwedd yr ardal?</p> <p>Diogelu a gwella llonyddwch a'r awyr dywyll?</p> <p>Gwella, diogelu neu reoli manteision treftadaeth ddiwydiannol y cymoedd?</p>
9.Diogelu a gwella bioamrywiaeth	<p>Gwella amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau, a chynnal a gwella poblogaethau o rywogaethau?</p> <p>Cynyddu maint y cynefinoedd a'r poblogaethau o rywogaethau a warchodir a rhywogaethau sy'n flaenoriaeth trwy fynd ati i greu, i adfer ac i reoli'n briodol rwydweithiau a chysylltiadau gwyrdd?</p> <p>Gwella a diogelu cyflwr ecosystemau a chefnogi gwaith i reoli cynefinoedd yn y tymor hir?</p> <p>Gwella cysylltedd trwy sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i greu cynefinoedd gweithredol a rhwydweithiau ecolegol?</p> <p>Gallu addasu i newid, yn enwedig i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd?</p> <p>Cyfyngu ar y potensial i amharu ar brosesau neu gysylltedd naturiol?</p> <p>Cefnogi gwaith i adfer prosesau naturiol a allai liniaru neu ddileu effeithiau eraill?</p> <p>Gwella a diogelu cysylltiadau rhwng pobl a byd natur?</p>
10.Diogelu ansawdd a nifer yr adnoddau dŵr yn RhCT	<p>Lleihau a/neu atal llygredd yn yr amgylchedd dŵr?</p> <p>Cefnogi defnydd effeithlon o ddŵr, gan gynnwys ailgylchu dŵr llwyd mewn datblygiadau newydd?</p> <p>Diogelu ansawdd a nifer y tarddleoedd dŵr daear?</p> <p>Atal datblygiadau newydd a fydd yn achosi problemau draenio (gan gynnwys o ran y cynnydd mewn arferion selio pridd)?</p> <p>Diogelu ansawdd a swm dŵr wyneb?</p> <p>Helpu i sicrhau bod seilwaith carthffosiaeth digonol ar gael a bod digon o gapasiti ar gael mewn gweithfeydd trin carthion i drin dŵr gwastraff?</p>
11.Diogelu a gwella ansawdd yr aer	<p>Osgoi cynyddu llygredd yn yr aer a gwella ansawdd yr aer?</p> <p>Lleihau allyriadau, yn enwedig mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer ac o'u hamgylch?</p> <p>Hyrwyddo polisiau a datblygiadau sy'n galluogi ac yn cynorthwyo cymunedau i fabwysiadu ffyrdd o fyw a gweithredoedd sy'n gallu diogelu neu wella ansawdd yr aer lleol?</p>

Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Cwestiynau i hwyluso penderfyniadau A fydd y polisi/opsiwn/safle yn ...?
<p>12.Hyrwyddo defnydd effeithlon o dir, priddoedd a mwynau</p>	<p>Annog aildddefnyddio tir ac adeiladau a ddatblygwyd yn flaenorol fel blaenoriaeth, lle y bo'n briodol?</p> <p>Atal a rheoli llygredd ar y tir?</p> <p>Hyrwyddo camau i adfer tir sydd wedi'i halogi?</p> <p>Diogelu adnoddau mwynol?</p> <p>Aildddefnyddio ac ailgylchu agregau ar safleoedd?</p> <p>Hyrwyddo datblygiadau mwy dwys (lle y tybir eu bod yn briodol) i gefnogi defnydd mwy effeithlon o adnoddau tir?</p>
<p>13.Parhau i leihau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu a hyrwyddo dulliau rheoli gwastraff cynaliadwy</p>	<p>Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir?</p> <p>Osgoi, lleihau, aildddefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff cyn ei anfon i safle tirlenwi?</p> <p>Gwella'r perfformiad da o ran ailgylchu ymhellach, gan gynnwys darparu cyfleusterau (domestig a masnachol)?</p> <p>Cefnogi datblygiad dewisiadau amgen, yn lle safleoedd tirlenwi, gan gynnwys cyfleusterau compostio a throi gwastraff yn ynni?</p> <p>Hyrwyddo hunangynhaliadau o ran rheoli gwastraff, lle y bo'n briodol?</p>
<p>14.Darparu ar gyfer economi gynaliadwy</p>	<p>Annog twf economaidd, yn enwedig mewn ardaloedd lle y ceir llawer o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd?</p> <p>Annog mewnfuddsoddiad a buddsoddiad cynhenid priodol?</p> <p>Cefnogi'r economi wledig?</p> <p>Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy?</p> <p>Sicrhau bod tir yn cael ei neilltuo i ddarparu ar gyfer anghenion economaidd y boblogaeth?</p> <p>Cynnal banc tir priodol o safleoedd cyflogaeth?</p> <p>Hyrwyddo bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi?</p> <p>Cefnogi camau i greu economi carbon is a gwyrddach a all fod o fudd i bob aelod o'r gymuned?</p>
<p>15.Darparu ar gyfer ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith</p>	<p>Sicrhau'r nifer mwyaf posibl o gyfleoedd cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol?</p> <p>Darparu cyfleoedd ar gyfer lefelau sgiliau amrywiol?</p> <p>Darparu swyddi mewn lleoliadau hygyrch?</p> <p>Darparu ar gyfer cyfleusterau hyfforddi i helpu i ddatblygu sylfaen sgiliau hyblyg?</p>

Ymgynghori ar gwmpas a lefel manylder yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

218 Mae cyfranogiad y cyhoedd a rhanddeiliad yn elfen bwysig o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r prosesau ehangach sy'n ymwneud â pharatoi cynllun. Mae'n helpu i sicrhau bod Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn gadarn a'i fod yn rhoi sylw dyledus i'r holl wybodaeth briodol a fydd yn cynorthwyo'r cynllun i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

2.19 Yn unol â'r Rheoliadau SEA, mae'n ofynnol ymgynghori â'r cyrff ymgynghori statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw) "wrth benderfynu ar sgôp a lefel manylion yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys" yn Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n pennu cwmpas a lefel manylder yr wybodaeth a geir yn yr Arfarniad. Felly, fel rhan o'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu, ymgynghorwyd â'r ymgynghoreion statudol ynghylch fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022.

220 Mae **Atodiad B** yn rhestru'r sylwadau a ddaeth i law am gwmpas yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, ac yn disgrifio sut yr aethpwyd i'r afael â phob un ohonynt yn yr Adroddiad Cwmpasu terfynol (Rhagfyr 2022). Mae'r diwygiadau hynny hefyd i'w gweld yn adrannau perthnasol yn adroddiad hwn.

Cam B yr Arfarniad Cynaliadwyedd: Datblygu a mireinio'r opsiynau ac asesu'r effaith

221 Mae'r broses o lunio opsiynau ar gyfer cynllun yn un iterus, ac mae fel arfer yn cynnwys nifer o ymgynghoriadau â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Gall yr ymatebion sy'n dod i law a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig helpu i bennu 'dewisiadau amgen rhesymol' eraill yn lle'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer cynllun.

222 O ran Adroddiad yr Arfarniad, mae Rhan 3 o Reoliadau SEA (Cymru) 12 (2) yn nodi'r gofyniad a ganlyn:

"Rhaid i'r adroddiad ddynodi, disgrifio a gwerthuso'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd—

(a) yn sgil gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen; a

(b) trwy ddewisiadau eraill rhesymol, gan gymryd i ystyriaeth amcanion a sgôp daearyddol y cynllun neu'r rhaglen."

223 Mae Atodlen 2 (8) o Reoliadau SEA (Cymru) yn peri iddi fod yn ofynnol i'r Adroddiad Amgylcheddol gynnwys:

"(h) amlinelliad o'r rhesymau dros ddedhol y dewisiadau amgen yr ymdrinnir â hwy."

224 Yn unol â Rheoliadau SEA (Cymru), mae'n ofynnol i'r polisiâu amgen yr ystyrir eu cynnwys mewn cynllun, y mae'n rhaid iddo fod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, fod yn 'rhesymol', felly nid oes angen arfarnu dewisiadau amgen nad ydynt yn rhesymol. Gallai enghreifftiau o ddewisiadau amgen o'r fath gynnwys opsiynau polisi nad ydynt yn bodloni amcanion y cynllun neu bolisi cenedlaethol.

225 Nid canfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw'r unig ffactorau a ystyrir wrth benderfynu ar yr opsiwn a ffeirir i fwrw ymlaen ag ef mewn cynllun. Yn wir, yn aml bydd nifer cyfartal o effeithiau cadarnhaol neu negyddol yn cael eu pennu gan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer pob opsiwn, gan beri nad yw'n bosibl eu rhoi mewn trefn ar sail eu perfformiad o ran cynaliadwyedd i ddewis opsiwn a ffeirir. Bydd y rheiny sy'n paratoi'r cynllun hefyd yn ystyried ffactorau, fel barn y cyhoedd, y gallu i roi opsiwn ar waith, a'r graddau y mae opsiwn yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol, pan fyddant yn dewis yr opsiynau a ffeirir ar gyfer eu cynllun. Mae'r adrannau a ganlyn yn amlinellu sut y cafodd y dewisiadau amgen rhesymol ar gyfer y CDLI Diwygiedig, sy'n cael eu harfarnu yn yr adroddiad hwn, eu pennu.

Opsiynau Twf

226 Un o rannau hollbwysig y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig yw pennu lefel fwyaf addas y twf a gyflawnir trwy'r cynllun. Ar sail ffynonellau tystiolaeth amrywiol, mae'r Cyngor wedi pennu pedair set wahanol o senarios twf:

- Senarios twf canolig
- Senarios twf uwch
- Senarios twf is
- Senarios ar sail cyflogaeth

227 Mae'r senarios hyn wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac mae'r canfyddiadau i'w gweld ym **Mhennod 4** o'r adroddiad hwn.

Opsiynau Gofodol

228 Bu i'r Cyngor bennu ac ystyried wyth dull gofodol gwahanol ar gyfer y CDLI Diwygiedig. Cafodd y rhain eu llunio gan

ystyried ffactorau amrywiol, fel polisiau cenedlaethol, gan gynnwys y 'prawf porth', polisiau lleol o fewn RhCT, perfformiad y CDLI cyfredol, canlyniadau'r prosesau creu gweledigaeth ac ymgysylltu, ac ystod eang o astudiaethau, tystiolaeth ac adroddiadau. Yr wyth dewis yw:

- Opsiwn 1: Parhau â strategaeth y CDLI cyfredol
- Opsiwn 2: Rhwydwaith Priffyrdd Strategol sy'n ystyried y Prif Aneddiadau
- Opsiwn 3: Canol Trefi yn Gyntaf
- Opsiwn 4: Strategaeth Twf y De
- Opsiwn 5: Metro a Nodau Cludiant Cyhoeddus
- Opsiwn 6: Safle Strategol Allweddol yn y De
- Opsiwn 7: Cyfyngiad Trefol
- Opsiwn 8: Strategaeth Anghenion Lleol

2.29 Cafodd yr opsiynau hyn eu harfarnu'n wreiddiol gan LUC yn gynnar yn 2023 a darparwyd y canfyddiadau i'r Cyngor ar ffurf crynodeb mewnol nad oedd ar gael yn gyhoeddus ar y pryd ond sy'n cael ei ailadrodd nawr ym **Mhennod 4** o'r adroddiad hwn. Rhoddodd hyn gyfle i'r Cyngor ystyried canfyddiadau'r Arfarniad, ynghyd â ffactorau perthnasol eraill, pan oedd yn llunio'r Strategaeth a Ffefrir.

Opsiynau o ran Safleoedd Posibl

Mae'r Cyngor wrthi'n llunio'i restr o opsiynau o ran Safleoedd Posibl⁶. Bydd y rhestr yn pennu opsiynau o ran safleoedd at ddibenion amrywiol, gan gynnwys tai, defnydd masnachol, twristiaeth, ac ati, gyda'r posibilrwydd o'u neilltuo yn y CDLI Diwygiedig. Caiff safleoedd eu pennu gan ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys:

Galwad am Safleoedd Posibl – mae tiffeddianwyr preifat ac asiantaethau allanol eraill yn cyflwyno safleoedd.

- Safleoedd adolygiad tir RhCT – safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor.
- Safleoedd sydd eisoes wedi'u neilltuo yn y CDLI ond nad ydynt wedi'u datblygu.
- Safleoedd a bennwyd gan y Cyngor, gan gynnwys trwy'r Astudiaeth Capasiti Trefol drosfwaol.

2.31 Bydd y safleoedd hyn yn cael eu hasesu yn unol â Methodoleg Safleoedd Posibl y Cyngor⁶. Bydd Cam 1 yn ystyried a oes cyfyngiadau sylfaenol rhag datblygu/neilltuo'r safleoedd. Bydd y safleoedd sy'n camu o Gam 1 i Gam 2 yr asesiad yn cael eu hystyried trwy'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Bydd canfyddiadau'r Arfarniad hwnnw ar gyfer yr opsiynau o ran Safleoedd Posibl yn cael eu cyflwyno yn Adroddiad yr Arfarniad ar gyfer y CDLI Adneuo.

Cam C yr Arfarniad Cynaliadwyedd: Paratoi Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

2.32 Mae'r Adroddiad hwn yn disgrifio'r broses a ddilynwyd hyd yma i gyflawni Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r CDLI Diwygiedig. Mae'n nodi canfyddiadau'r Arfarniad ar gyfer yr opsiynau twf, yr opsiynau strategol, a'r opsiynau o ran Safleoedd Posibl, yn ogystal â'r Strategaeth a Ffefrir, gan gynnwys y polisiau strategol. Cyflwynwyd yr effeithiau arwyddocaol tebygol, cadarnhaol a negyddol, gan ystyried yr effeithiau tebygol eilaidd, cronrol a synergyddol, yr effeithiau tymor byr, tymor canolig a thymor hir, a'r effeithiau parhaol a thros dro, lle y bo'n berthnasol.

2.33 Nodir canfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ym **Mhennod 4** a **Phennod 5** o'r Adroddiad hwn, ynghyd â'r argymhellion ar gyfer gwella a'r esboniadau a allai fod yn ddefnyddiol i liniaru effeithiau negyddol ac i sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r CDLI Diwygiedig.

Cam D yr Arfarniad Cynaliadwyedd: Ymgynghori ar y CDLI Diwygiedig a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

2.34 Uchod, darparwyd gwybodaeth am yr ymgynghori a wnaed yn ystod camau cynharach y broses o baratoi'r cynllun. Nawr, mae'r Cyngor yn gwahodd sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir. Mae'r Adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar yr un pryd â'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir i sicrhau bod modd darllen y ddwy ddogfen ochr yn ochr â'i gilydd. Bydd y sylwadau sy'n dod i law trwy'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad hwn yn cael eu hystyried yn ystod cam nesaf yr Arfarniad

⁶ Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (2022) CDLI Diwygiedig 2022-2037. Methodoleg Safleoedd Posibl

Cynaliadwyedd Integredig.

Cam E yr Arfarniad Cynaliadwyedd: Monitro gweithrediad y CDLI Diwygiedig

2.35 Mae'r dangosyddion drafft i fonitro effeithiau arwyddocaol tebygol gweithredu'r CDLI Diwygiedig ar y gymdeithas, yr amgylchedd a'r economi wedi'u cynnwys ym **Mhennod 6** o'r Adroddiad hwn a byddant yn cael eu diweddarau fel y bo'n briodol yn ystod camau diweddarach yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

Y Fethodoleg Arfarnu

2.36 Cafodd dewisiadau amgen rhesymol ar gyfer y CDLI Diwygiedig eu harfarnu ar sail amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a nodir yn fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, gyda symbolau'n cael eu pennu ar gyfer pob dewis i ddangos ei effaith debygol ar bob un o'r amcanion, fel y dangosir yn **Ffigur 2.2**. Lle'r oedd yr effaith gadarnhaol neu negyddol bosibl yn ansicr, ychwanegwyd marc cwestiwn at y symbol perthnasol (e.e. +? neu -?) ac fe'i lliwiwyd i ddangos a oedd yr effaith bosibl yn gadarnhaol, yn ddibwys neu'n negyddol (e.e. gwyrdd, melyn, oren, ac ati).

2.37 Mae angen pennu effeithiau tebygol yr opsiynau ac asesu eu harwyddocâd, ac mae'n anochel bod hyn yn peri bod angen gwneud cyfres o ddyfarniadau. Mae'r arfarniad wedi ceisio gwahaniaethu rhwng yr effeithiau mwyaf arwyddocaol ac effeithiau eraill llai arwyddocaol trwy ddefnyddio'r symbolau a ddangosir yn **Ffigur 2.2**. Wrth benderfynu ar arwyddocâd gwahanol effeithiau, mae'r ffin yn aml yn bur denau. Lle y defnyddiwyd naill ai (++) neu (--) i wahaniaethu rhwng effeithiau arwyddocaol ac effeithiau llai arwyddocaol (+ neu -), gwnaed hyn oherwydd tybiwyd bod effaith opsiwn neu bolisi ar yr amcan o dan sylw mor fawr fel y bydd yn cael effaith amlwg a mesuradwy, gan ystyried ffactorau eraill a allai ddylanwadu ar gyflawni'r amcan hwnnw.

2.38 Cyflwynir effeithiau cymysg dim ond mewn achosion lle y mae effeithiau sy'n gwrthwynebu'i gilydd yn uniongyrchol (h.y. cadarnhaol a negyddol) wedi'u pennu trwy'r arfarniad (e.e. +/-, ++/-, --/+ a ++/--). Ar gyfer rhai amcanion, mae'n bosibl y gallai un agwedd ar bolisi gael effaith gadarnhaol fach ac agwedd arall o'r un polisi gael effaith gadarnhaol fawr (gan roi sgôr o +/+++). Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, dim ond y sgôr fwyaf arwyddocaol a ddangosir yn nhablau'r arfarniad. Yn yr un modd, pe gallai polisi neu ddewis safle gael effaith negyddol fach a mawr (-/-) ar gyfer yr un amcan, dim ond y sgôr negyddol fawr a ddangosir yng nghanfyddiadau'r arfarniad. Mae testun cyfiawnhau'r arfarniad yn disgrifio'r achosion hynny lle y gallai elfennau amrywiol y polisi sy'n cael ei arfarnu arwain at effeithiau o wahanol feintiau.

Ffigur 2.2: Allwedd i'r symbolau a'r lliwiau yn Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig CDLI Diwygiedig RhCT

++	Effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol
++/-	Cymysgedd o effeithiau cadarnhaol sylweddol a negyddol bach yn debygol
+	Effaith negyddol fach yn debygol

+/-	Cymysgedd o effeithiau bach neu sylweddol yn debygol
-	Effaith negyddol fach yn debygol
--/+	Cymysgedd o effeithiau negyddol sylweddol a chadarnhaol bach yn debygol
--	Effaith negyddol sylweddol yn debygol
0	Effaith ddibwys yn debygol
?	Yr effaith debygol yn ansicr

Methodoleg Asesu Safleoedd Posibl

2.39 Mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y Safleoedd Posibl yn cael ei hintegreiddio â'r broses ehangach i Asesu Safleoedd Posibl. Mae fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cael ei gynnwys yn y ffurflen Asesu Safleoedd Posibl, ac mae'r safleoedd yn cael eu hasesu mewn perthynas â phob un o amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. I sicrhau bod yr arfarniad yn gyson, ac i sicrhau bod y broses Asesu Safleoedd Posibl yn bodloni gofynion Rheoliadau SEA (Cymru), bydd y meini prawf a nodir yn **Atodiad E** yn cael eu rhoi ar waith i bennu'r amgylchiadau lle y cafodd effeithiau mawr a bach, cadarnhaol a negyddol, eu pennu. Sylwch nad yw'r fersiwn hon o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cyflwyno'r canfyddiadau ar gyfer y Safleoedd Posibl. Fel y disgrifir ym **Mhennod 2** o'r adroddiad hwn, bydd y safleoedd hynny sy'n camu o Gam 1 i Gam 2 Asesiad y Cyngor o'r Safleoedd Posibl yn cael eu hystyried trwy'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Integredig, a bydd canfyddiadau'r Arfarniad ar gyfer y Safleoedd Posibl yn cael eu cyflwyno yn Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y CDLI Adneuo. Er tryloywder, mae'r meini prawf a ddefnyddir i Asesu'r Safleoedd Posibl i'w gweld yn **Atodiad E**.

2.40 Cyflwynir arfarniad y Safleoedd Allweddol Posibl a nodir yn y CDLI Diwygiedig: Y Strategaeth a Ffeirir ym **Mhennod 5** o'r adroddiad hwn. Man cychwyn y gwaith arfarnu hwn yw dadansoddiad GIS (System Gwybodaeth Ddaearyddol) ar sail y meini prawf a nodir yn **Atodiad E**. Mae hyn yn sicrhau bod modd pennu pa mor agos y mae pob safle at dderbynleoedd sensitif, yn ogystal â gwasanaethau a chyfleusterau sy'n bodoli eisoes. Mae'r arfarniad hefyd yn rhoi sylw i'r elfennau datblygu (gan gynnwys unrhyw welliannau o ran y gwasanaethau a ddarperir yn lleol, cludiant, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, ac ati) a fydd yn cael eu cyflawni ym mhob lleoliad, fel y'u nodir yn y CDLI Diwygiedig.

2.41 Mae'r meini prawf a nodir yn **Atodiad E** yn ymwneud â'r safleoedd y cynigir eu defnyddio at wahanol ddibenion⁷. Pan fwriedir defnyddio meini prawf sy'n seiliedig ar bellter o ran mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a seilwaith (e.e. cyfleusterau a fyddai o fudd i iechyd a nodau cludiant cynaliadwy), fe'u defnyddir ar sail 'pellter cerdded hawdd'. Ceir nifer o ddarnau o ymchwil sy'n rhoi canllawiau amrywiol o ran y pellteroedd cerdded a argymhellir. Er enghraifft, canfu'r Sefydliad Prifffyrdd a Chludiant mai cilometr yw hyd taith ar droed ar gyfartaledd. Mae'r pellteroedd a ddefnyddir yn **Atodiad E** hefyd yn ystyried y nod o fod yn gyson â gwaith arall sy'n cael ei wneud gan y Cyngor o ran pellteroedd cerdded.

2.42 Cafodd y cwestiynau i hwyluso penderfyniadau eu cynnwys yn **Atodiad E** yn ogystal â **Thabl 2.1** yn gynharach yn y benod hon sy'n amlinellu fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae'r cwestiynau i hwyluso penderfyniadau o'r pwys mwyaf wrth arfarnu'r opsiynau polisi ac opsiynau'r strategaeth ofodol yr ystyrir eu cynnwys yn y CDLI. Tra bydd y meini prawf asesu a geir yng ngholofn derfynol y tabl yn **Atodiad E** yn cael eu defnyddio i sicrhau cysondeb o ran arfarnu'r opsiynau safleoedd, cafodd y cwestiynau i hwyluso penderfyniadau hefyd eu cynnwys yn y tabl hwn i ddangos sut y mae'r meini prawf asesu safleoedd yn llifo o'r cwestiynau hyn ac yn gyson â hwy. I bob pwrpas, mae'r meini prawf asesu safleoedd a geir yn **Atodiad E** yn caniatáu i'r opsiynau safleoedd gael eu harfarnu mewn ffordd gyson ar sail fframwaith trosfwaol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (**Tabl 2.1**) a ddefnyddir i 'brofi' pob elfen (yr opsiynau o ran polisïau, safleoedd a strategaeth ofodol) yr ystyrir ei chynnwys yn y CDLI.

7 Mae'r meini prawf asesu safleoedd yn cynnwys meini prawf i asesu safleoeddreswyl, cyflogaeth, defnydd cymysg, manwerthu, twristiaeth a manau agored.

Anawsterau a chyfyngiadau'r data

2.43 Yn unol â Rheoliadau SEA (Cymru), Atodlen 2(8), mae'n ofynnol i'r Adroddiad Amgylcheddol gynnwys:

"...disgrifiad o'r dull y gwnaed yr asesiad gan gynnwys unrhyw anawsterau a gafwyd wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol."

2.44 Daeth nifer o anawsterau a chyfyngiadau i'r amlwg yn ystod proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, fel a ganlyn:

- Mae'r meini prawf asesu safleoedd a gyflwynir yn **Atodiad E** i'r Adroddiad hwn yn cynnwys nifer o feini prawf sy'n seiliedig ar bellteroedd a ddefnyddir i amcangyfrif effeithiau tebygol y Safleoedd Allweddol Posibl sy'n cael eu harfarnu yn yr Adroddiad hwn. Defnyddiwyd ymchwil gan y Sefydliad Prifffyrdd a Chludiant i bennu'r pellteroedd cerdded dymunol, derbyniol a dewisol uchaf at wasanaethau a chyfleusterau amrywiol. Cafodd y pellteroedd yn yr arfarniad eu mesur fel pellter llinell syth o ymyl y safle posibl at y nodweddion o dan sylw – nid oedd modd pwysu a mesur y pellteroedd gwirioneddol trwy'r rhwydwaith hawliau tramwy oherwydd nid oedd data digidol ar gael i ddangos y pwyntiau mynediad at wasanaethau a chyfleusterau na phwyntiau cyrraedd a gadael tebygol y safleoedd posibl. Nid yw pellteroedd llinell syth ychwaith yn caniatáu i rwystrau ffisegol a allai gyfyngu ar fynediad at nodweddion gael eu hystyried. Gallai rwystrau ffisegol gynnwys afonydd neu draffyrdd/ffyrdd dosbarth A mawr, fel afonydd Rhondda a Thaf a ffyrdd yr A465, yr A470 a'r M4. Felly, gallai'r pellteroedd cerdded gwirioneddol fod yn fwy.
- Yn yr un modd, defnyddiwyd pellteroedd llinell syth i ddiffinio ardaloedd y tybiwyd bod derbynleoedd amgylcheddol oddi mewn iddynt yn cael niwed i raddau amrywiol. Mewn gwirionedd, bydd y perygl o effeithiau niweidiol weithiau'n dibynnu ar lwybrau nad ydynt yn llinol (fel cyrsiau dŵr ar gyfer effeithiau llygredd dŵr) a bydd yn dibynnu ar wendidau penodol derbynleoedd penodol. Serch hynny, barnwyd bod y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn gymesur o ystyried lefel manylder y CDLI a thybiwyd eu bod yn darparu sail gyson i asesu'r Safleoedd Allweddol Posibl ar y pryd.
- Lle'r oedd Safleoedd Allweddol Posibl yn agos at ffin RhCT, gallai'r ffaith nad oedd rhywfaint o'r data gofodol yr oedd eu hangen i gynnal asesiadau agosrwydd ar gael ar gyfer cymdogaethau cyfagos, neu rannau ohonynt, fod wedi effeithio ar y dadansoddiad gofodol.
- Roedd lefel manylder y gwaith o arfarnu'r Safleoedd Allweddol Posibl yn gymesur â lefel manylder y CDLI Diwygiedig. I'r perwyl hwnnw, nid oedd modd ymchwilio i bob nodwedd leol ar bob safle. Er enghraifft, o ran effeithiau posibl y safleoedd

ar asedau bioamrywiaeth, roedd yn ofynnol seilio'r effaith a bennwyd ar agosrwydd y safleoedd at safleoedd bioamrywiaeth dynodedig yn unig. Er y cydnabyddir y gall safleoedd, mewn rhai achosion, fod yn agos at asedau uchel eu gwerth nad ydynt wedi'u dynodi, oherwydd natur strategol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, nid oedd modd ymchwilio i'r potensial hwn ar gyfer pob safle ac roedd yr effaith debygol yn seiliedig ar y safleoedd dynodedig yn unig. Tybiwyd mai hon oedd y ffordd orau o sicrhau cysondeb ac o sicrhau bod lefel manylder arfarniad pob safle yn debyg.

- Bydd cyfradd yr allyriadau o gerbydau preifat yn newid yn ystod cyfnod y cynllun o ganlyniad i welliannau technolegol nad oes modd eu rhag-weld na'u cynnwys mewn ffordd realistig mewn dyfarniadau am ansawdd yr aer ac allyriadau carbon.
- Mae rhai o'r data sydd ar gael ar lefel genedlaethol ac ar lefel sirol yn seiliedig ar adroddiadau Cyfrifiad 2011. Mae'r data hyn yn caniatáu i berfformiad y Fwrdeistref Sirol gael ei gymharu â'r perfformiad cenedlaethol o ran nifer o ddangosyddion; serch hynny, cydnabyddir bod y data hyn yn gymharol hen erbyn hyn o ystyried dyddiad y Cyfrifiad hwnnw. Cafodd rhai o ddata cychwynnol Cyfrifiad 2021 eu cyhoeddi'n ddiweddar ac fe'u nodir yn yr adroddiad hwn. Os bydd mwy o'r data hynny ar gael yn ddiweddarach yn ystod proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, fe'u defnyddir i osod sail ar ei gyfer, fel y bo'n briodol.
- Ceir bwlch data sylweddol o ran mannau gwyrdd, yn enwedig o ran hygyrchedd. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith bod y data mwyaf diweddar a oedd yn asesu'r ddarpariaeth o fannau agored ar gyfer 'safonau mannau gwyrdd naturiol hygyrch fesul awdurdod lleol' yn ymwneud â'r cyfnod 2007-2010⁸. I fynd i'r afael â'r bwlch data hwn er mwyn arfarnu'r Safleoedd Allweddol Posibl, defnyddiwyd y ffynonellau data a ganlyn:
 - Set ddata Mannau Gwyrdd Agored yr Arolwg Ordnans⁹.
 - Setiau data Cyfoeth Naturiol Cymru o ran cefn gwlad agored a thir comin^{10, 11}.
 - Set ddata Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o ran ardaloedd chwarae.

4 ⁸ StatsCymru (2010) Safonau mannau gwyrdd naturiol hygyrch fesul awdurdod lleol [ar-lein] Ar gael yn: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/State-of-the-Environment/Our-Local-Environment/AccessibleNaturalGreenspaceStandards-by-LocalAuthority>

⁹ Arolwg Ordnans (2022) Mannau Gwyrdd Agored [ar-lein] Ar gael yn: <https://www.ordnancesurvey.co.uk/business-government/products/open-map-greenspace>

5 ¹⁰ Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Mynediad Agored – Cefn Gwlad Agored. Ar gael yn: https://datamap.gov.wales/layers/inspire-nrw:NRW_OPEN_COUNTRY_2014

¹¹ Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Mynediad Agored – Tir Comin Cofrestredig. Ar gael yn: https://datamap.gov.wales/layers/inspire-nrw:NRW_COMMON_LAND_2

Pennod 3: Cyd-destun Cynaliadwyedd

- 31 Mae Atodlen 2 o Reoliadau Asesiad Amgylcheddol
- 32 Strategol (AAS) (Cymru) yn gofyn bod yr Adroddiad Amgylcheddol yn cynnwys:

(1) "aminelliad o'r... berthynas (os o gwbl) ag unrhyw gynlluniau neu raglenni perthnasol eraill"; a'r

(5) "amcanion diogelu'r amgylchedd a bennwyd ar lefel rhyngwladol, Gymunedol neu Aelod-wladwriaethol, sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen, a'r modd y rhoddwyd sylw i'r amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wrth baratoi'r cynllun neu'r rhaglen"

3.2 Disgrifir y ddogfen ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir ym **Mhennod 1**. Mae'r gofynion eraill o ran cyflwyno adroddiadau yn cael eu bodloni yn y bennod hon.


Y Berthynas â Chynlluniau neu Raglenni Perthnasol Eraill

3.3 Er mwyn sefydlu cwrpas clir ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI), mae angen adolygu a dod i ddeall yr amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a geir yn y polisiau, y cynlluniau a'r strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol sy'n berthnasol i CDLI Diwygiedig RhCT 2022-2037. Yng ngoleuni gofynion Rheoliadau AAS (Cymru) a gyflwynir uchod, mae hefyd angen ystyried y berthynas rhwng y CDLI Diwygiedig a chynlluniau, polisiau a rhaglenni perthnasol eraill.

3.4 Yn y bennod hon, cyflwynir y cynlluniau, y polisiau a'r rhaglenni cenedlaethol perthnasol sydd uwchben y CDLI y mae angen eu cymryd i ystyriaeth wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig a'r ACI, ynghyd â'r cynlluniau a'r rhaglenni sy'n berthnasol i'r CDLI yn lleol. Darperir adolygiad manwl o'r dogfennau perthnasol fesul pwnc yn **Atodiad C**. Rhoddwyd sylw i amcanion y dogfennau hyn wrth baratoi fframwaith yr ACI.

3.5 Daw **Ffigur 3.1** isod o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ac mae'n darlunio hierarchaeth cydymffurfedd cynlluniau datblygu.

Ffigur 3.1: Hierarchaeth Cydymffurfedd Cyffredinol a Chynlluniau Datblygu



3.6 Dylid nodi bod cyd-destun polisi'r CDLI Diwygiedig yn sylfaenol ansicr gan fod y sefyllfa gyffredol a ddisgrifir yma yn debygol o newid mewn ymateb i nifer o ffactorau allweddol:

- i. Brexit – Wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar 31 Ionawr 2020, dechreuodd y Deyrnas Unedig gyfnod pontio a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Bellach, nid yw cyfraith uniongyrchol berthnasol yr Undeb Ewropeaidd yn gymwys i'r Deyrnas Unedig sy'n rhydd i ddiddymu cyfraith yr UE a droswyd yn gyfraith genedlaethol; fodd bynnag, mae Rheoliadau AAS yn dal i fod mewn grym yng Nghymru ar hyn o bryd.
- ii. COVID-19 – Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at newidiadau pellgyrhaeddol yn y gymdeithas yng Nghymru ac ar draws y byd. Ni wyddom pa newidiadau fydd yn parhau yn yr hirdymor gan y bydd hynny'n dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau. Mae'r goblygiadau posibl o ran cynllunio a datblygu yn cynnwys mesurau'r Llywodraeth i ailgychwyn yr economi trwy gynnig cymorth adeiladu tai a datblygu seilwaith; newid hawliau datblygu a ganiateir; mwy o weithio o bell a llai o gymudo a'r tagfeydd a'r llygredd aer sy'n gysylltiedig â hynny; mwy o flaenoriaeth i gerdded a beicio dros drafnidiaeth gyhoeddus; a phwysau cynyddol i sicrhau bod safonau byw boddhaol, gan gynnwys mynediad i fannau gwyrdd, yn cael eu pennu a'u gorfodi.

■ 3.7 Mae'n bosibl hefyd y gwelir newid ym mholsi'r Deyrnas Unedig a'i gwledydd unigol o ran y newid yn yr hinsawdd wrth i ymwybyddiaeth y cyhoedd gynyddu ac i fygythiad y newid yn yr hinsawdd ddod yn fwy o flaenoriaeth. Darlunnir hyn gan y nifer cynyddol o awdurdodau lleol sydd wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd. Mae CBSRhCT wedi ymrwmo i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae hyn yn dilyn cyhoeddi argyfwng hinsawdd gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2019.

3.8 Cyhoeddwyd argyfwng natur ar lefel genedlaethol yn ogystal.

Y cyd-destun polisi rhyngwladol

3.9 Ar lefel ryngwladol, ceir ystod eang o gynlluniau a rhaglenni sy'n llywio ac yn ffurfio deddfwriaeth genedlaethol. Dylai polisi cynllunio yng Nghymru ar lefel genedlaethol a lleol (h.y. Polisi Cynllunio Cymru (PCC)¹² a'r CDLI Diwygiedig) roi sylw i'r ddeddfwriaeth berthnasol a chydymffurfio â hi. Cyflwynir amcanion cynaliadwyedd y cynlluniau a'r rhaglenni rhyngwladol sy'n fwyaf perthnasol i'r CDLI Diwygiedig a'r ACI yn **Atodiad C**.

Y cyd-destun polisi cenedlaethol

3.10 Mae ystod helaeth o bolisiau, cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol yn berthnasol i'r CDLI Diwygiedig a phroses yr ACI. Defnyddiwyd dull gweithredu pragmatig a chymesur i amlygu polisiau, cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol allweddol, gan ganolbwyntio ar y rhai mwyaf perthnasol. Darperir isod grynodeb o brif amcanion Polisi Cynllunio Cymru (PCC) sy'n berthnasol i'r CDLI Diwygiedig a'r ACI.

3.11 Ar ben hynny, darperir prif amcanion cynaliadwyedd y cynlluniau a'r rhaglenni cenedlaethol eraill sy'n fwyaf perthnasol i'r CDLI Diwygiedig a'r ACI yn **Atodiad C**. Mae hyn yn cynnwys Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Chynllun Datblygu Strategol Dinas-ranbarth Caerdydd (De-ddwyrain Cymru) sy'n dod i'r amlwg.

Polisi Cynllunio Cymru

3.12 PCC sy'n cyflwyno polisiau defnydd tir Llywodraeth Cymru. Ochr yn ochr â chyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN), Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru a llythyrau egluro polisi, mae PCC yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol i Gymru. Seiliwyd PCC ar gysyniad 'creu lleoedd', a ddiffinnir fel ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a

lleoedd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif ac yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu gan arwain at fuddiannau sy'n fwy na'r ffisegol a chryfhau penderfyniadau cynllunio.

3.13 Dylai CDLI Diwygiedig RhCT fod yn gyson â gofynion PCC sy'n dweud mai:

"Cynlluniau datblygu wedi'u diweddarau yw sail y system gynllunio ac maen nhw'n pennu'r cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau rhesymegol a chyson. Rhaid i'r holl gynlluniau ar bob lefel o'r

hierarchaeth cynlluniau datblygu a baratoir gydymffurfio â pholisiau cynllunio cenedlaethol ... Mae'n rhaid i gynlluniau datblygu ddangos sut y disgwylir i leoedd newid i ddiwallu anghenion datblygu dros gyfnod y cynllun"

¹² Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 11 (Llywodraeth Cymru, 2021);

- Mae natur eang PCC yn golygu bod ei oblygiadau i'r ACI yn cyffwrdd â nifer o bynciau y mae'r adroddiad hwn yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Cynigir crynodeb manylach o berthnasedd y polisi hwn a'i oblygiadau i'r broses o lunio'r cynllun a'r ACI isod.
- Mae PCC yn cyflwyno gweledigaeth sylfaenol ar gyfer paratoi pob cynllun datblygu ar ffurf pum Egwyddor Allweddol sy'n ymwneud â phynciau o bwys i'r ACI fel yr amlygir isod:
- Ceir cefnogaeth ar gyfer **tyfu'r economi** mewn ffordd gynaliadwy gan ddefnyddio'r seilwaith presennol a chynllunio ar gyfer seilwaith a gwasanaethau ategol trwy PCC. Mae'r ddogfen hefyd yn ceisio sicrhau bod pawb yn gallu teimlo buddion twf economaidd.
- Hyrwyddir defnydd effeithlon o adnoddau hefyd yn sylfaen ar gyfer datblygu cynaliadwy. Bydd hyn yn cynnwys **defnyddio tir ac adnoddau naturiol eraill mewn ffordd effeithlon**. Mae PCC yn cydnabod rôl y system gynllunio wrth sicrhau bod datblygiad yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn amlygu ei rôl o ran datgarboneiddio'r gymdeithas a datblygu economi gylchol. Mae'r egwyddorion hyn yn disgrifio sut y dylai cynlluniau datblygu lwybro mewn perthynas â **lliniaru effaith y newid yn yr hinsawdd** yn ogystal ag **ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd**.
- Mae PCC yn amlygu rôl cynllunio o ran creu lleoedd sy'n hygyrch i bawb ac yn cefnogi **iechyd a llesiant**. Dywed y gall creu lleoedd o ansawdd uchel ganiatáu i bobl fyw, gweithio, teithio a chwarae mewn ffordd sy'n cefnogi **iechyd corfforol a meddyliol da**. Ar sail hynny, dylid cynllunio amgylcheddau adeiledig a naturiol i hyrwyddo llesiant meddyliol a chorfforol. Dylid hefyd ystyried goblygiadau posibl y datblygiad o ran **trafnidiaeth**.
- Mae creu cymunedau cynaliadwy yn golygu sicrhau cydbwysedd priodol o ran defnyddiau a dwysedd, gan greu lleoedd y mae pobl am fod ynddynt i ymgysylltu ag eraill. Bydd hyn yn golygu **cyflenwi swyddi, gwasanaethau, seilwaith, cyfleusterau a chartrefi da eu hansawdd/dyluniad**.
- Mae PCC yn cyflwyno'r angen i sicrhau bod asedau naturiol, hanesyddol a diwylliannol yn cael eu diogelu, eu cadw a'u gwella. Mae'n disgrifio sut y dylai cynlluniau datblygu weithredu ym maes datblygu a'r effeithiau posibl ar **fioamrywiaeth, yr amgylchedd hanesyddol a'r Dirwedd**.

Mae hyn yn cynnwys ardaloedd sy'n rhan o'r gofrestr tirweddau hanesyddol yng Nghymru.

- Yn ogystal, dylid ceisio osgoi effeithiau amgylcheddol negyddol er lles y cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys diogelu **ansawdd aer ac ansawdd dŵr** yn ogystal â chyfyngu'r posibilrwydd o effeithiau negyddol **llygredd sŵn**. Dylid cyflwyno datblygiad mewn ffordd integredig fel na chaiff adnoddau ac asedau eraill eu difrodi neu eu colli heb fod modd eu hadfer. Dywed PCC hefyd, os na ellir rhwystro llygredd, mai'r llygrwr ddylai dalu a thrwy ddilyn yr egwyddor ragofalus hon, gellir sicrhau mesurau costeffeithiol i rwystro difrod amgylcheddol'.
- Ar sail yr Egwyddorion Allweddol, datblygodd PCC ganlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy y dylai cynlluniau datblygu eu hyrwyddo. Mae'r rhain yn adeiladu ar yr Egwyddorion Allweddol er mwyn ceisio sicrhau bod modd i'r system gynllunio gefnogi cyflwyno manau cynaliadwy.

Polisïau, cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol eraill

- Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adeiladu Lleoedd Gwell¹³, sy'n cyflwyno blaenoriaethau polisi cynllunio'r Llywodraeth a fydd yn gymorth gweithredu yn ystod y cyfnod adfer ar ôl pandemig Covid-19. Mae'n cydnabod

pwysigrwydd y system gynllunio wrth roi sylw i broblemau yn yr amgylchedd naturiol ac adeiledig sy'n deillio o'r pandemig. O ran CDLIau, mae'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cynllun cyfoes yn ei le er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau presennol a rôl bosibl y cynlluniau i wella iechyd a llesiant yn fwy cyffredinol.

- Cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040¹⁴ gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021 yn fframwaith datblygu cenedlaethol i Gymru, yn lle Cynllun Gofodol Cymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar y ddogfen wrth geisio bodloni gofynion datblygu a defnyddio tir a chyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cydnabod pwysigrwydd PCC fel y prif ddatganiad polisi cynllunio cenedlaethol ac aed ati i groesgyfeirio pob polisi a gyflwynir yn nogfen Cymru'r Dyfodol yn erbyn y rhannau priodol o PCC. Mae'n cynnwys 11 Canlyniad ar ffurf uchelgeisiau eang yn seiliedig ar yr egwyddorion cynllunio cenedlaethol a'r canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy er mwyn disgrifio sefyllfa ddisgwyliedig y wlad ar ddiwedd 20 mlynedd y cynllun. Ar ôl eu mabwysiadu, bydd gofyn i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio â Cymru'r Dyfodol.

¹³ Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2020) Adeiladu Lleoedd Gwell: y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair – Creu Lleoedd a'r Adferiad Covid
¹⁴ Llywodraeth Cymru (2021) Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040

Mae Cymru'r Dyfodol yn cyflwyno strategaeth ofodol ar gyfer y wlad. Mae'r cynllun yn amlygu ac yn cysylltu canolfannau cenedlaethol a rhanbarthol allweddol, yn creu sylfaen ar gyfer buddsoddiad hirdymor mewn seilwaith, yn nodi blaenoriaethau ar gyfer y system gynllunio a fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Yn y strategaeth ofodol mae tair Ardal Dwf Genedlaethol (Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd; Bae Abertawe a Llanelli; a Wrecsam a Glannau Dyfrdwy), y cefnogir eu twf a'u hadfywiad parhaus fel manau arwyddocaol ar lefel ryngwladol a chenedlaethol. Ategir hwy gan dair Ardal Dwf Ranbarthol (y De-orllewin, y Canolbarth a'r Gogledd) a fydd yn tyfu ac yn datblygu yn unol â'r strategaeth ofodol ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a masnachol ar raddfa ranbarthol.

Mae Cymru'r Dyfodol yn amlygu pedwar rhanbarth yng Nghymru, sef y Gogledd, y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain gan bwysleisio'r rôl bwysig fydd i gynllunio rhanbarthol yn nyfodol y wlad. Cyflwynir y dull gweithredu rhanbarthol fel ffordd o sicrhau bod datblygiad strategol yn cael ei gydlynw a'i reoli'n llwyddiannus ar draws y rhanbarthau a bod materion ehangach yn derbyn sylw ar y cyd.

Mae nifer o bolisiau, cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol eraill yn berthnasol i'r CDLI Diwygiedig a'r ACI. Yn wahanol i PCC a Cymru'r Dyfodol, mae'r rhan fwyaf o'r dogfennau hyn yn mynd i'r afael â maes pwnc penodol sy'n berthnasol i'r ACI. Bydd rhai o bynciau'r ACI a gwmpesir gan y cynlluniau a'r rhaglenni hyn yn gorgyffwrdd, yn enwedig lle mae'r dogfennau hynny'n cynnwys amcanion lefel uchel neu drawsbynciol. Gyda golwg ar hynny, mae'r cynlluniau a'r rhaglenni y bernir eu bod yn fwyaf perthnasol i'r ACI wedi'u grwpio gyda'i gilydd ar sail y pynciau y maent yn ceisio mynd i'r afael â nhw yn fwyaf uniongyrchol, ac mae'r blychau gwyrdd o dan y penawdau pwnc yn crynhoi goblygiadau'r polisiau, y cynlluniau a'r rhaglenni cenedlaethol (gan gynnwys PCC) i'r CDLI diwygiedig a'r ACI.

Ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a'i liniaru, effeithlonrwydd ynni a lleihau gwastraff

Y canlynol yw'r polisiau, y cynlluniau a'r rhaglenni cenedlaethol sy'n berthnasol i'r pwnc hwn:

- i. Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2021)¹⁵
- ii. Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Strategaeth Wastraff ar gyfer Cymru (2010)
- iii. Ynni Cymru: y Newid i Garbon Isel (2012)
- iv. Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (2017)
- v. Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar Ddraenio Cynaliadwy (SuDS) (2019)
- vi. Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019);
- vii. Cymru Sero Net – Cyllideb Garbon 2 (2021-2025) (2021)
- viii. Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer y 10 Mlynedd Nesaf 2016-2026 (2017)
- ix. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- x. Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040
- xi. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2020)
- xii. Aseiad Llesiant Cwm Taf Morgannwg 2022

xiii. Datganiad Ardal ar gyfer Canol De Cymru

¹⁵ Sylwer bod dogfen ddiwygiedig TAN 15 yn argymhell newid y parthau llifogydd i 1, 2, 3a a 3b. Gohiriwyd gweithredu'r TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd cysylltiedig ar gyfer Cynllunio oherwydd yr ymgynghori pellach ar y TAN.

Goblygiadau i'r CDLI a'r ACI: Dylai'r CDLI ystyried cyflwyno polisiau i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a hefyd i annog datblygu a fyddai'n helpu i leihau allyriadau carbon. Gellir gwneud hyn trwy leoli dyraniadau datblygu yn yr ardaloedd gorau o ran cyflawni patrymau trafndiaeth cynaliadwy ac annog datblygiadau i ddefnyddio dulliau adeiladu a ffynonellau ynni mwy cynaliadwy megis trwy'r ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt yn Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040. Dylid rhoi ystyriaeth fanwl i rôl seilwaith gwyrdd o ran lliniaru ac ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd wrth ddatblygu polisiau. Bydd hyn yn cynnwys drafftio'r CDLI er mwyn cynnwys polisiau sy'n annog ymgorffori SuDS yn y math hwn o ddarpariaeth. Dylai'r polisiau gefnogi trin gwastraff yn unol â'r hierarchaeth wastraff hefyd.

Gall yr ACI brofi dewisiadau polisi o ran eu cyfraniad i'r nodau hyn a nodi parthau twf cenedlaethol. Dylai hefyd werthuso cyfraniad posibl dewisiadau safle unigol o ran cyfyngu allyriadau carbon (gan gynnwys defnyddio ffynonellau ynni mwy cynaliadwy). Yn ogystal, dylid ystyried effaith safleoedd o ran hyrwyddo ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd ynghyd â lleihau risg llifogydd a faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

Iechyd a Llesiant

- Y canlynol yw'r polisiau, y cynlluniau a'r rhaglenni cenedlaethol sy'n berthnasol i'r pwnc hwn:
 - Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn (1997)
 - Gwella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldebau: Canllaw Ymarferol i Asesu'r Effaith ar Iechyd (2004)
 - Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009)
 - Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol (2012)
 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
 - Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) (2017)
 - Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy (2019)
 - Cynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg 2023-2028
 - Asesiad Llesiant Cwm Taf Morgannwg 2022
 - Datganiad Ardal ar gyfer Canol De Cymru

Goblygiadau i'r CDLI a'r ACI: Mae angen i'r CDLI ystyried yr angen am seilwaith gan fod hynny'n effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd. Wrth ei baratoi, dylid sicrhau bod y boblogaeth yn gallu cyrchu seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau carbon isel cynaliadwy sy'n ddigonol i wasanaethu poblogaeth fwy. Lle bwriedir cyflwyno seilwaith, dylid ystyried lleihau anghydraddoldeb yn y Fwrdeistref Sirol. Dylai hyn gynnwys gofal iechyd, addysg a mannau agored sy'n cynnig goblygiadau cadarnhaol posibl i iechyd meddwl yn ogystal ag iechyd corfforol o ran y potensial i gyfyngu ar ynysu cymdeithasol. Dylid lleoli dyraniadau datblygu mewn mannau â'r cyfleusterau mwyaf hygyrch a fyddai'n llai tebygol o arwain at ddarpariaeth ormodol. Dylid hefyd ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio dulliau teithio llesol ynghyd â goblygiadau posibl risg llifogyddi iechyd a lles.

Bydd darparu lefel briodol o dai yn ystod cyfnod y cynllun o gymorth wrth fynd i'r afael â'r gwahaniaethau mewn mynediad at dai o safon yn ardal y cynllun. Wrth ddarparu tai newydd, dylid cymryd anghenion lleoli i ystyriaeth o ran maint, math a deiliadaeth y tai, gan gynnwys anghenion Teithwyr.

Bydd modd i'r dewisiadau polisi a ystyrir ar gyfer y CDLI Diwygiediggael eu profi trwy'r ACI, o ran eu cyfraniad at y nodau hyn. Yn ogystal, dylai'r ACI arfarnu cyfraniad posibl dewisiadau safle unigol at iechyd a lles. Dylai wneud hynny trwy ystyried a oes modd i'r safle gefnogi cyflwyno seilwaith a chyfleusterau newydd a allai fod yn llesol i iechyd y cyhoedd, ynghyd â hygyrchedd y seilwaith a'r cyfleusterau cyfredol o'r math hyn. Gall fod angen ystyried capasiti'r cyfleusterau presennol wrth ystyried dewisiadau safle unigol. Yn ogystal, dylid ystyried i ba raddau y gall safleoedd gyflwyno tai newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy. Dylai'r dewisiadau polisi hefyd geisio cefnogi gwella ansawdd aer sy'n gallu effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â disgwyliad oes. Mae lle i bolisiau'r CDLI helpu i hwyluso cyflenwi bwyd iach yn lleol.

Bydd yr asesiad o'r effaith ar iechyd a chydraddoldeb sy'n rhan o'r ACI yn arbennig o bwysig wrth sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried yn fanwl.

Yr Amgylchedd (bioamrywiaeth/geoamrywiaeth, tirwedd, pridd, a seilwaith gwyrdd)

3.30 Y canlynol yw'r polisiau, y cynlluniau a'r rhaglenni cenedlaethol sy'n berthnasol i'r pwnc hwn:

TAN 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur:

Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020 – 21 (2020)

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Polisi Adnoddau Naturiol (2017)

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040

Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (2020)

Asesiad Llesiant Cwm Taf Morgannwg 2022

Datganiad Ardal ar gyfer Canol De Cymru

Goblygiadau i'r CDLI a'r AC: Dylai'r CDLI gyfyngu'r posibilrwyddo effeithiau niweidiol ar safleoedd bioamrywiaeth. Yn rhan o'r ystyriaeth hon, mae angen myfyrio ar yr effaith bosibl ar y rhwydwaith ecolegol ehangach a chyfraniad safleoedd at wytnwch ecosystemau, wrth wneud penderfyniadau. Dywed Polisi Cynllunio Cymru 11 *"na ddylai datblygu arwain at golledion mawr i gynefinoedd na phoblogaethau rhywogaeth, yn lleol nac yn genedlaethol, a rhaid iddo esgor ar fanteision net i fioamrywiaeth"*.

Dylai tirweddau pwysig, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gael eu diogelu. Dylai'r cynllun ddiogelu pridd amaethyddol gwerthfawr rhag datblygiad ac annog aildefnyddio tir llwyd lle bo hynny'n briodol. Gellir defnyddio polisiau a dyraniadau safle i gyfeirio datblygiad i fannau llai sensitif a hyrwyddo seilwaith gwyrdd/glas i gefnogi cysylltedd cynefinoedd.

Yn ogystal, dylai'r cynllun gymryd tirweddau heb eu dynodi sy'n arbennig o sensitif i ddatblygiad, a chynefinoedd heb eu dynodi sy'n rhan o'r rhwydwaith ecolegol ehangach i ystyriaeth. Mae'r cynllun hefyd yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo cyflawni enillion bioamrywiaeth.

Rôl yr ACI fydd profi'r dewisiadau polisi o ran eu heffaith ar seilwaith gwyrdd (gan gynnwys safleoedd bioamrywiaeth/geoamrywiaeth), cynefinoedd, rhywogaethau, a thirweddau gwerthfawr. Dylai hefyd arfarnu effeithiau'r dewisiadau hyn o ran hyrwyddo datblygiad ar dir llwyd a chyfyngu ar gollediad pridd amaethyddol gwerthfawr. Dylid rhoi'r un ystyriaeth hefyd i ddewisiadau safle, gan ddefnyddio canfyddiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) a gwaith asesu seilwaith gwyrdd lle bo hynny'n briodol.

Yr amgylchedd hanesyddol a diwylliant

24 Y canlynol yw'r polisiau, y cynlluniau a'r rhaglenni cenedlaethol sy'n berthnasol i'r pwnc hwn:

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg (2017)

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr amgylchedd hanesyddol (2017)

Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017)

Asesiad Llesiant Cwm Taf Morgannwg 2022

Datganiad Ardal ar gyfer Canol De Cymru

Goblygiadau i'r CDLI a'r ACI: Dylai'r gwaith o baratoi'r CDLI gael ei lywio gan effaith bosibl datblygiad newydd ar yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys cymeriad lleol ynghyd ag asedau treftadaeth dynodedig a heb eu dynodi a'u lleoliadau priodol. Gellir rhoi sylw penodoli ddiogelu asedau treftadaeth y nodwyd eu bod 'mewn perygl' (ar lefel leol a chenedlaethol). Dylid cynnwys polisiau er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn a rhoi sylw i faterion cysylltiedig posibl wrth ystyried dewisiadau safle. Dylai'r gwaith o baratoi'r CDLI hefyd roi sylw i'r Gymraeg ac ystyried yr ardaloedd lle mae'n cael ei siarad yn fwy helaeth, gan geisio cynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r iaith hefyd.

Dylai'r ACI arfarnu'r dewisiadau polisi a safleoedd o ran eu heffaith bosibl ar yr amgylchedd hanesyddol. Dylai amlygu lleoliadau lle gallai datblygiad gael yr effaith negyddol fwyaf ar yr amgylchedd hanesyddol, ar sail unrhyw waith asesu effaith ar dreftadaeth a gyflawnir er mwyn llywio'r CDLI.

Drwy'r amcan sy'n mynd i'r afael â'r asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, dylai'r ACI hefyd arfarnu pob elfen o'r CDLI o ran ei heffaith bosibl ar yr iaith. Dylai hyn ystyried cefnogaeth y cynllun ar gyfer siaradwyr presennol a siaradwyr newydd yr iaith yn ogystal ag effaith gysylltiedig bosibl y cynllun ar ddiwylliant.

Adnoddau naturiol, gan gynnwys ansawdd aer ac ansawdd dŵr

332 Y canlynol yw'r polisiau, y cynlluniau a'r rhaglenni cenedlaethol sy'n berthnasol i'r pwnc hwn:

MTAN 1:

MTAN 2: Glo (2009)

Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010

Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000

Strategaeth Ddŵr i Gymru (2015)

Polisi Adnoddau Naturiol (2017)

Strategaeth Aer Glân 2019

Dangosydd Cenedlaethol FGW Rhif 4 (lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO₂) yn yr aer)

Mynd i'r afael â chrynodeiadau nitrogen deuocsid wrth ymyl y ffordd yng Nghymru: cynllun atodol Llywodraeth Cymru i gynllun y Deyrnas Unedig ar gyfer mynd i'r afael â chrynodeiadau nitrogen deuocsid wrth ymyl y ffordd 2017 (2018)

Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (2020)

Asesiad Llesiant Cwm Taf Morgannwg 2022

Goblygiadau i'r CDLI a'r ACI: Dylai'r CDLI ystyried cyflwyno polisiau i hybu defnydd effeithlon o ddŵr a chyfyngu ar bob math o lygredd, gan gynnwys llygredd dŵr ac aer. Dylai hefyd geisio cyfyngu'r pwysau ar y seilwaith trin dŵr gwastraff lle gwelir bod hynny'n broblem. Wrth ddyrannu safleoedd datblygu, dylid rhoi sylw i'r ardaloedd sy'n fwyaf sensitif i'r materion hyn, gan gynnwys Parthau Gwarchod Tarddiad Dŵr ac Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer. Er mwyn cyfyngu ar y posibilrwydd o ddwysáu problemau ansawdd aer wrth gyflwyno datblygiadau yn ystod cyfnod y cynllun, dylai'r CDLI hefyd ystyried dewisiadau safle penodol a'u cyfraniad posibl at newid dulliau teithio a lleihau'r angen i breswylwyr deithio. Gall ansawdd aer effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar iechyd y corff a'r meddwl, a disgwyliad oes iach.

Byddai modd profi'r dewisiadau polisi o ran eu cyfraniad posibl at gyflawni'r nodau hyn trwy'r ACI. Gellir ystyried dewisiadau safle unigol o ran sensitifrwydd penodol y seilwaith trin dŵr gwastraff a meysydd eraill a amlygwyd (megis Parthau Gwarchod Tarddiad Dŵr ac Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer).

Twf economaidd

216 Y canlynol yw'r polisiau, y cynlluniau a'r rhaglenni cenedlaethol sy'n berthnasol i'r pwnc hwn:

- a. Nodyn Cyngor Technegol 19: Telathrebu (2002)
- b. Cynllun Datblygu Gwledig Cymru (2014-2020)
- c. Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad economaidd (2014)
- d. Nodyn Cyngor Technegol 4: Datblygiad Manwerthol a Masnachol (2016)
- e. Ailgodi'n Gryfach: ein cynllun ar gyfer twf (2021)

Goblygiadau i'r CDLI a'r AC: Dylai'r CDLI ddyrannu tir i gefnogi'r lefel o dwf economaidd y rhagwelir y bydd ei angen yn ystod cyfnod y cynllun. Dylai gynnwys polisiau

sy'n helpu i hybu twf cynaliadwy yr economïa chyflogaeth er lles holl aelodau'r gymuned a lleihau gwahaniaethau yn ardal y cynllun. Dylai hyn gynnwys cefnogaeth ar gyfer y seilwaithy mae'i angen er mwyn galluogi'r economïa i weithredu'n llwyddiannus (gan gynnwys cymorth sy'n cefnogi cysylltedd digidol). Dylid ystyried twf economaidd lleol yng ngoleuni'r twf economaidd ehangach a hyrwyddir yn ardal y Cymoedd, gyda Phontypridd/Threforest yn cael eu nodi'n ganolbwynt strategol ar gyfer datblygu. Dylid lleoli safleoedd cyflogaeth er mwyn galluogi pobl leol i gyrchu'r cyfleoedd cyflogaeth newydd. Gall y polisiau hefyd geisio hybu hyfywedd ardaloedd canol tref yn RhCT.

Dylai'r ACI brofi dewisiadau safle a pholisi unigol o ran eu cyfraniad posibl at gyflawni'r nodau hyn. Dylid arfarnu sut y gall dewisiadau safle gyfrannu at fodloni gofynion tir a chyflogaeth y Fwrdeistref Sirol yn ogystal â'r mynediad y byddai'r trigolion yn ei gael i'r cyfleoedd cyflogaeth a gyflwynir.

Trafnidiaeth

- f. Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007)
- g. Decarbonising Transport: A Better, Greener Britain (2021)
- h. Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021
- i. Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Goblygiadau i'r CDLI a'r AC: Dylai'r gwaith o baratoi polisiau ar gyfer y CDLI a'i ddyraniadau safle gael ei lywio gan y potensial i leihau'r angen i deithio ac i gyfyngu ar dagfeydd, a manteision cysylltiedig hynny o ran ansawdd aer a'r newid yn yr hinsawdd yn ogystal ag iechyd y cyhoedd. Gall y CDLI hefyd gefnogi dulliau teithio mwy cynaliadwy, gan gynnwys teithio llesol. Gallai hyn gynnwys cefnogi'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer beicio a cherbydau trydan/e-feiciau. Ar ben hynny, dylai'r broses o ddethol dewisiadau safle i'w datblygu gael ei llywio gan faterion megis y potensial i gyrchu nodau trafndiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol presennol a newydd, a phroblemau capasiti penodol ar y priffyrdd. Dylai'r detholiad o ddewisiadau safle unigol gael ei lywio hefyd gan eu hagosrwydd at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol, sy'n debygol o leihau'r angen i breswylwyr deithio pellteroedd hir yn rheolaidd

Dylid defnyddio'r ACI i brofi dewisiadau polisi a safle o ran eu cyfraniad at wneud dewisiadau trafndiaeth yn fwy cynaliadwy yn y Fwrdeistref Sirol. Yn ogystal â phrofi'r dewisiadau safle o safbwynt cyfyngu ar yr angen i deithio yn ardal RhCT, dylid profi eu cyfraniad o ran

cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio dewisiadau trafndiaeth mwy cynaliadwy, megis cerdded a beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Y cyd-destun is-genedlaethol

O dan y lefel genedlaethol, mae cynlluniau a rhaglenni pellach sy'n berthnasol i broses y CDLI Diwygiedig a'r ACI. Mae hyn yn cynnwys Cynllun Datblygu Strategol Dinas-ranbarth Caerdydd (De-ddwyrain Cymru) a'r Datganiad Ardal ar gyfer Canol De Cymru sy'n dod i'r amlwg. Yn ogystal â RhCT, bydd y CDS yn cwmpasu ardaloedd cynghorau Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a Bro Morgannwg, heb gynnwys unrhyw rannau o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Nid yw'r gwaith o lunio'r CDS wedi dechrau'n ffurfiol eto ond mae PCC yn egluro bod rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol a'r Cynlluniau Datblygu Strategol perthnasol.

Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau a'r rhaglenni islaw'r lefel genedlaethol yn rhai ar lefel y Fwrdeistref Sirol. Darperir manylion y cynlluniau a'r rhaglenni hynny yn **Atodiad C**.

Gwybodaeth Sylfaenol

Mae'r wybodaeth sylfaenol yn darparu cyd-destun ar gyfer asesu cynaliadwyedd cynigion yn y CDLI Diwygiedig a sylfaen ar gyfer adnabod tueddiadau, rhagfynegi effeithiau tebygol y cynllun a monitro'i ganlyniadau. Mae'r gofynion o ran data sylfaenol yn amrywio'n eang, ond mae'n rhaid iddynt fod yn berthnasol i'r materion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, yn sensitif i newid a dylent, yn ddelfrydol, ymwneud â chofnodion sy'n ddigon manwl i adnabod tueddiadau.

Mae Atodlen 2 o Reoliadau AAS (Cymru) yn gofyn casglu data ynghylch bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd dynol, flora, ffawna, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau perthnasol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archaeolegol, tirwedd a pherthynas y ffactorau uchod â'i gilydd. Gan fod AC ac AAS integredig ar waith yn rhan o broses ehangach yr ACI, mae gwybodaeth sylfaenol am bynciau cynaliadwyedd eraill hefyd wedi'u cynnwys; er enghraifft gwybodaeth am dai, addysg, amddifadedd, y Gymraeg, trafndiaeth, ynni, gwastraff a thwf economaidd.

Mae casglu a dehongli gwybodaeth sylfaenol yn ffordd werthfawr o ddod i ddeall y math o le yw RhCT a chael trosolwg strategol ohono. Oherwydd ehangder y pynciau a gwmpesir, mae'n myfyrio am gyflwr presennol yr amgylchedd, yr economi, materion cymdeithasol a'r nodweddion y mae'r cynllun yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt. Mae'r ddealltwriaeth hon yn caniatáu i ni

ystyried nid yn unig effeithiau a dylanwad y CDLI Diwygiedig ond hefyd sut y gall gyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd cyffredinol bywyd pobl a llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Cyflwynir gwybodaeth sylfaenol am RhCT yn **Atodiad D**. Dewiswyd y data y cyfeirir atynt yn bennaf ar sail rheoleidd-dra a chysondeb gwaith casglu, er mwyn gallu adnabod patrymau yn y sefyllfa sylfaenol, a hefyd monitro'r effaith bosibl ar gynaliadwyedd yn dilyn hynny. Caiff yr wybodaeth sylfaenol ei hadolygu a'i diweddarau ar bob cam o ACI CDLI Diwygiedig er mwyn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael.

Lluniwyd nifer o fapiau i ddarlunio'r wybodaeth sylfaenol, y cyfeirir atynt ar hyd **Atodiad D**. Mae'r mapiau i'w gweld ar ddiwedd **Atodiad D**.

Materion Cynaliadwyedd Allweddol

Trwy ddadansoddi'r wybodaeth sylfaenol, bu modd amlygu'r set o faterion cynaliadwyedd allweddol sy'n wynebu RhCT. Bydd amlygu'r materion cynaliadwyedd allweddol ac ystyried sut y gallent ddatblygu dros amser oni weithredir y CDLI Diwygiedig o gymorth wrth fodloni gofynion Atodlen 2 o Reoliadau AAS (Cymru) o ran darparu gwybodaeth am:

"yr agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'i esblygiad tebygol heb weithredu'r cynllun neu'r rhaglen; ac unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen."

3.46 Bu peth ansicrwydd ymysg Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) Cymru ynghylch y grym sydd i bolisiau mewn CDLI mabwysiedig unwaith y cyrhaeddir dyddiad terfynu'r cynllun (sef 2021 yn achos RhCT). Cafwyd eglurhad gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2020¹⁶ y bydd cynlluniau a fabwysiadwyd cyn Ionawr 2016 yn dal i fod yn sylfaen ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio hyd nes y disoddir hwy gan CDLI pellach. O ganlyniad, mae **Tabl 3.1** yn adlewyrchu'r dybiaeth y bydd y polisiau yn y CDLI mabwysiedig yn dal i fod yn berthnasol y tu hwnt i 2021 yn absenoldeb y CDLI Diwygiedig.

Cafodd y materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd yn AC y CDLI a fabwysiadwyd eu hadolygu a'u diwygio yn sgil diweddarau'r wybodaeth sylfaenol. Gwnaed diwygiadau hefyd er mwyn sicrhau bod y materion allweddol mewn gwirionedd yn faterion neu'n broblemau cynaliadwyedd allweddol yn hytrach nag yn sylwadau ar dueddiadau cadarnhaol o ran cynaliadwyedd, ac i adlewyrchu'r ymatebion ymgynghori a ddaeth i law mewn perthynas ag Adroddiad Cwmpasu'r ACI. Cyflwynir y set o faterion cynaliadwyedd allweddol wedi'u diweddarau ar gyfer RhCT yn **Nhabl 4.1** drosodd.

Mae Rheoliadau AAS (Cymru) hefyd yn gofyn i awdurdodau ystyried esblygiad tebygol yr amgylchedd yn ardal y cynllun (RhCT yn yr achos hwn) pe na weithredid y CDLI. Cyflwynir y dadansoddiad hwn hefyd yn **Nhabl 3.1** mewn perthynas â phob mater cynaliadwyedd allweddol.

Mae'r wybodaeth yn **Nhabl 3.1** yn dangos yn gyffredinol y byddai'r tueddiadau presennol yn y gwahanol faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar RhCT yn derbyn llai o sylw pe na weithredid y CDLI Diwygiedig, ond byddai'r polisiau yn y CDLI a fabwysiadwyd (2011) ynghyd â'r polisiau cenedlaethol a gyflwynir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol (y manylydd arnynt yn gynharach yn y bennod hon) yn gwneud cryn dipyn i ymdrin â nifer o'r materion. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r CDLI Diwygiedig yn cynnig cyfleoedd i effeithio'n uniongyrchol ar y tueddiadau presennol, a hynny mewn modd cadarnhaol, trwy sicrhau cynllun cyfoes sy'n adlewyrchu polisiau cenedlaethol.

¹⁶ Llythyr oddi wrth Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, at awdurdodau lleol, dyddiedig 24 Medi 2020.

Tabl 3.1: Materion Cynaliadwyedd Allweddol ar gyfer RhCT a'u hesblygiad tebygol heb y CDLI Diwygiedig

Materion Cynaliadwyedd Allweddol	Esblygiad Tebygol heb y CDLI Diwygiedig
Lefelau uchel o allyriadau carbon deuocsid o drafnidiaeth	Byddai'r polisïau priodol o'r CDLI mabwysiedig (2011) yn dal i fod yn berthnasol, gan gynnwys polisi CS8 – Trafnidiaeth, sy'n hyrwyddo gwelliannau i'r ddarpariaeth cerdded a beicio, a pholisi AW2 – Lleoliadau Cynaliadwy, sy'n gofyn lleoli cynigion datblygu mewn ardaloedd y mae modd eu cyrraedd yn hwylyd trwy ystod o ddewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy. Gall y polisïau mabwysiedig hyn fynd i'r afael â'r mater i ryw raddau ond mae'r rhain ar waith er 2011 ac mae lefelau allyriadau CO2 wedi parhau i gynyddu yn y cyfamser. Ar ben hynny, gallai gwelliannau mewn technoleg cerbydau (gan gynnwys polisïau PCC a deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol eraill) hefyd gyfrannu at leihau allyriadau, hyd yn oed heb CDLI Diwygiedig. Fodd bynnag, mae'r CDLI Diwygiedig yn gyfle i ddatblygu polisïau lleol penodol a chyfoes er mwyn rhoi sylw i'r broblem, a lleoli'r safleoedd a ddyrennir ar gyfer datblygiad newydd yn RhCT ger cysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy neu mewn mannau a allai ymgorffori neu ddarparu seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy newydd.
Yr angen i ddiogelu a gwella nodweddion bioamrywiaeth dynodedig a heb eu dynodi, yn enwedig yn sgil yr argyfwng natur a gyhoeddwyd ar lefel genedlaethol.	Byddai'r polisïau priodol o'r CDLI mabwysiedig (2011) yn dal i fod yn berthnasol, gan gynnwys polisi AW8 – Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol, sy'n ceisio cadw a gwella treftadaeth naturiol unigryw RhCT, gan gynnwys rhwydweithiau ecolegol a safleoedd dynodedig. Bydd y polisi hwn a pholisïau priodol eraill (gan gynnwys rhai PCC a deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol eraill), yn dal i fod yn berthnasol heb y CDLI Diwygiedig; fodd bynnag, mae'r diwygiad yn cynnig cyfle i ddatblygu polisïau lleol penodol a chyfoes sy'n rhoi sylw i ddiogelu'r amgylchedd ac i gyfeirio datblygiad yn ardal RhCT (trwy ddyraniadau safle priodol) i leoliadau lle bydd niwed i fioamrywiaeth yn cael ei osgoi.
Yr angen i ddiogelu a gwella tirwedd sensitif, yn enwedig o gwmpas Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.	Byddai'r polisïau priodol o'r CDLI mabwysiedig (2011) yn dal i fod yn berthnasol, gan gynnwys polisi AW6 – Dylunio a Chreu Lleoedd, sy'n gofyn bod cynigion datblygu yn diogelu ac yn gwella'r dirwedd. Byddai'r polisi hwn a pholisïau perthnasol eraill (gan gynnwys rhai PCC a deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol eraill), yn dal i fod yn berthnasol heb y CDLI Diwygiedig; fodd bynnag, mae'r diwygiad yn cynnig cyfle i ddatblygu polisïau lleol penodol a chyfoes sy'n rhoi sylw i ddiogelu'r dirwedd ac i gyfeirio datblygiad yn ardal RhCT (trwy ddyraniadau safle priodol) at leoliadau lle bydd niwed i dirweddau sensitif yn cael ei osgoi. Gellir datblygu polisïau dylunio hefyd i sicrhau y caiff datblygiadau newydd eu dylunio'n briodol er mwyn lleihau'r effaith ymhellach. Gan hynny, ni fyddai'r mater yn cael cystal sylw heb y CDLI Diwygiedig.
Llecynnau ag ansawdd aer gwael, yn enwedig lle cyhoeddwyd nifer o Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer, sy'n gallu cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd naturiol ac ar iechyd pobl. Mae'r ansawdd aer gwael yn yr ardaloedd hyn yn adlewyrchu'r lefel uchel o draffig sy'n teithio'n rheolaidd trwy'r Fwrdeistref Sirol.	Byddai'r polisïau priodol o'r CDLI mabwysiedig (2011) yn dal i fod yn berthnasol, gan gynnwys polisi CS8 – Trafnidiaeth, sy'n hyrwyddo gwelliannau i ddarpariaethau cerdded a beicio, a pholisi AW2 – Lleoliadau Cynaliadwy sy'n gofyn lleoli cynigion datblygu mewn ardaloedd y mae modd eu cyrraedd yn hwylyd trwy ystod o ddewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy. Byddai polisi AW10 – Diogelu'r Amgylchedd ac Iechyd y Cyhoedd yn parhau i helpu i gyfyngu'r niwed posibl i iechyd neu amwynder o ganlyniad i ddatblygiadau a allai arwain at llygredd aer fel arall. Gall y polisïau mabwysiedig hyn fynd i'r afael ag ansawdd aer i ryw raddau trwy annog newid dulliau teithio a lleihau llygredd aer posibl o ffynonellau eraill, ond mae'r rhain ar waith er 2011 ac mae'r duedd wedi parhau yn y cyfamser. Ar ben hynny, gallai gwella technoleg cerbydau a throi oddi wrth losgi coed a glo fel ffynonellau tanwydd (yn ogystal â pholisïau PCC a deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol eraill) gyfrannu at leihau allyriadau o gerbydau a ffynonellau eraill gan wella ansawdd aer, hyd yn oed heb y CDLI Diwygiedig. Mae'r gofyniad i'r Cyngor ddynodi Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer a llunio Cynlluniau Gweithredu ar Ansawdd Aer er mwyn helpu i leihau llygredd aer hefyd yn debygol o gyfrannu at wella ansawdd aer yn RhCT. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd llygredd aer yn lleihau'n gyflym yn RhCT os bydd y dull gweithredu arferol yn parhau. Mae'n werth nodi bod nifer o'r ardaloedd mwy difreintiedig yn y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys mannau ag ansawdd aer gwael. Mae'r CDLI Diwygiedig yn gyfle i ddatblygu polisïau cyfoes er mwyn mynd i'r afael â'r broblem a dyrannu safleoedd a fydd yn cyfeirio'r symudiadau cysylltiedig gan gerbydau i ffwrdd o'r ardaloedd ag ansawdd aer gwael. Dylid drafftio'r polisïau a gaiff eu cynnwys yn y CDLI Diwygiedig i helpu i leihau llygredd aer gan roi sylw arbennig i'r ardaloedd lle gwelir yr effeithiau mwyaf niweidiol.
Y cynnydd diweddar mewn troseddau cysylltiedig â chyffuriau.	Byddai'r polisïau priodol o'r CDLI mabwysiedig (2011) yn dal i fod yn berthnasol, gan gynnwys polisi AW5 – Datblygiadau Newydd sy'n gofyn bod cynigion datblygu yn dileu cyfleoedd ar gyfer troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy eu dylunio. Fodd bynnag, nid yw'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys polisïau sy'n rhoi sylw penodol i droseddau cysylltiedig â chyffuriau a gwelwyd cynnydd yn y math hwn o droseddau er 2018, h.y. yn ystod oes y CDLI mabwysiedig. Gellid disgwyl felly i'r patrwm barhau heb y CDLI Diwygiedig, ond mae'n anodd pennu pa ffactorau y tu hwnt i'r system gynllunio a allai fod yn dylanwadu ar y patrwm hwn. Mae'r CDLI Diwygiedig yn gyfle i gynnwys polisïau penodol a chyfoes er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.
Lefelau cymharol uchel o amddifadedd cysylltiedig ag iechyd o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda mwy o bobl yn profi iechyd gwael neu wael iawn a chyfran lai yn profi iechyd da neu dda iawn.	Byddai'r polisïau priodol o'r CDLI mabwysiedig (2011) yn dal i fod yn berthnasol, gan gynnwys polisi AW2 – Lleoliadau Cynaliadwy sy'n gofyn bod cynigion datblygu yn cynnig mynediad da at wasanaethau allweddol (gan gynnwys meddygon teulu) a pholisi AW10 – Diogelu'r Amgylchedd ac Iechyd y Cyhoedd, sy'n ceisio atal cynigion datblygu rhag niweidio iechyd y cyhoedd, e.e. trwy allyriadau neu amwynder. Fodd bynnag, mae'r polisïau hyn ar waith er 2011 ac mae iechyd y cyhoedd yn dal i fod yn fater allweddol i'r Fwrdeistref Sirol. Disgwylir y bydd ôl-ffaith pandemig

Materion Cynaliadwyedd Allweddol	Esblygiad Tebygol heb y CDLI Diwygiedig
	y Coronafeirws yn dylanwadu i ryw raddau ar batrymau iechyd yn RhCT yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r CDLI Diwygiedig yn cynnig cyfle i ddatblygu polisiâu cyfoes ym maes iechyd y cyhoedd (gan gynnwys rhoi sylw i effeithiau'r pandemig) ac i'r polisiâu hynny fod yn destun Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn rhan o'r ACI ehangach. Gan hynny, ni fyddai amddifadedd iechyd yn cael cystal sylw heb y CDLI Diwygiedig.
Lefelau gwael o gyrhaeddiad addysg.	Byddai'r polisiâu priodol o'r CDLI mabwysiedig (2011) yn dal i fod yn berthnasol, gan gynnwys polisi AW4 – Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio, sy'n dweud bod modd defnyddio rhwymedigaethau cynllunio i geisio cyfraniadau ar gyfer seilwaith, gan gynnwys cyfleusterau addysg. Fodd bynnag, mae'r CDLI mabwysiedig ar waith er 2011 ac mae addysg yn dal i fod yn fater allweddol i'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r CDLI Diwygiedig yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â chyrraeddiad addysgol trwy bolisiau cyfoes a thrwy gyfeirio datblygiad (trwy ddyraniadau safle) at leoliadau lle ceir cyflenwad da o gyfleusterau addysg neu lle gellid gwneud darpariaeth newydd.
Cyfran uchel o dai teras a'r angen i sicrhau cymysgedd gwell o fathau o dai mewn datblygiadau newydd, gan gynnwys tai y gellir eu haddasu er mwyn diwallu anghenion pobl hŷn a phobl ag anawsterau symud.	Nid yw'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys polisiâu sy'n ceisio sicrhau cymysgedd ehangach o fathau o dai yn y Fwrdeistref Sirol yn uniongyrchol, ond mae PCC yn dweud y dylai datblygiadau newydd gynnwys cymysgedd o fathau o dai. Er bod datblygiadau newydd yn fwy tebygol o gynnwys amrywiaeth o dai, yn enwedig tai sengl, tai pâr a fflatiau, o gymharu â'r tai teras nodweddiadol, mae'r CDLI Diwygiedig yn cynnig cyfle i ddatblygu polisiâu lleol cyfoes sy'n cyflwyno gofynion penodol o ran y math a'r cymysgedd o dai yn ardal RhCT, gan gynnwys mesurau ar gyfer tai fforddiadwy. Gan hynny, ni fyddai'r cymysgedd o dai yn cael cystal sylw heb y CDLI Diwygiedig.
Lefelau cymharol uchel o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd o gymharu â Chymru a gweddill y Deyrnas Unedig, ynghyd â'r argyfwng costau byw presennol a'r tebygolrwydd y bydd economi'r Deyrnas Unedig yn llithro i ddirwasgiad ffurfiol.	Mae'r dirwasgiad disgwylidig yn debygol o effeithio'n sylweddol ar dueddiadau economaidd a lefelau diweithdra yn dilyn pandemig y Coronafeirws, gyda mwy o bobl yn debygol o ddod yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar, a dim ond hyn a hyn o sylw y gall y CDLI Diwygiedig ei roi i'r broblem hon. Yn wyneb y dirwasgiad disgwylidig, mae'n arbennig o bwysig bod gan RhCT bolisiau a dyraniadau safle lleol penodol a chyfoes sy'n ymwneud â'r economi a datblygu cyflogaeth.
Lefel y siaradwyr Cymraeg yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.	Nid yw'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys polisi penodol ynghylch y Gymraeg, ac mae'r cynllun ei hun yn dweud na chredid bod hynny'n angenrheidiol ar y pryd. Bydd y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig a'r asesiad o'i oblygiadau o ran y Gymraeg, a ddarperir trwy'r ACI, yn gyfle i ailedrych ar y mater hwn a datblygu polisi lleol yn benodol er mwyn amddiffyn y Gymraeg ac annog pobl i ddefnyddio'r iaith.
Dirywiad yn y sector gweithgynhyrchu a'r angen i arallgyfeirio i feysydd eraill, gan gynnwys twristiaeth.	Fel y nodwyd uchod, mae'r dirwasgiad yn dilyn pandemig y Coronafeirws yn debygol o effeithio'n sylweddol ar dueddiadau economaidd, a dim ond hyn a hyn o sylw y gall y CDLI Diwygiedig ei roi i hynny. Yn wyneb y dirwasgiad disgwylidig, mae'n arbennig o bwysig bod gan RhCT bolisiau cyfoes sy'n ymwneud â'r economi ac yn cefnogi datblygiad cysylltiedig â thwristiaeth yn benodol. Gan hynny, ni fyddai'r mater hwn yn cael cystal sylw heb y CDLI Diwygiedig.
Ceir ardaloedd sy'n wynebu risg uwch o lifogydd yn ardal y cynllun, a leolir yn gyffredinol ger y prif gyrsiau dŵr. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd mewn rhai o'r prif aneddiadau. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio'n negyddol ar amllder a difrifoldeb llifogydd, megis y rhai a welwyd yn sgil stormydd nerthol Ciara a Denis yn ddiweddar, a effeithiodd yn sylweddol ar ardal RhCT. Mae'n debygol hefyd y bydd y newid yn yr hinsawdd yn cael effaith negyddol ar lifogydd sy'n deillio o ffynonellau lleol, megis dŵr arwyneb, dŵr daear ac afonydd bychain, ffosydd a nentydd.	Mae polisi AW10 – Diogelu'r Amgylchedd ac Iechyd y Cyhoedd yn y CDLI mabwysiedig yn gofyn bod datblygiad yn ystyried y niwed posibl i iechyd ac amwynder yng nghyswllt risg llifogydd yn ardal y cynllun. Mae'r CDLI Diwygiedig yn cyflwyno cyfle i leihau hyd yr eithaf ar y datblygiadau newydd sy'n ofynnol yn ystod cyfnod y cynllun yn yr ardaloedd lle mae'r risg llifogydd yn uwch (gan ystyried y diweddiadau i'r ardaloedd sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd). Dylai'r polisi diwygiedig sy'n cael ei gynnwys ymgorffori'r angen am gamau lliniaru lle na ellir osgoi risg llifogydd, megis trwy gyflwyno systemau draenio trefol cynaliadwy (a gefnogir ar hyn o bryd trwy Bolisi AW6 – Dylunio a Chreu Lleuoedd).
Mae nifer o gyrsiau dŵr yn ardal y cynllun mewn cyflwr ecolegol gwael ac mae rhai yn methu'r nod o ran eu statws cemegol.	Mae polisi AW 8 – Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol yn y CDLI mabwysiedig yn rhoi sylw i ddiogelu rhwydweithiau ecolegol, ansawdd adnoddau naturiol, megis aer, dŵr a phridd, a draenio dŵr arwyneb yn naturiol. Mae'r CDLI Diwygiedig yn cyflwyno cyfle i gyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd lle mae potensial iddo gyfrannu at fethiant y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr mewn corff dŵr a nodwyd. Dylai penderfyniadau ynghylch lleoli datblygiad newydd gael eu gwneud yng ngoleuni'r dystiolaeth sylfaenol ddiweddaraf ynghylch ansawdd dŵr yn ardal RhCT.

Materion Cynaliadwyedd Allweddol	Esblygiad Tebygol heb y CDLI Diwygiedig
<p>Capasiti cyfyngedig mewn rhai gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn RhCT i ddarparu ar gyfer datblygiadau newydd. Bydd y trefniadau newydd i dynnu dŵr o afon Taf wrth iddi lifo i Fae Caerdydd, a dalgylchoedd isafonydd Rhondda Fawr a Rhondda Fach ar gael pan fydd lefel llif yr afon yn ganolog neu'n uchel yn unig.</p>	<p>Mae polisi AW 4 – Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio yn y CDLI mabwysiedig yn darparu ar gyfer ceisio rhwymedigaethau cynllunio pan fydd angen seilwaith newydd i wneud cynigion yn dderbyniol o safbwynt cynllunio. Ar ben hynny, mae'r gofynion seilwaith a gyflwynir ar gyfer dyraniadau safleoedd strategol yn y CDLI mabwysiedig yn nodi bod gofyn i safleoedd 'Tir ger Nant y Wenallt', 'Tir i'r Dwyrain o Dre-nant' a'r 'hen Waith Brics, yr hen hufenfa a thir y domen y tu cefn i Birchwood' ariannu'r gwaith angenrheidiol i uwchraddio Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Cynon. Mae'r CDLI Diwygiedig yn gyfle i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gweithredu'n amserol i gefnogi cyflwyno'r seilwaith newydd angenrheidiol. Wrth baratoi'r cynllun, rhoddir sylw i'r wybodaeth ddiweddaraf am gapasiti'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn RhCT, gan gynnwys achosion lle mae datblygiadau newydd a gyflawnwyd oddi ar ddyddiad mabwysiadu'r CDLI wedi arwain at newid capasiti.</p>

Pennod 4

Canfyddiadau'r ACI ar gyfer yr Opsiynau Strategol a'r Opsiynau Safle

14 Mae'r bennod hon yn nodi canfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ar gyfer yr opsiynau twf amgen rhesymol ac opsiynau'r strategaeth ofodol. Esbonnir datblygiad yr opsiynau hyn ym **Mhennod 2**.

ACI o'r opsiynau twf

17 Mae'r adran hon yn cyflwyno arfarniad o'r opsiynau twf amgen rhesymol yn y drefn y maent wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir.

18 Mae'r opsiynau wedi'u grwpio fel a ganlyn.

Opsiynau twf canolig

- v **Opsiwn A:** Senario Prif Amcanestyniadau Poblogaeth 2018 Llywodraeth Cymru – Mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar Brif Amcanestyniadau Poblogaeth 2018 Llywodraeth Cymru gyda chyfanswm datblygiadau tai o **8,450 o anheddau** dros gyfnod y cynllun a thwf cyflogaeth o **266 o swyddi** y flwyddyn.
- v **Opsiwn B:** Senario 5 mlynedd a arweinir gan anheddau – Mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar gyfraddau cwblhau tai blynyddol cyfartalog RhCT rhwng 2016/17 a 2020/21, gyda chyfanswm datblygiadau tai o **7,635 o anheddau** dros gyfnod y cynllun a thwf cyflogaeth o **187 o swyddi** y flwyddyn.

Twf uwch

- v **Opsiwn C:** Senario Amcanestyniadau Poblogaeth Uchel 2018 Llywodraeth Cymru – Mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar Amcanestyniad Poblogaeth Uchel 2018 Llywodraeth Cymru gyda chyfanswm datblygiadau tai o **10,815 o anheddau** dros gyfnod y cynllun a thwf cyflogaeth o **343 o swyddi** y flwyddyn.
- v **Opsiwn D:** Amcanestyniadau poblogaeth/aelwydydd yn seiliedig ar batrymau mudo y 5 mlynedd diwethaf – Mae'r opsiwn hwn yn graddnodi amcanestyniadau poblogaeth/aelwydydd yn seiliedig ar batrymau mudo o 2015/16 i 2019/20¹⁷ gyda chyfanswm datblygiadau tai o **10,230 o anheddau** dros y flwyddyn.

¹⁷ Defnyddio data'r ONS ar gyfer Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn.

gyfnod y cynllun a thwf cyflogaeth o **355 o swyddi** y flwyddyn.

Twf isel

- v **Opsiwn E: Senario Amcanestyniadau Poblogaeth Isel 2018 Llywodraeth Cymru** – Mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar ragdybiaethau isel o ran ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo, o gymharu â Phrif Amcanestyniadau Poblogaeth 2018 Llywodraeth Cymru gyda chyfanswm datblygiadau tai o **5,295 o anheddau** dros gyfnod y cynllun a thwf cyflogaeth o **182 o swyddi** y flwyddyn.
- v **Opsiwn F: Amcanestyniadau poblogaeth/aelwydydd yn seiliedig ar batrymau mudo yr 19 mlynedd diwethaf** – Mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar ragdybiaethau mudo rhwng 2001 a 2020¹⁸ gyda chyfanswm datblygiadau tai o **5,730 o anheddau** dros gyfnod y cynllun a **92 o swyddi** y flwyddyn.

Senarios a arweinir gan gyflogaeth

- v **Opsiwn G: Senario Oxford Economics a arweinir gan gyflogaeth** – Mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar ddull 'dim polisi', lle mae twf poblogaeth yn cael ei sbarduno gan y tueddiadau twf cyflogaeth a ragwelir, heb unrhyw ymyrraeth polisi, gyda chyfanswm datblygiad tai o **6,705 o anheddau** dros gyfnod y cynllun a **32 o swyddi** y flwyddyn.
- v **Opsiwn H: Sefyllfa 'gyda pholisi' a arweinir gan gyflogaeth** – Mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar dwf poblogaeth sy'n adlewyrchu twf cyflogaeth blynyddol cyfartalog wedi'i addasu o 168 o swyddi ychwanegol y flwyddyn ar gyfer RhCT, gan ragdybio twf yn y dosbarthiadau defnydd tir diwydiannol yn bennaf. Y lefel ddisgwyliedig o dwf ar gyfer yr opsiwn hwn yw chyfanswm datblygiad tai o **8,820 o anheddau** dros gyfnod y cynllun a **168 o swyddi** y flwyddyn.

Ymagwedd at yr ACI

Oherwydd y tebygrwydd rhwng y ffigurau tai a swyddi sydd wedi'u cynnwys yn yr opsiynau ym mhob grŵp uchod, mae'n annhebygol y bydd yr ACI yn nodi unrhyw wahaniaethau ystyrlon yn effeithiau tebygol yr opsiynau hynny. Felly, mae'r ACI yn cynnwys arfarniad o'r opsiynau twf uchel, canolig ac isel gyda'i gilydd.

O ystyried y dull o grwpio'r opsiynau unigol sy'n cynnwys lefelau twf tebyg, ystyrir bod Opsiwn G: senario Oxford Economics a arweinir gan gyflogaeth yn rhan o'r opsiwn grŵp twf isel, ac ystyrir bod Opsiwn H: senario 'gyda pholisi' a arweinir gan gyflogaeth yn rhan o'r opsiwn grŵp twf canolig. Lle gellir dangos gwahaniaethau o ran effeithiau tebygol opsiynau sy'n rhan o bob un o'r opsiynau twf wedi'u grwpio, mae'r ACI yn eu disgrifio?

Mae **Tabl 4.1** ar ddiwedd yr adran hon yn cyflwyno effeithiau tebygol y tri grŵp o opsiynau twf ar bob un o amcanion yr ACI. Dylid nodi bod yr opsiynau twf yn cael eu hystyried ar wahân i opsiynau ar gyfer dosbarthiad gofodol datblygiadau ar gyfer RhCT. Felly, mae ansicrwydd ynghlwm wrth lawer o'r effeithiau a gofnodir oherwydd bydd llawer o effeithiau yn dibynnu i raddau helaeth ar leoliad y datblygiad, yn hytrach na maint cyffredinol y twf.

Disgwylir i'r opsiwn twf uwch gael effeithiau mwy sylweddol (yn gadarnhaol ac yn negyddol) ar amcanion yr ACI, o ystyried y raddfa dwf uwch a fyddai'n digwydd yn RhCT. Disgwylir i'r opsiwn hwn arwain at effeithiau negyddol sylweddol mewn perthynas â'r amcanion amgylcheddol - **Amcanion ACI 6: treftadaeth, 8: tirwedd, 9: bioamrywiaeth, 10: dŵr a 12: adnoddau tir**. Mae hyn yn adlewyrchu'r tebygolrwydd y bydd galw cynyddol am dir ac adnoddau eraill i gefnogi lefel uwch o dwf a'r potensial y bydd

angen dosbarthiad ehangach o ddatblygiad, gyda mwy o ddatblygiad yn digwydd mewn lleoliadau a allai fod yn sensitif a lleoliadau na fu unrhyw darfu arnynt hyd yma. Er y gallai'r opsiwn hwn arwain at lefel o dwf a allai ddarparu'r màs critigol i gefnogi darparu gwasanaethau newydd a seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy, bydd y mathau hyn o fuddion yn dibynnu'n fawr ar ddsbarthiad datblygiadau a'r dewis o safleoedd. O'r herwydd, ystyrir bod darparu lefelau uchel o dwf yn debygol o gynyddu nifer y teithiau sy'n cael eu gwneud yn rheolaidd yn RhCT, gyda sgil-ffeithiau sylweddol hefyd yn cael eu cofnodi mewn perthynas ag **amcanion ACI 1: newid hinsawdd, 5: trafnidiaeth** ac **11: ansawdd aer**.

Byddai'r opsiwn twf uwch hwn yn darparu'r nifer uchaf o dai fforddiadwy a thai'r farchnad agored, gan gyfrannu'n fawr at angen lleol, yn ogystal â chynyddu'r boblogaeth oedran gweithio gyda buddion mewn perthynas â thwf swyddi lleol. Felly, mae effeithiau cadarnhaol sylweddol yn debygol mewn perthynas ag **amcanion ACI 2: tai, 14: yr economi** a **15: cyflogaeth**. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghlwm wrth yr effeithiau cadarnhaol a gofnodir mewn perthynas â'r amcanion ACI hyn o ystyried y byddai cyfanswm y datblygiadau sydd eu hangen yn golygu bod angen cyflawni llawer mwy na chyfraddau adeiladu yn y gorffennol a'r galw disgwylidig yn y farchnad.

Mae'r opsiwn twf isel yn debygol o leihau'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol sylweddol sy'n ymwneud ag amcanion amgylcheddol yr ACI, yn enwedig o gymharu â'r opsiwn twf uwch. Y rheswm am hyn yw y bydd yr opsiwn twf is yn gofyn am lai o ddefnydd tir ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau. Mae hefyd yn adlewyrchu'r cynnydd mwy cyfyngedig mewn cartrefi a busnesau yn RhCT a allai fel arall arwain at dwf sylweddol yn nifer y teithiau, pwysau ar hamdden a llygredd, yn ogystal â gweithgareddau dynol eraill. I'r gwrthwyneb, er y byddai'n haws cyflawni'r opsiwn hwn, o ystyried lefel ddisgwylidig is y datblygiadau, byddai'n debygol o gyflawni'n llai ffafriol na'r opsiwn twf uchel o ran bodloni'r gofyniad am dai a chefnogi creu swyddi yn y Fwrdeistref Sirol.

Drwy'r opsiwn twf canolig, gellid cyflawni lefel gyflawnadwy ond uchelgeisiol o dai a thwf swyddi. Er bod lefel y twf a nodir yn is na'r opsiwn twf uwch, cefnogir cyflawni'r opsiwn twf canolig gan y dystiolaeth fwyaf sylweddol ac fe'i hystyrir yn fwy realistig a chyflawnadwy. Mae gan yr opsiwn hwn y potensial i gyflawni llawer o fuddion lefel uchelgeisiol, gymharol uchel o dwf ac, yn bwysig, ystyrir bod yr effeithiau cadarnhaol a nodir yn fwy sicr. At hynny, mae'r opsiwn hwn hefyd yn debygol o osgoi cymaint o effeithiau negyddol sylweddol â'r opsiwn twf uchel.

Mae'r potensial i gydbwyso lefel twf cyflawnadwy sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at yr angen am dai lleol a thwf economaidd, yn erbyn effeithiau amgylcheddol mwy cymedrol, yn gosod yr opsiwn twf canolig fel yr opsiwn sy'n cyflawni gryfaf.

¹⁸ Ibid.

Tabl 4.1: Canfyddiadau SA ar gyfer yr Opsiynau Twf

Amcan yr ACI	Opsiyndau twf canolig	Opsiyndau twf uwch	Opsiyndau twf isel	Cyfiawnhad
<p>Amcan ACI 1: Lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a lleihau perygl llifogydd</p>				<p>Mae i ba raddau y byddai'r opsiynau wedi'u grwpio yn arwain at fwy o ddefnydd o geir, gyda'r allyriadau cysylltiedig, yn cael ei ystyried ar wahân o dan amcan ACI 5. Felly, mae'r arfarniad yn erbyn yr amcan ACI hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar yr effeithiau y byddai pob opsiwn yn eu cael o ran nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig ag adeiladu ac unwaith y bydd cartrefi a busnesau wedi'u meddiannu, yn ogystal â pherygl llifogydd.</p> <p>Mae'r ardaloedd sydd â'r perygl llifogydd uchaf yn RhCT yn gysylltiedig ag afonydd Cynon a Thaf, sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de drwy'r Fwrdeistref Sirol. Felly, mae datblygiad o fewn gorlifdroedd yr afonydd hynny, yn ogystal â chyrsiau dŵr eraill, yn debygol o arwain at fwy o bobl ac asedau yn agored i berygl llifogydd. Mae ardaloedd lle mae perygl llifogydd uchel wedi'u nodi yn rhai o'r prif aneddiadau, gan gynnwys Aberdâr a Phontypridd. Nid yw'r opsiynau wedi'u grwpio sydd dan ystyriaeth drwy'r rhan hon o'r ACI yn nodi dosbarthiad gofodol ar gyfer datblygiadau, a nodir y gellid osgoi'r ardaloedd hyn wrth ddewis safle a bod potensial i liniaru drwy fesurau dylunio.</p> <p>Gallai opsiynau wedi'u grwpio a fyddai'n arwain at lefelau uwch o ddatblygiadau ar safleoedd maes glas gael effeithiau negyddol ar berygl llifogydd o ganlyniad i leihau maint arwynebau athraidd a chynnyddu dŵr ffo.</p> <p><u>Opsiyndau twf canolig</u></p> <p>Byddai lefel y twf tai a chyflogaeth sydd i'w darparu o dan yr opsiwn hwn yn arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr wrth i gartrefi a busnesau newydd gael eu datblygu a'u meddiannu. Mae potensial i ymgorffori effeithlonrwydd ynni, ond bydd hyn yn dibynnu'n bennaf ar ddyluniad datblygiadau newydd ac nid ar lefel gyffredinol y datblygiadau. Mae'n debygol y bydd angen cymryd rhywfaint o faes glas hefyd i gyflawni'r opsiwn canolig hwn. Disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol fach.</p> <p><u>Opsiyndau twf uwch</u></p> <p>Mae'r lefel uwch o dwf tai a chyflogaeth sydd i'w darparu drwy'r opsiwn hwn yn debygol o arwain at lefel o allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n fwy na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer y senarios isel a chanolig. Er na ragdybir dosbarthiad y datblygiad ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau wedi'u grwpio, mae'r lefel uwch o ddatblygiadau a fyddai'n digwydd drwy'r opsiwn hwn yn debygol o arwain at lefelau uwch o safleoedd maes glas yn cael eu datblygu a chynnydd mewn arwynebau anathraidd sy'n debygol o gynyddu'r potensial ar gyfer llifogydd dŵr wyneb. Gallai'r lefel uwch o ddatblygiadau hefyd olygu y gallai fod angen mwy o safleoedd datblygu mewn ardaloedd lle mae mwy o berygl llifogydd. Disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol sylweddol.</p> <p><u>Opsiyndau twf isel</u></p>

Amcan yr ACI	Opsionau twf canolig	Opsionau twf uwch	Opsionau twf isel	Cyfiawnhad
				Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at y lefel isaf o ddatblygiadau, a byddai disgwyl lefelau mwy cymedrol o allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn cysylltiad â'r twf a fyddai'n digwydd. Mae lefel is y datblygiad hefyd yn debygol o leihau faint o safleoedd maes glas y byddai angen eu cymryd, gyda llai o arwynebau anathraidd yn cael eu creu yn ardal y cynllun. Disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol fach.
<p>Amcan ACI 2: Darparu swm</p> <p>a chymysgedd priodol o dai i ddiwallu anghenion lleol</p>	++	++?	+/-	<p>Mae'r rhan fwyaf o'r opsiynau unigol sydd dan ystyriaeth wedi cael eu dyfeisio i ddarparu lefel o dai a fyddai o leiaf yn cyfateb i'r nifer ddisgwyliedig o aelwydydd a fyddai'n cael eu creu o dan bob un o'r opsiynau dan sylw. O'r herwydd, disgwylir y byddai'r rhan fwyaf o opsiynau yn darparu'r nifer o gartrefi sydd eu hangen i ateb y galw disgwyliedig dros gyfnod y cynllun.</p> <p><u>Opsionau twf canolig</u></p> <p>Byddai'r opsiynau yn y grŵp canolig yn darparu nifer cymharol uchel o gartrefi newydd i ddiwallu anghenion lleol. Disgwylir i lefel y twf tai dros gyfnod y cynllun ar gyfer yr opsiwn hwn gynnwys cyfran o dai fforddiadwy yn unol â'r polisi cynllunio. Fodd bynnag, mae hyn yn annhebygol o gyflawni'r angen dynodedig am dai fforddiadwy ar gyfer RhCT, fel y nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2022). Cefnogir lefel y twf a nodir drwy'r opsiwn hwn gan y dystiolaeth fwyaf sylweddol ac ystyrir mai dyma'r opsiwn mwyaf realistig y gellir ei gyflawni o'r opsiynau sydd dan ystyriaeth. Disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol sylweddol.</p> <p><u>Opsionau twf uwch</u></p> <p>Byddai'r opsiwn twf uwch yn darparu nifer uwch o gartrefi newydd i gyd-fynd â dyheadau'r ardaloedd twf cenedlaethol. Er y bwriedir i'r opsiwn hwn gynyddu'r boblogaeth oedran gweithio a darparu mwy o dai fforddiadwy a swyddi, mae ansicrwydd ynghylch a ellid darparu nifer yr anheddau sydd eu hangen yn realistig dros gyfnod y cynllun. Felly, mae'r effaith gadarnhaol sylweddol a gofnodir ar gyfer yr opsiwn hwn yn ansicr.</p> <p><u>Opsionau twf isel</u></p> <p>Fel gyda'r opsiynau canolig ac uwch, byddai'r opsiwn isel yn bodloni'r nifer ddisgwyliedig o aelwydydd ar gyfer y senario. Yr opsiwn hwn fyddai'r hawsaf i'w gyflawni o'r opsiynau sydd dan ystyriaeth yn bennaf, gyda'r potensial ar gyfer twf yn cael ei ddarparu'n bennaf ar safleoedd banciau tir a safleoedd ar hap presennol, gyda llai o ddyraniadau yn angenrheidiol. Fodd bynnag, byddai'r opsiwn hwn yn llawer llai uchelgeisiol na'r opsiynau eraill sydd dan ystyriaeth, a byddai'n llai tebygol yn y tymor hir o ddarparu lefel y tai a fyddai'n diwallu'r angen lleol am dai fforddiadwy a thair farchnad agored. Disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol fach.</p>
Amcan ACI 3: Hyrwyddo cymunedau bywiog, gyda	+?	+?	+/-?	Mae llawer o'r agweddau ar annog ymgysylltu â'r gymuned a sicrhau bod anghenion ystod ehangach o breswylwyr yn cael eu diwallu y tu hwnt i ddylanwad lefel y twf a gyflawnwyd dros gyfnod y cynllun. Mae gan ddsbarthiad gofodol y datblygiadau, y mathau penodol o ddatblygiadau a ddarperir a dyluniad y datblygiadau hyn fwy o gyfle i ddylanwadu ar yr amcan hwn. Felly, mae'r effeithiau a gofnodir ar gyfer pob opsiwn twf yn ansicr i raddau.

Amcan yr ACI	Opsionau twf canolig	Opsionau twf uwch	Opsionau twf isel	Cyfiawnhad
chyfleoedd i fyw, gweithio a chymdeithasu i bawb				<p><u>Opsionau twf canolig</u></p> <p>Disgwylir y byddai lefel y twf a nodir drwy'r opsiwn hwn yn helpu i gefnogi hyfywedd gwasanaethau presennol a darparu gwasanaethau a chyfleusterau newydd yn RhCT. Felly, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol fach.</p> <p><u>Opsionau twf uwch</u></p> <p>Gallai darparu ar gyfer lefel uwch o dwf tai a chyflogaeth drwy'r opsiwn hwn fod â mwy o botensial i gefnogi gwasanaethau a chyfleusterau newydd a phresennol yn RhCT. Fodd bynnag, byddai'r buddion hyn yn cael eu dylanwadu'n bennaf gan ddsbarthiad y datblygiad ac a yw'n cael ei ddarparu mewn lleoliadau lle mae gwasanaethau a chyfleusterau yno'n barod a fyddai'n elwa ar fwy o ymwelwyr, neu os yw'n cael ei ddarparu mewn modd a fyddai'n cyflawni màs critigol i gefnogi darpariaeth gwasanaethau newydd. Mae rhywfaint o botensial hefyd i'r opsiwn hwn arwain at rai gwasanaethau a chyfleusterau yn RhCT yn cael eu gorlwytho o ystyried y lefel uwch o dwf a ddisgwylir. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol fach bosibl.</p> <p><u>Opsionau twf isel</u></p> <p>Byddai'r opsiwn twf isel yn darparu'r lefel isaf o ddatblygiad, felly ystyrir mai'r opsiwn hwn yw'r un lleiaf tebygol o gefnogi gwasanaethau a chyfleusterau presennol yn RhCT. Drwy'r opsiwn llai uchelgeisiol hwn, mae'n annhebygol y bydd y lefel is o dwf a ddarperir yn cefnogi lefelau uchel o ddarpariaeth gwasanaethau newydd er budd y gymuned. Er yr ystyrir mai'r opsiwn hwn yw'r un lleiaf tebygol o arwain at orlwytho gwasanaethau a chyfleusterau presennol, mae potensial ar gyfer effeithiau andwyol o'r math hwn yn dibynnu ar union ddsbarthiad gofodol y datblygiadau. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach.</p>
Amcan ACI 4: Annog ffyrdd iach a diogel o fyw sy'n hyrwyddo lles ac yn gwella lefelau iechyd cyffredinol yn RhCT.	+?	+?	+/-?	<p>Mae RhCT yn cyflawni'n llai ffafriol na Chymru gyfan o ran iechyd, gyda chyfran uwch o'r boblogaeth yn profi iechyd gwael neu wael iawn, yn ogystal â chyfran lai yn profi iechyd da neu dda iawn. Yn RhCT, mae 22.5% o breswylwyr yn dweud bod eu hiechyd cyffredinol 'ddim yn dda'. Gall ddsbarthiad datblygiad o fewn y Fwrdeistref Sirol effeithio ar iechyd mewn sawl ffordd.</p> <p>Bydd i ba raddau y bydd y gwahanol opsiynau wedi'u grwpio yn cefnogi darpariaeth mannau agored newydd ac yn diogelu mannau agored presennol lle gall preswylwyr gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn cael ei ddylanwadu fwyaf gan y dewis o safleoedd penodol i'w datblygu, yn ogystal â'u dyluniad. At hynny, bydd y potensial i ddarparu cyfleusterau gofal iechyd da i breswylwyr a chefnogi teithio drwy gerdded a beicio yn cael ei ddylanwadu fwyaf gan ddsbarthiad gofodol y datblygiadau dros gyfnod y cynllun. Bydd y gwahanol lefelau o ddatblygiadau y darperir ar eu cyfer dros gyfnod y cynllun gan yr opsiynau wedi'u grwpio yn cefnogi hyfywedd cyfleusterau gofal iechyd presennol a darparu cyfleusterau gofal iechyd newydd i raddau amrywiol, ac mae ganddo'r potensial i arwain at orlwytho cyfleusterau gofal iechyd presennol mewn rhai achosion. Mae'r effeithiau a ddisgwylir ar gyfer amcan ACI 4 yr un fath â'r rhai a gofnodir ar gyfer amcan ACI 3.</p>
Amcan ACI 5: Lleihau'r angen i	+/-?	- /+?	+/-?	<p>Darperir darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn RhCT drwy gyfuniad o wasanaethau bws a thrên. Y bws yw'r prif ddull trafnidiaeth gyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r ardal yn cael ei wasanaethu gan fwy nag 80 o lwybrau gweithredol, sy'n cynnwys gwasanaethau trawsffiniol rheolaidd i drefi a dinasoedd cyfagos. Mae yna hefyd rwydwaith rheilffyrdd helaeth, gyda'r Fwrdeistref Sirol yn cael ei wasanaethu gan 22 o orsafoedd, er bod y ddarpariaeth yn fwy helaeth yn y gogledd o gymharu â'r de. Mae gwasanaethau trên yn gweithredu i Gaerdydd o</p>

Amcan yr ACI	Opsionau twf canolog	Opsionau twf uwch	Opsionau twf isel	Cyfiawnhad
deithio a hyrwyddo dulliau teithio mwy cynaliadwy				<p>Bontypridd, Treherbert ac Aberdâr ac i Gaerdydd o Ben-y-bont ar Ogwr gyda threnau'n galw ym Mhont-y-clun. Bydd Metro De Cymru sydd ar ddod yn gwella cysylltiadau â Dinas Caerdydd yn sylweddol. Mae'r prosiect yn cynnwys Canolfan Rheoli Metro newydd yn Ffynnon Taf ac adeoli gorsaf bresennol Ystâd Trefforest.</p> <p>Bydd y potensial i leihau'r angen i deithio'n rheolaidd ac annog teithio gan ddefnyddio dulliau mwy cynaliadwy yn cael ei ddylanwadu fwyaf gan ddsbarthiad gofodol y datblygiadau yn hytrach na graddfa gyffredinol y twf. Lle mae preswylwyr yn agos at wasanaethau a chyfleusterau a swyddi a nodau trafndiaeth gynaliadwy, byddant yn fwy tebygol o deithio gan ddefnyddio dulliau cynaliadwy. Mae gan ddsbarthiad y datblygiadau hefyd y potensial i arwain at greu mäs critigol lle gellir cefnogi gwasanaethau trafndiaeth gynaliadwy newydd. Nid yw'r un o'r opsiynau wedi'u grwpio sydd dan ystyriaeth yn mynd i'r afael â dosbarthiad y datblygiadau, felly mae'r effeithiau a gofnodir yn ansicr i raddau.</p> <p><u>Opsionau twf canolog</u></p> <p>Byddai lefel y twf a nodir drwy'r opsiwn canolog yn arwain at gynnydd yn nifer y teithiau a wneir mewn car wrth i gartrefi a busnesau gael eu meddiannu. Fodd bynnag, mae'r lefel gyfatebol o dai a thwf swyddi a gyflawnir yn debygol o gefnogi lefel hunangynhaliol yn RhCT, gan leihau'r angen am allgymudo. Byddai'r lefel hon o dwf hefyd yn cefnogi hyfywedd trafndiaeth gynaliadwy yn RhCT. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach.</p> <p><u>Opsionau twf uwch</u></p> <p>Mae'n debygol, wrth i lefel y datblygiadau tai a chyflogaeth gynyddu yn ardal y cynllun, y bydd nifer y teithiau a wneir gan gerbyd preifat hefyd yn cynyddu. Gallai'r opsiwn hwn gefnogi cynnydd yn y boblogaeth a fyddai'n cefnogi hyfywedd gwasanaethau trafndiaeth gynaliadwy. Byddai'r nifer uwch o swyddi sy'n cael eu creu hefyd yn cefnogi elfen hunangynhaliol. Fodd bynnag, byddai'r cynnydd mwy yn y boblogaeth yn arwain at gynnydd cyffredinol yn nifer y teithiau, gyda chyfran o breswylwyr yn debygol o orfod cymudo y tu allan i RhCT ar gyfer rhai mathau o swyddi. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol sylweddol.</p> <p><u>Opsionau twf isel</u></p> <p>Drwy'r opsiwn isel, byddai'r lefel gymharol isel o ddatblygiad yn helpu i gyfyngu ar nifer y teithiau rheolaidd a fyddai'n cael eu gwneud yn RhCT dros gyfnod y cynllun. Fodd bynnag, ystyrir bod lefel y twf yn llai tebygol o gefnogi hyfywedd hirdymor trafndiaeth gynaliadwy yn RhCT, er y byddai unrhyw ddsbarthiad gofodol a fyddai'n cael ei gyflawni hefyd yn dylanwadu ar hyn. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach.</p>
Amcan ACI 6: Hyrwyddo, diogelu a gwella	-?	--?	-?	<p>Mae gan RhCT dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a chyfoeth o asedau treftadaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol, ledled y trefi a'r ardaloedd mwy gwledig. Mae'r rhain yn amrywio o ran maint o adeiladau sengl a henebion i ardaloedd o barciau a gerddi hanesyddol. Mae 369 o adeiladau rhestredig ar draws RhCT, gyda thri ohonynt yn rhai Gradd I. Mae 36 yn adeiladau rhestredig Gradd II* a 330 yn rhai Gradd II.</p> <p>Mae gan bob datblygiad newydd y potensial i gael effaith ar yr amgylchedd hanesyddol, gan effeithio'n uniongyrchol ar asedau ac effeithio'n anuniongyrchol ar eu lleoliad. Nid yw'r potensial ar gyfer effeithiau yn cydberthyn i agosrwydd datblygiad at ased treftadaeth, ond bydd effeithiau'n cael eu dylanwadu'n rhannol gan ddsbarthiad gofodol y datblygiadau</p>

Amcan yr ACI	Opsionau twf canolig	Opsionau twf uwch	Opsionau twf isel	Cyfiawnhad
treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig				<p>nad yw'n cael sylw yn unrhyw un o'r opsiynau twf sydd dan ystyriaeth. At hynny, bydd effeithiau penodol, gan gynnwys i ba raddau mae datblygiad newydd yn gwella'r amgylchedd hanesyddol, yn dibynnu ar ddyluniad a chynllun cynigion penodol. Felly, mae ansicrwydd penodol ynghlwm wrth yr effeithiau a nodir ar gyfer pob un o'r opsiynau twf mewn perthynas â'r amcan ACI hwn.</p> <p><u>Opsionau twf canolig</u></p> <p>Mae gan y lefel gymharol uchel o ddatblygiad a nodir drwy'r opsiwn canolig y potensial i effeithio ar gymeriad RhCT yn ogystal â gosod asedau treftadaeth yn ardal y cynllun. Mae potensial i liniaru drwy ddewis safleoedd lle mae gwella neu osgoi niwed yn bosibl, a hefyd drwy ddyluniad y cynigion. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol fach.</p> <p><u>Opsionau twf uwch</u></p> <p>Bydd darparu nifer uwch o gartrefi a datblygiadau i gefnogi mwy o swyddi dros gyfnod y cynllun yn golygu y bydd angen datblygu mwy o safleoedd neu safleoedd mwy o faint yn RhCT. Mae datblygu mwy o safleoedd yn RhCT yn debygol o gynyddu'r potensial ar gyfer datblygu o fewn yr ardaloedd mwy sensitif o ran asedau treftadaeth. At hynny, lle mae safleoedd mwy yn cael eu datblygu, mae potensial i'r effeithiau ar leoliad asedau treftadaeth fod yn fwy sylweddol. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol sylweddol.</p> <p><u>Opsionau twf isel</u></p> <p>Drwy gyfyngu ar gyfanswm y twf yn RhCT, disgwylir y gallai'r opsiwn wedi'i grwpio hwn helpu i leihau'r potensial ar gyfer effeithiau niweidiol ar asedau treftadaeth yn RhCT. Gallai'r opsiwn hwn leihau'r angen am ddatblygiad mewn lleoliadau mwy sensitif. Lle mae angen datblygiadau mewn lleoliadau mwy sensitif, mae mwy o botensial i leihau maint y safle neu ddwysedd y datblygiadau a chyflawni mesurau lliniaru mwy priodol. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol fach.</p>
Amcan ACI 7: Hynwyddo'r defnydd o'r Gymraeg	0	0	0	<p><u>Pob Opsiwn</u></p> <p>Yng nghyd-destun y De, mae RhCT yn cyflawni'n dda ar y cyfan o ran y defnydd o'r Gymraeg. Adroddodd Cyfrifiad 2021 fod 12.4% o bobl tair oed a hŷn yn RhCT yn gallu siarad Cymraeg. Roedd hyn yn gynydd bach ar y 12.3% o'r boblogaeth yr adroddwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011. Nid yw'n glir a fyddai datblygiad newydd mewn ardaloedd sydd â chyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yn ysgogi lefelau uwch o ddefnydd o'r Gymraeg, neu a allai datblygiad newydd yn yr ardaloedd hynny wanhau'r defnydd o'r Gymraeg. Felly, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau neu wahaniaethu rhwng effeithiau tebygol yr opsiynau twf wedi'u grwpio ar yr amcan ACI hwn. Ystyrir bod pob opsiwn yn cael effeithiau dibwys.</p>
Amcan ACI 8: Diogelu a gwella	-?	--?	-?	<p>Mae RhCT yn ymestyn o ucheldiroedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd i gyrion Bro Morgannwg. Y nodwedd ganolog yw llwyfandir y meysydd glo, sy'n cynnwys cymoedd afonydd Rhondda a Chynon a rhannau o gymoedd afonydd Taf ac Elái. Mae gan gymoedd Cynon a Rhondda ochrau serth ar y cyfan, gyda lloriau dyffryn cul sy'n llawn adeiladau</p>

Amcan yr ACI	Opsionau twf canolig	Opsionau twf uwch	Opsionau twf isel	Cyfiawnhad
ansawdd a chymeriad y dirwedd				<p>a llethrau sydd wedi'u gorchuddio gan redyn, sy'n cael eu ffermio neu'n goediog. I'r de o Bontypridd, mae Cwm Taf yn lletach ond wedi ei ddatblygu'n drwm. Mae gan ran ddeheuol y Fwrdeistref Sirol dirwedd feddalach, fwy iseldirol o ffermydd, coedwigoedd, tiroedd comin, trefi a phentrefi. Ystyrir bod yr holl effeithiau ar yr amcan ACI hwn yn ansicr o ystyried y bydd dosbarthiad gofodol y datblygiad, lleoliad penodol safleoedd datblygiadau a'u dyluniad, yn dylanwadu'n gryf ar effeithiau.</p> <p><u>Opsionau twf canolig</u></p> <p>Mae gan y lefel gymharol uchel o ddatblygiad a nodir drwy'r opsiwn canolig y potensial i effeithio ar gymeriad RhCT, gan gynnwys cymeriad ei thirwedd. Heb ddosbarthiad gofodol disgwylid y datblygiad, rhagdybir efallai y bydd angen datblygu rhai safleoedd maes glas a safleoedd mewn lleoliadau mwy sensitif o ran cymeriad eu tirwedd. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol fach.</p> <p><u>Opsionau twf uwch</u></p> <p>Bydd darparu nifer uwch o gartrefi a datblygiadau i gefnogi mwy o swyddi dros gyfnod y cynllun yn golygu y bydd angen datblygu mwy o safleoedd neu safleoedd mwy o faint yn RhCT. Mae datblygu mwy o safleoedd yn RhCT yn debygol o gynyddu'r potensial ar gyfer datblygu o fewn yr ardaloedd mwy sensitif o ran cymeriad eu tirwedd. Gall hyn gynnwys ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol neu'r ardaloedd hynny sy'n rhan o'i leoliad. At hynny, lle mae safleoedd mwy yn cael eu datblygu, mae potensial i effeithiau ar gymeriad y dirwedd fod yn fwy sylweddol. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol sylweddol.</p> <p><u>Opsionau twf isel</u></p> <p>Drwy sicrhau twf is yn RhCT, disgwylir y gallai'r opsiwn hwn helpu i leihau'r potensial ar gyfer effeithiau niweidiol ar dirweddau sensitif yn RhCT. Gallai'r opsiwn hwn leihau'r angen am ddatblygiad mewn lleoliadau mwy sensitif. Lle mae angen datblygiadau mewn lleoliadau mwy sensitif, mae potensial i leihau datblygiadau neu ddwysedd y datblygiadau fel y gellid ymgorffori mesurau lliniaru priodol. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol fach.</p>
Amcan ACI 9: Diogelu a gwella bioamrywiaeth	-?	--?	-?	<p>Mae asedau bioamrywiaeth wedi'u dosbarthu'n gymharol eang ar draws y Fwrdeistref Sirol, gyda Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINCs) yn cwmpasu ardaloedd helaeth, yn enwedig yn y gogledd, a nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn y de a'r gorllewin yn benodol. Ceir crynodiad o Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol (RIGS) yng ngogledd a de RhCT, ac ardaloedd o Goetir Hynafol ledled y de, y dwyrain a'r gorllewin. Mae tair Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal ag un yn y de. O ystyried y bydd effeithiau'n dibynnu i raddau helaeth ar leoliad a dyluniad datblygiad yn hytrach na graddfa gyffredinol y twf, mae'r effaith a gofnodir ar gyfer pob opsiwn yn ansicr.</p> <p><u>Opsionau twf canolig</u></p>

Amcan yr ACI	Opsionau twf canolig	Opsionau twf uwch	Opsionau twf isel	Cyfiawnhad
				<p>Drwy ddarparu ar gyfer lefel gymharol uchel o ddatblygiad drwy'r opsiwn hwn, mae potensial ar gyfer ystod o effeithiau ar asedau bioamrywiaeth. Gall effeithiau ddeillio o ddatblygiadau tir sy'n gysylltiedig â safleoedd dynodedig, sy'n bwysig ar gyfer cysylltedd cynefinoedd yn ogystal â phwysau hamdden a llygredd cynyddol sy'n gysylltiedig â chartrefi dan feddiannaeth a busnesau yn gweithredu. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol fach.</p> <p><u>Opsionau twf uwch</u></p> <p>Mae darparu nifer uwch o gartrefi newydd a mwy o ddatblygiad i gefnogi twf swyddi cynyddol yn RhCT yn debygol o gynyddu'r pwysau ar fioamrywiaeth yn ardal y cynllun. Mae'r twf cynyddol yn debygol o arwain at gymryd mwy o safleoedd maes glas, gydag effeithiau niweidiol ar gysylltedd cynefinoedd, yn ogystal â chynnydd mewn llygredd sy'n gysylltiedig â datblygiadau a theithiau a wneir yn RhCT. At hynny, mae'r lefel uwch o ddatblygiadau sydd i'w cyflawni yn debygol o gynyddu'r angen am ddatblygiadau mewn lleoliadau mwy sensitif. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol sylweddol.</p> <p><u>Opsionau twf isel</u></p> <p>Mae cyfyngu ar dwf yn RhCT yn debygol o leihau faint o safleoedd maes glas sy'n cael eu cymryd, yn ogystal â'r potensial ar gyfer llygredd yn ardal y cynllun. Gallai'r opsiwn hwn hefyd leihau'r angen am ddatblygiadau mewn lleoliadau mwy sensitif. Mae lefel y datblygiadau sydd i'w cyflawni yn debygol o arwain at rai effeithiau anochel ar asedau bioamrywiaeth pwysig yn RhCT, er bod potensial i liniaru a fyddai'n cael ei gefnogi gan bolisïau yn y CDLI diwygiedig. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol fach.</p>
Amcan ACI 10: Diogelu ansawdd a maint adnoddau dŵr RhCT	-	--	-	<p>Mae un Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr (SPZ) yng ngogledd RhCT, ac un arall sydd ychydig o fewn ffin RhCT yn y de-orllewin. Ar hyn o bryd, mae dŵr gwastraff yn RhCT yn cael ei drin gan saith gwaith trin dŵr gwastraff (WwTW). Mae gan y rhan fwyaf o'r rhain y capasiti i ymdopi â dŵr gwastraff ychwanegol o ddatblygiad newydd. Yr eithriad nodedig i hyn yw WwTW Cynon, sy'n gwasanaethu Cwm Cynon, gan gynnwys Abercynon, Aberdâr, Hirwaun ac Aberpennar. Pan fydd datblygiad yn digwydd yn y lleoliadau hyn neu'n agos atynt, mae potensial i ddŵr yfed gael ei halogi neu fod angen seilwaith dŵr gwastraff newydd neu welliannau i'r hyn sy'n bodoli yno ar hyn o bryd.</p> <p><u>Opsionau twf canolig</u></p> <p>Byddai'r opsiwn canolig yn arwain at lefel gymharol uchel o ddatblygiadau yn RhCT, gan arwain at fwy o ddefnydd o ddŵr. Fel gyda phob opsiwn, disgwylir y byddai datblygiadau newydd yn cyflawni safon uchel o ran effeithlonrwydd dŵr a fyddai'n helpu i liniaru lefel y galw. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol fach.</p> <p><u>Opsionau twf uwch</u></p>

Amcan yr ACI	Opsionau twf canolog	Opsionau twf uwch	Opsionau twf isel	Cyfiawnhad
				<p>Bydd darparu twf ychwanegol yn RhCT yn arwain at fwy o ddefnydd o ddŵr o ystyried y cynnydd mwy o faint yn y boblogaeth leol, yn ogystal â'r cynnydd mewn busnesau lleol. Mae'r lefel uwch o ddatblygiadau yn debygol o gynyddu'r angen posibl i ddsbarthu datblygiadau i ardaloedd yn yr SPZs yn RhCT, neu'n agos atynt, yn ogystal ag ardaloedd lle nodwyd materion capasiti sy'n ymwneud ag WwTW. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol sylweddol.</p> <p><u>Opsionau twf isel</u></p> <p>Bydd cyfyngu ar lefel y datblygiadau a ddarperir yn RhCT dros gyfnod y cynllun yn helpu i gyfyngu ar unrhyw gynydd yn y defnydd o ddŵr. Bydd yr opsiwn hwn hefyd yn helpu i gyfyngu ar yr angen am ddatblygiadau mewn ardaloedd lle mae mwy o botensial i halogi ffynonellau dŵr yfed (h.y. o fewn SPZs) neu mewn ardaloedd lle mae seilwaith trin dŵr gwastraff eisoes wedi cyrraedd ei gapasiti neu'n agos ato. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith negyddol fach.</p>
Amcan ACI 11: Diogelu a gwella ansawdd aer	+/-?	- /+?	+/-?	<p>Disgwylir i faint yr effeithiau sy'n ymwneud â'r amcan ACI hwn gael eu dylanwadu fwyaf gan i ba raddau y byddai'r opsiynau wedi'u grwpio yn arwain at ddefnydd o geir, yn ogystal ag i ba raddau y gallant arwain at ddatblygiad yn un o'r AQMAs sydd wedi'u datgan yn RhCT, neu'n agos atynt. AQMAs. Ar hyn o bryd, mae gan RhCT 16 o AQMAs sydd wedi'u dosbarthu ar draws y Fwrdeistref Sirol.</p> <p>Fel gydag amcan ACI 5: trafndiaeth, bydd y potensial i leihau'r angen i deithio'n rheolaidd ac annog teithio gan ddefnyddio dulliau mwy cynaliadwy yn cael ei ddylanwadu fwyaf gan ddsbarthiad gofodol y datblygiadau. Lle mae preswylwyr yn agos at wasanaethau a chyfleusterau a swyddi a nodau trafndiaeth gynaliadwy, byddant yn fwy tebygol o deithio gan ddefnyddio dulliau cynaliadwy. Mae gan ddsbarthiad y datblygiad hefyd y potensial i arwain at greu màs critigol lle gellir cefnogi gwasanaethau trafndiaeth gynaliadwy newydd. Bydd dosbarthiad gofodol y datblygiadau hefyd yn dylanwadu ar y potensial ar gyfer datblygu a theithio o fewn yr AQMAs yn RhCT. Nid yw'r un o'r opsiynau wedi'u grwpio sydd dan ystyriaeth yn mynd i'r afael â dosbarthiad y datblygiad, felly mae'r effeithiau a gofnodir yn ansicr i ryw raddau.</p> <p>Mae'r effeithiau a gofnodir ar gyfer amcan ACI 5: trafndiaeth hefyd yn gymwys ar gyfer amcan ACI 11: ansawdd aer. Byddai'r tri opsiwn wedi'u grwpio yn arwain at fwy o deithiau o fewn RhCT. Er y bydd cyfran o'r teithiau yn cael eu gwneud gan ddefnyddio dulliau cynaliadwy a bod tuedd amlwg tuag at gerbydau trydan a cherbydau sy'n llygru llai, bydd y cynnydd hwn yn cyfrannu at lygredd aer yn y Fwrdeistref Sirol. Disgwylir i'r tri opsiwn gael effaith negyddol. Disgwylir y cynnydd mwyaf mewn allyriadau ar gyfer yr opsiwn twf uwch, felly mae'r effaith negyddol a gofnodir yn sylweddol. Disgwylir i'r opsiwn hwn hefyd arwain at y potensial mwyaf ar gyfer datblygiad a mwy o draffig o fewn yr AQMAs yn RhCT, a fyddai'n debygol o arwain at rai preswylwyr newydd yn profi ansawdd aer arbennig o wael, yn ogystal â dwysáu materion ansawdd aer presennol. Drwy'r tri opsiwn wedi'u grwpio, bydd y lefel gyfatebol o ddarparu tai a chreu swyddi yn helpu i hyrwyddo dull hunangynhaliol a chyfyngu ar yr angen i deithio a llygredd aer cysylltiedig. Felly, cofnodir effaith gadarnhaol fach ar gyfer y tri opsiwn fel rhan o effaith gymysg yn gyffredinol.</p>
Amcan ACI 12: Hyrwyddo'r defnydd effeithlon	+/-?	- /+?	+/-?	<p>Bydd y potensial i hyrwyddo ailddefnyddio safleoedd tir llwyd ar gyfer datblygiad dros safleoedd maes glas yn cael ei ddylanwadu fwyaf gan ddsbarthiad gofodol y datblygiadau a'r dewis o safleoedd penodol i'w dyrannu. Felly, mae'r holl effeithiau a gofnodir mewn perthynas â'r amcan ACI hwn yn ansicr i raddau.</p> <p><u>Opsionau twf canolog</u></p>

Amcan yr ACI	Opsionau twf canolog	Opsionau twf uwch	Opsionau twf isel	Cyfiawnhad
o dir, priddoedd a mwynau				<p>Bydd darparu datblygiad newydd i gefnogi twf tai a chyflogaeth a seilwaith cysylltiedig yn ardal y cynllun yn debygol o olygu y bydd angen cymryd llawer o safleoedd maes glas. Fel gyda'r opsiynau eraill sydd dan ystyriaeth, bydd cyfleoedd i ddarparu datblygiadau mewn safleoedd tir llwyd, ond bydd lefel y datblygiadau sydd eu hangen yn golygu y bydd angen dyrannu rhai safleoedd maes glas, yn enwedig o ystyried bod y mathau hyn o safleoedd yn aml yn fwy hyfyw na safleoedd tir llwyd o ran eu cyflawniad. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach.</p> <p><u>Opsionau twf uwch</u></p> <p>Mae'r lefel uwch o ddatblygiad a nodir drwy'r opsiwn hwn yn debygol o fynnu bod ardaloedd mwy o safleoedd maes glas yn cael eu datblygu. Mae mwy o botensial hefyd ar gyfer datblygiadau ar briddoedd amaethyddol gwerth uwch yn RhCT drwy'r opsiwn hwn o ystyried yr ardal fwy sy'n debygol o gael ei datblygu. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol sylweddol.</p> <p><u>Opsionau twf isel</u></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn debygol o arwain at gymryd llai o dir i gyflawni'r lefel o ddatblygiad a nodir. Mae'n debygol hefyd y bydd llai o botensial ar gyfer colli priddoedd amaethyddol gwerth uwch. Fodd bynnag, mae disgwyl o hyd i'r opsiwn isel arwain at ddatblygu rhywfaint o safleoedd maes glas, gyda nifer y safleoedd tir llwyd hyfyw yn RhCT yn annhebygol o fod â'r capasiti i gyflawni'r lefel ddisgwyliedig o dwf. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach.</p>
Amcan ACI 13: Parhau i gynhyrchu llai o wastraff a hyrwyddo rheoli gwastraff yn fwy cynaliadwy	0	0	0	Bydd datblygiadau newydd fel rhan o'r holl opsiynau wedi'u grwpio sydd dan ystyriaeth yn arwain at ddefnyddio deunyddiau crai a chynhyrchu gwastraff, wrth adeiladu a gweithredu. Bydd yr opsiwn twf uwch yn golygu mwy o ddefnydd o ddeunyddiau ac mae'n debygol o arwain at gynhyrchu mwy o wastraff na'r opsiynau eraill sydd dan ystyriaeth. Fodd bynnag, bydd y potensial i hyrwyddo aildefnyddio deunyddiau, ailgylchu a gwell arferion rheoli gwastraff yn dibynnu'n bennaf ar ymddygiad pobl a dyluniad y datblygiad. Mae hyn y tu allan i gwmpas y tri opsiwn twf sy'n cael eu hystyried, felly disgwylir effaith ddibwys mewn perthynas â'r amcan ACI hwn ar gyfer pob opsiwn.
Amcan ACI 14: Darparu ar gyfer economi gynaliadwy	+	++?	+/-	<p><u>Opsionau twf canolog</u></p> <p>Byddai'r opsiwn canolog wedi'i grwpio yn darparu lefel gymharol uchel o dai a thwf swyddi cyfatebol. Mae lefel y twf swyddi a ragwelir yn debygol o gefnogi sefydlogrwydd economaidd yn yr ardal yn uniongyrchol. At hynny, byddai lefel y twf tai yn cefnogi'r twf economaidd yn y sector adeiladu a'r diwydiannau cysylltiedig. Mae lefel y twf hefyd yn debygol o gefnogi hyfywedd canol trefi yn RhCT, er bod hyn yn rhannol ddibynnol ar leoliad penodol datblygiad newydd. Nodir y rhagwelir bod Opsiwn H: senario 'gyda pholisi' a arweinir gan gyflogaeth sydd dan ystyriaeth o dan yr opsiwn hwn yn arwain at ostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio a allai gael</p>

Amcan yr ACI	Opsionau twf canolog	Opsionau twf uwch	Opsionau twf isel	Cyfiawnhad
				<p>effeithiau andwyol ar dwf economaidd lleol o ganlyniad i weithlu llai a llai o gystadleurwydd ac ati. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol fach.</p> <p><u>Opsionau twf uchel</u></p> <p>Byddai darparu lefelau uwch o dai a thwf swyddi yn RhCT drwy'r opsiwn uchel yn arwain at fanteision ar ben y rhai a ddisgrifir ar gyfer yr opsiwn canolog. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn gwneud y mwyaf i gynyddu'r boblogaeth oedran gweithio yn RhCT, a fydd yn cyfrannu at gynyddu cyfranogiad y gweithlu a'r potensial ar gyfer lefelau uwch o gynhyrchiant. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth y gellid cyflawni'r lefel uchel o ddatblygiad sy'n ofynnol ar gyfer yr opsiwn hwn. Felly, y manteision i'r opsiwn hwn sydd â'r lefel uchaf o ansicrwydd ynghlwm wrthynt. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol sylweddol ansicr.</p> <p><u>Opsionau twf isel</u></p> <p>Ni fyddai cyfyngu ar dai a thwf swyddi yn RhCT drwy'r opsiwn hwn yn gwneud fawr ddim i gefnogi twf economaidd, gan gynnwys mewn ardaloedd sydd ar hyn o bryd yn wynebu problemau o ran amddifadedd economaidd. Er bod lefelau'r datblygiad a nodir drwy'r opsiwn hwn yn debygol o fod yn haws eu cyflawni, byddent yn llai tebygol o gefnogi hyfywedd canol trefi yn RhCT a disgwylir iddynt arwain at ostyngiad pellach yn y boblogaeth oedran gweithio. Yn gyffredinol, disgwylir i'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach.</p>
Amcan ACI 15: Darparu ar gyfer amrywiaeth eang o gyfleoedd gwaith	+?	++?	+/-?	Bydd effeithiau'r opsiynau twf ar amcan ACI 15: cyflogaeth yn dibynnu'n rhannol ar i ba raddau y byddai opsiynau yn darparu swyddi mewn lleoliadau hygyrch ac yn darparu datblygiad preswyl yn agos at gyfleoedd gwaith presennol a newydd. Nid yw'r opsiynau sydd dan ystyriaeth yn mynd i'r afael â dosbarthiad gofodol y datblygiad yn RhCT. Felly, mae'r effeithiau a nodir yn ymwneud â'r potensial ar gyfer yr opsiynau i gefnogi twf economaidd yn RhCT. Mae'r effeithiau a gofnodir yn adlewyrchu'r rhai ar gyfer amcan ACI 14: yr economi. Fodd bynnag, mae'r effeithiau ar gyfer pob opsiwn wedi'u grwpio yn ansicr o ystyried nad ydynt yn dylanwadu ar ddsbarthiad gofodol datblygiad cyflogaeth yn RhCT.

Effeithiau cynaliadwyedd tebygol yr opsiynau gofodol

Mae'r wyth opsiwn gofodol sydd dan ystyriaeth ar gyfer y CDLI diwygiedig fel a ganlyn.

Opsiwn 1: Parhau â'r Strategaeth CDLI bresennol

Opsiwn 2: Rhwydwaith Priffyrdd Strategol yn ystyried y Prif Aneddiadau

Opsiwn 3: Canol Trefi yn Gyntaf

Opsiwn 4: Strategaeth Twf y De

Opsiwn 5: Nodau Metro a Thrafnidiaeth Gyhoeddus

Opsiwn 6: Safle strategol allweddol yn y De

Opsiwn 7: Ynysu Trefol

Opsiwn 8: Strategaeth Anghenion Lleol

Mae rhagor o fanylion am yr opsiynau ym Mhapur Opsiynau Gofodol y Cyngor (2023), y defnyddiwyd gwybodaeth ohoni i lywio'r arfarniad hwn.

Mae **Tabl 4.2** drosodd yn cyflwyno effeithiau tebygol yr wyth opsiwn gofodol ar bob un o amcanion yr ACI.

Mae ystod eang o effeithiau cadarnhaol a negyddol yn cael eu nodi ar draws amcanion yr ACI. O ystyried maint cyffredinol y datblygiadau a fyddai'n gysylltiedig â'r opsiynau (yn dibynnu i ryw raddau ar ba opsiwn twf sy'n cael ei ddatblygu), nid yw'n syndod bod nifer o effeithiau negyddol, y mae rhai ohonynt yn debygol o fod yn sylweddol, yn cael eu nodi mewn perthynas ag amcanion amgylcheddol yr ACI yn benodol. Fodd bynnag, mae ansicrwydd sylweddol ynghlwm wrth yr effeithiau tebygol ar **amcanion ACI 6: treftadaeth, 8: tirwedd, 9: bioamrywiaeth a 10: dŵr**, o ystyried y bydd yr effeithiau ar yr amcanion hyn yn cael eu pennu'n bennaf gan y safleoedd datblygu penodol a ddewisir, a natur a dyluniad datblygiadau newydd. Cydnabyddir hefyd y gallai polisïau eraill yn y CDLI diwygiedig liniaru effeithiau amgylcheddol niweidiol datblygiad.

Ar y cyfan, yr opsiwn sy'n cyflawni'n fwyaf cadarnhaol yn erbyn amcanion yr ACI yw Opsiwn 5 sy'n ceisio canolbwyntio datblygiadau o amgylch nodau metro a thrafnidiaeth gyhoeddus. Byddai hyn yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol sy'n gysylltiedig â hwylyso mwy o ddefnydd o ddulliau teithio cynaliadwy a llesol a darparu mynediad at swyddi heb orfod dibynnu ar gar. Byddai'r datblygiad cymharol wasgaredig a fyddai'n digwydd o dan yr opsiwn hwn hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol o ran ysgogi adfywio mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol.

I'r gwrthwyneb, mae'r opsiynau a fyddai'n canolbwyntio datblygiad yn fwy cul yn y de (Opsiyneu 4 a 6) yn cyflawni'n gymharol wael, yn enwedig Opsiwn 4 sydd â'r effeithiau negyddol sylweddol mwyaf tebygol o'r holl opsiynau.

Byddai cyfleoedd i ysgogi twf ac adfywio mewn rhannau eraill o'r Fwrdeistref Sirol yn cael eu colli ac mae'r cynnig trafndiaeth gynaliadwy gwael a'r ddibyniaeth drom ar y defnydd o geir yn y de yn golygu y gallai datblygiadau newydd yn yr ardal hon waethygu problemau sy'n ymwneud â'r defnydd o geir a llygredd aer. Mae Opsiwn 6 yn cyflawni ychydig yn well nag Opsiwn 4 gan fod yr opsiwn hwn yn darparu cyfleoedd i gyflawni rhai o fanteision cronol posibl datblygiad dwys iawn, mewn perthynas â darparu seilwaith a chreu cymuned newydd fwy cynaliadwy a hunangynhaliol.

4 Mae'r opsiynau sy'n canolbwyntio'r rhan fwyaf o ddatblygiad yng nghanol trefi ac ardaloedd trefol (Opsiyneu 3 a 7) yn cynnig cyfleoedd da i ddefnyddio safleoedd tir llwyd a darparu datblygiad yn agos at wasanaethau, cyfleusterau a chysylltiadau trafndiaeth presennol. Er y byddai'r opsiynau hynny'n methu â chefnogi twf ac adfywio mewn ardaloedd mwy gwledig, maent yn cyflawni'n weddol dda ar y cyfan.

5 Un ffactor allweddol wrth bennu pa opsiwn/opsiyneu sy'n cael eu datblygu yw pa mor gyflawnadwy yw pob opsiwn, yn enwedig o ran argaeledd tir. Er y gall datblygiad safleoedd tir llwyd yn unig mewn ardaloedd trefol presennol gyflawni'n dda o ran cynaliadwyedd, os na all y dull ddarparu'r swm gofynnol o dai a thir masnachol, efallai na fydd yn realistig. Byddai methu â darparu'r swyddi a'r cartrefi gofynnol hefyd yn cael effaith negyddol ar iechyd a lles pobl, a gallai arwain at lefelau uwch o deithiau wrth i bobl gael eu gorfodi i fyw a gweithio ymhellach o'i gilydd. Felly, her allweddol i'r Cyngor fydd cydbwysio dyheadau cynaliadwyedd â'r gallu i gyflawni datblygiadau yn realistig o dan bob opsiwn, gan gadw mewn cof atyniad yr ardal ddeheuol i ddatblygwyr o gymharu â'r gogledd.

Tabl 4.2: Canfyddiadau'r ACI ar gyfer yr Opsiynau Strategaeth Ofodol

Amcan yr ACI	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4	Opsiwn 5	Opsiwn 6	Opsiwn 7	Opsiwn 8	Cyfiawnhad
Amcan ACI 1: Lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a lleihau perygl llifogydd	--	-	+/--	--	--/+	+/-	+	-	<p>Bydd datblygiadau newydd mewn unrhyw leoliad yn creu galw newydd am ynni ac, o ganlyniad, bydd hyn yn arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Fodd bynnag, mae hyd a lled hyn yn dibynnu ar raddfa gyffredinol arfaethedig y twf a dyluniad datblygiadau unigol, ac mae'n annhebygol y bydd y strategaeth ofodol gyffredinol yn effeithio'n sylweddol arno. Mae i ba raddau y byddai'r opsiynau'n arwain at fwy o ddefnydd o geir, gyda'r allyriadau cysylltiedig, yn cael ei ystyried ar wahân o dan amcan ACI 5. Felly, mae'r arfarniad yn erbyn yr amcan ACI hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar yr effeithiau y byddai pob opsiwn yn eu cael ar berygl llifogydd.</p> <p>Mae'r ardaloedd sydd â'r perygl llifogydd uchaf yn RhCT yn gysylltiedig ag afonydd Cynon a Thaf, sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de drwy'r Fwrdeistref Sirol. Felly, mae'r datblygiadau o fewn gorlifdiroedd yr afonydd hynny, yn ogystal â chyrsgiau dŵr eraill, yn debygol o wneud mwy o bobl ac asedau yn agored i berygl llifogydd, er y bydd effeithiau'n dibynnu i raddau helaeth ar leoliad penodol datblygiadau yn yr ardaloedd eang hynny, yn ogystal â'u dyluniad. Mae ardaloedd lle mae perygl llifogydd uchel wedi'u nodi yn rhai o'r prif aneddiadau, gan gynnwys Aberdâr a Phontypridd. Yn ogystal, gallai opsiynau strategaeth a fyddai'n arwain at lefelau uwch o ddatblygiad ar safleoedd maes glas gael effeithiau negyddol ar berygl llifogydd o ganlyniad i leihau ehangder arwynebau athraidd a chynyddu dŵr ffo.</p> <p><u>Opsiwn 1</u></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys datblygiad yng ngogledd a de'r Fwrdeistref Sirol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar yr aneddiadau mwy o faint lle mae rhai ardaloedd lle ceir perygl llifogydd uchel. Er bod datblygiad yn y de yn fwy cyfyngedig oherwydd ffiniau aneddiadau sefydlog, a ddylai olygu llai o golli safleoedd maes glas, efallai y bydd mwy o safleoedd maes glas yn cael eu colli yn y gogledd lle mae ffiniau aneddiadau'n hyblyg. Gallai dyraniad safleoedd strategol hefyd arwain at golli ardaloedd mawr o safleoedd maes glas. Felly, mae'n debygol y bydd yr opsiwn hwn yn cael effaith negyddol sylweddol.</p> <p><u>Opsiwn 2</u></p> <p>Byddai'r opsiwn hwn yn cyfeirio datblygiadau at goridorau'r M4, yr A470 a'r A465, sy'n cydberthyn mewn rhai mannau i'r ardaloedd sydd â'r perygl llifogydd uchaf yn y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys ym Mhontypridd, Abercynon a Phont-y-clun yn benodol. Fodd bynnag, mae llawer o'r ardaloedd o amgylch y priffyrdd hyn, yn enwedig yng ngogledd RhCT, y tu allan i'r ardaloedd sydd â'r perygl llifogydd mwyaf. Felly, nodir effaith negyddol fach yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsiwn 3</u></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn cyfeirio datblygiadau newydd i ganol trefi lle bo hynny'n bosibl. Mae ardaloedd lle mae perygl llifogydd uchel wedi'u nodi yn rhai o'r prif aneddiadau a threfi yn RhCT, gan gynnwys Aberdâr, Pontypridd ac Abercynon, a disgwylir y gallai dwysáu trefol yn yr ardaloedd hynny arwain at fwy o berygl llifogydd oherwydd dŵr wyneb ffo, yn enwedig pe bai datblygiad yn arwain at ardaloedd sylweddol is o fannau gwyrdd a fyddai fel arall yn caniatáu cadw dŵr wyneb. Fodd bynnag, dylai canolbwyntio datblygiad yng nghanol trefi fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddio safleoedd tir llwyd a cholli llai o safleoedd maes glas. Ar y cyfan, nodir effaith gymysg (effaith negyddol sylweddol ac effaith gadarnhaol fach).</p> <p><u>Opsiwn 4</u></p>

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2.	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p>Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio'r twf mwyaf yn ne RhCT, lle mae rhai ardaloedd nodedig o berygl llifogydd uwch. Bydd yr opsiwn yn golygu datblygu safleoedd maes glas yn bennaf, a fydd yn arwain at golli arwynebau athraidd. Felly, mae effaith negyddol sylweddol yn debygol.</p> <p><u>Opsiwn 5</u></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn debyg i Opsiwn 3 gan fod yr ardaloedd sy'n ganolfannau trafndiaeth gyhoeddus neu sydd â mynediad da at drafndiaeth gyhoeddus yn tueddu i fod yr ardaloedd o amgylch canol trefi. O'r herwydd, bydd yr opsiwn hwn hefyd yn arwain at ddatblygiad lle mae ardaloedd lle ceir perygl llifogydd uchel wedi'u nodi yn rhai o'r prif aneddiadau a threfi yn RhCT. Disgwylir hefyd y gallai rhagor o ddwysáu trefol arwain at gynnydd mewn perygl llifogydd yn y lleoliadau hynny oherwydd lefelau dŵr wyneb ffo uwch, yn enwedig pe bai datblygiad yn arwain at ardaloedd sylweddol is o fannau gwyrdd a fyddai fel arall yn caniatáu cadw dŵr wyneb. Er bod rhai amddiffynfeydd rhag llifogydd mewn rhai aneddiadau allweddol, gan gynnwys Glynrhedynog a Phorth, drwy ganolbwyntio datblygiad o amgylch canol trefi RhCT, mae'r opsiwn hwn yn wynebu'r risg o gyfyngu ar gyfleoedd datblygu yn yr ardaloedd risg uwch hyn. Fodd bynnag, gall cyfleoedd i ddatblygu safleoedd tir llwyd (ac felly colli llai o safleoedd maes glas) fod yn uwch lle mae mwy o ddatblygiadau wedi'u canolbwyntio yng nghanol trefi. Felly, mae effaith gymysg (effaith negyddol sylweddol ac effaith gadarnhaol fach) yn debygol yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsiwn 6</u></p> <p>Byddai opsiwn 6 yn golygu dyraniad safle allweddol mawr yn ne'r Fwrdeistref Sirol ar gyfer mwyafrif sylweddol o'r datblygiad newydd dros gyfnod y cynllun. O ystyried yr hyblygrwydd ehangach o ran dewis safle ar gyfer datblygiad y gallai'r opsiwn hwn ei ganiatáu, mae potensial i ganolbwyntio datblygiad newydd ar safle strategol lle mae llai o berygl llifogydd. Fodd bynnag, byddai'r datblygiad yn golygu colli un safle maes glas mawr, a allai leihau dŵr ffo a chynyddu'r perygl llifogydd yn yr ardal. Fodd bynnag, gall un safle mawr gynig cyfleoedd da ar gyfer ymgorffori atebion strategol i berygl llifogydd yn y datblygiad, gan gynnwys SuDS. Felly, mae effaith gymysg (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach) yn debygol yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsiwn 7</u></p> <p>Mae Opsiwn 7 yn ceisio hyrwyddo'r defnydd gorau o dir mewn ardaloedd trefol drwy leihau datblygiad tir amgylcheddol ac ecolegol sensitif ac, yn hytrach, ailddefnyddio adeiladau gwag, neu ganolbwyntio datblygiadau newydd ar safleoedd tir llwyd. Drwy leihau'r angen am ddatblygiadau newydd, yn enwedig ar safleoedd tir glas, gallai'r opsiwn hwn leihau'r perygl llifogydd drwy warchod tir athraidd. Felly, mae effaith gadarnhaol fach yn debygol.</p> <p><u>Opsiwn 8</u></p> <p>O ystyried dosbarthiad ehangach datblygiadau o dan yr opsiwn hwn, mae potensial i ddsbarthu datblygiadau newydd ymhlith ystod ehangach o aneddiadau, gan ganiatáu dewis o ystod ehangach o safleoedd, a allai helpu i osgoi datblygu safleoedd sydd â pherygl llifogydd uchel. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai cyfran fwy o'r datblygiadau yn digwydd yn yr aneddiadau mwy, y mae rhai ohonynt yn wynebu perygl mawr o lifogydd (e.e. Aberdâr, Pontypridd a Phont-y-clun). Felly, mae effaith negyddol fach yn debygol yn gyffredinol.</p>

Amcan yr ACI	Opsiw 1	Opsiw 2	Opsiw 3	Opsiw 4	Opsiw 5	Opsiw 6	Opsiw 7	Opsiw 8	Cyfiawnhad
<p>Amcan ACI 2: Darparu swm a chymysgedd priodol o dai i ddiwallu anghenion lleol</p>	--	+/-	--	+/-	--	+/-	+/-	+/-	<p><u>Opsiw 1</u></p> <p>O dan Opsiw 1, dylai'r ddwy ardal strategaeth (gogledd a de) barhau i dyfu gyda rhaniad cymharol gytbwys o ddatblygiadau tai rhwng y gogledd a'r de. Fodd bynnag, nid yw'r dull presennol ond wedi darparu hanner y tai sydd eu hangen hyd yma, gyda llai na hanner y ddarpariaeth gyffredinol ar safleoedd tai penodedig. Mae hyn yn dangos dibyniaeth anghynaliadwy ar safleoedd ar hap o dan y strategaeth bresennol, y gellid disgwyl iddi barhau os caiff yr opsiwn hwn ei ddatblygu. Bu hefyd gryn dipyn o dangyflawni o ran safleoedd strategol. Pe bai'r strategaeth hon yn cael mynd yn ei blaen, gellid parhau i ddisgwyl tangyflawni mewn perthynas â thai ac mae effaith negyddol sylweddol yn debygol.</p> <p><u>Opsiw 2</u></p> <p>Byddai'r opsiwn hwn yn golygu canolbwyntio datblygiad ar hyd coridorau'r M4, yr A465 a'r A470, lle mae hanes profedig o gyflawni a lefelau uchel o alw (yn enwedig o amgylch coridor yr M4). Mae'r broses Dewis Safle wedi gweld y nifer fwyaf o safleoedd yn cael eu hyrwyddo yng nghoridor yr M4. Felly, mae'n debygol y byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod modd darparu safleoedd, gan gynnwys tai fforddiadwy yn yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf. Fodd bynnag, mae risg sylweddol hefyd na fyddai'r angen am dai yn cael ei ddiwallu gan fod diffyg tir mewn rhai ardaloedd. Felly, nodir effaith gymysg (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol sylweddol) yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsiw 3</u></p> <p>Mae Opsiw 3 yn cyflwyno materion sylfaenol o ran darparu'r tai sydd eu hangen. Mae'r broses Dewis Safle wedi dangos diffyg safleoedd penodol a gyflwynwyd mewn ardaloedd yng nghanol trefi neu ar eu cyrion. Mae astudiaeth capasiti trefol hefyd yn dangos bod diffyg safleoedd ar raddfa fawr. Yn ystod y broses Dewis Safle, bu'r Cyngor yn ystyried ei dir ei hun, sydd hefyd yn gyfyngedig iawn. Felly, mae risg wirioneddol y byddai diffyg tir ar gael i gyflawni'r opsiwn hwn, a nodir effaith negyddol sylweddol.</p> <p><u>Opsiw 4</u></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio'r rhan fwyaf o'r twf yn ne ardal y cynllun, lle mae'n debygol y bydd mwy o debygolrwydd o ddarparu tai ar y lefel sydd ei hangen. Y rheswm am hyn yw bod profiadau dros gyfnod y cynllun presennol wedi dangos bod de RhCT yn fwy hyfyw, cyflawnadwy a realistig na'r gogledd. I'r de o RhCT mae'r galw mwyaf am y farchnad, y gwerthoedd tir uchaf, y rhan fwyaf o'r tir y gellir ei ddatblygu ac nad yw wedi'i gyfyngu a'r lefel uchaf o hyfywedd. Mae hanes profedig o gyflenwi a phwysau gan y diwydiant tai. Dangosir hyn gan nifer y Safleoedd a gyflwynwyd yn yr ardal hon o gymharu â'r gogledd. Fodd bynnag, gallai canolbwyntio datblygiad yn drwm yn y de olygu nad yw anghenion tai yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol yn cael eu diwallu, gan gynnwys yr angen am dai fforddiadwy. Felly, mae effaith gymysg (effaith gadarnhaol sylweddol ac effaith negyddol fach) yn debygol yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsiw 5</u></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn debyg i Opsiw 3, gan fod yr ardaloedd sy'n ganolfannau trafniadaeth gyhoeddus neu sydd â mynediad da at drafniadaeth gyhoeddus yn tueddu i fod yr ardaloedd o amgylch canol trefi. O'r herwydd, mae'r un materion yn berthnasol, gan gynnwys y diffyg safleoedd sydd ar gael a'r risg sy'n gysylltiedig â gallu sicrhau twf. Unwaith eto, mae effaith negyddol sylweddol wedi'i nodi.</p>

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2.	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p><u>Opsw'n 6</u></p> <p>Fel y nodwyd uchod, profwyd bod ardal ddeheuol RhCT yn hyfyw a chyflawnadwy, gyda galw gwirioneddol yn y farchnad. Fodd bynnag, ni fyddai darparu un safle strategol mawr o reidrwydd yn cyflawni'r tai angenrheidiol dros gyfnod y cynllun oherwydd y gyfradd gyflenwi, er y gallai gynnig cyfleoedd da i ymgorffori tai fforddiadwy drwy rwymedigaethau cynllunio. Byddai hefyd yn darparu tai mewn un lleoliad yn unig ac ni fyddai'n diwallu anghenion penodol rhan ogleddol y Fwrdeistref Sirol. Felly, mae effaith gymysg (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach) yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 7</u></p> <p>Mae llawer iawn o eiddo gwag yn RhCT, yn enwedig yn y gogledd. Oherwydd y cynllun tai gwag sy'n cael ei redeg gan adran dai RhCT, mae nifer o'r rhain yn cael eu haildefnyddio er budd bob blwyddyn, er na ellir cyfrif y rhain tuag at y ffigwr tai ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Byddai'r opsiwn hwn yn darparu cartrefi mawr eu hangen yn rhan ogleddol y Fwrdeistref Sirol, rhywbeth y cydnabyddir ei fod yn anodd ei wneud. Byddai hefyd yn blaenoriaethu ailddatblygu safleoedd tir llwyd ar gyfer tai a chyflogaeth. Fodd bynnag, drwy ddiwynnu ar y dull hwn o ddarparu tai, mae risg sylweddol na fyddai'r angen am dai ar gyfer RhCT yn cael ei ddiwallu. Gwyddom fod diffyg hyfywedd yn llawer o'r safleoedd tir llwyd yng ngogledd RhCT. Mae cyflawni'r opsiwn hwn yn dibynnu ar ymyrraeth gref ac arian y sector cyhoeddus, ac efallai na fydd modd cyflawni hynny'n ymarferol. Mae yna hefyd ddiffyg tir o fewn ardaloedd trefol sy'n golygu y byddai cyfyngiadau o ran caniatáu lefel uwch o dwf. Felly, nodir effaith gymysg (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol sylweddol).</p> <p><u>Opsw'n 8</u></p> <p>Drwy ddarparu dosbarthiad ehangach o ddatblygiadau ar draws mwy o'r aneddiadau yn RhCT, bydd yr opsiwn hwn yn helpu i ddiwallu anghenion tai gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol a byddai'n osgoi gorlwytho ardaloedd penodol. Fodd bynnag, nid yw'n ymateb i rymoedd y farchnad ac mae diffyg diddordeb mewn rhai aneddiadau; felly, mae ansicrwydd ynghylch pa mor ymarferol yw'r opsiwn ac a fyddai'n arwain at ddarparu'r swm gofynnol o dai. Felly, mae effaith gymysg (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach) yn debygol yn gyffredinol.</p>
Amcan ACI 3: Hyrwyddo cymunedau bywiog, gyda chyfleoedd i fyw, gweithio a chymdeithasu i bawb	+	+	++	-	++	+/-?	+/-	++	<p>Bydd yr effeithiau ar rai elfennau o'r amcan ACI hwn yn dibynnu ar union natur y datblygiad a ddarperir ac mae'n annhebygol y bydd y strategaeth ofodol gyffredinol yn effeithio'n sylweddol ar effeithiau - er enghraifft, bydd darparu mannau cyfarfod, datblygiad cymysg ac atebion dylunio hygyrch a diogel yn dibynnu ar ffactorau eraill heblaw dosbarthiad eang y datblygiad.</p> <p><u>Opsw'n 1</u></p> <p>Mae'r strategaeth sydd wedi'i rhannu o dan Opsw'n 1 yn canolbwyntio twf o amgylch yr aneddiadau allweddol, gan gefnogi mynediad at hyfywedd gwasanaethau a chyfleusterau yn yr ardaloedd hynny, ac yn cynnal yr hyfywedd hwnnw. Bydd parhau i hyrwyddo datblygiad yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol yn ogystal â'r de yn cefnogi ymdrechion i adfywio'r gogledd a darparu gwell mynediad at wasanaethau. Mae'n debygol y bydd effaith gadarnhaol fach yn gyffredinol.</p>

Amcan yr ACI	Opsw 1	Opsw 2	Opsw 3	Opsw 4	Opsw 5	Opsw 6	Opsw 7	Opsw 8	Cyfiawnhad
									<p><u>Opsw 2</u></p> <p>Mae Opsw 2 yn canolbwyntio ar leoli twf o amgylch Rhwydweithiau Priffyrdd Strategol yr M4, yr A470 a'r A465. Mae'r coridorau hyn yn cydberthyn i rai o ardaloedd mwy adeiledig y Fwrdeistref Sirol, lle mae mynediad at wasanaethau a chyfleusterau presennol yn debygol o fod yn weddol dda. Bydd datblygiadau preswyl newydd yn y lleoliadau hyn hefyd wedi'u cysylltu'n dda â gwasanaethau a chyfleusterau mewn lleoliadau eraill, er y byddai cysylltiadau drwy'r rhwydwaith priffyrdd yn eithrio'r rhai heb fynediad at gar, yn ogystal â bod yn llai cynaliadwy. Mae'r rhwydwaith priffyrdd yn ymestyn ar draws de, dwyrain a gogledd y Fwrdeistref, felly byddai datblygiad newydd gyda gwasanaethau a chyfleusterau cysylltiedig yn cael ei ddsbarthu'n eithaf eang yn RhCT. Felly, mae effaith gadarnhaol fach yn debygol yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsw 3</u></p> <p>Mae Opsw 3 yn canolbwyntio ar leoli datblygiad yn y Prif Aneddiadau a chanol trefi, ac o'u hamgylch. Byddai gan ddatblygiadau newydd yn yr ardaloedd hyn lefel dda o fynediad at wasanaethau, cyfleusterau a bydd trafndiaeth gyhoeddus wrth law, ac mae unrhyw wasanaethau a chyfleusterau newydd yn debygol o fod yn hygyrch i fwy o bobl. Gallai'r opsiwn hwn gyfyngu mynediad pobl mewn aneddiadau llai a mwy gwledig ledled y Fwrdeistref Sirol at wasanaethau a chyfleusterau; ond dylai dosbarthu twf ar draws y Prif Aneddiadau olygu ei fod yn weddol gyffredin yn gyffredinol. Felly, mae effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol.</p> <p><u>Opsw 4</u></p> <p>Byddai canolbwyntio twf yn ne RhCT yn golygu y byddai pobl yn yr ardal honno yn elwa ar y gwasanaethau a'r cyfleusterau newydd y gellir eu darparu fel rhan o ddatblygiad newydd; fodd bynnag, byddai'r gogledd ond yn gweld datblygiad llai i ddiwallu anghenion lleol, sy'n annhebygol o gynnwys gwasanaethau a chyfleusterau newydd. Gallai hyn arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau presennol. Gall de'r Fwrdeistref Sirol weld cynnydd yn y boblogaeth fel bod gwasanaethau a chyfleusterau ategol yn cael eu darparu; fodd bynnag, byddai hyn yn niweidiol i adfywiad y gogledd a byddai'n arwain at ddsbarthu gwasanaethau a chyfleusterau yn anghyfartal yn y Fwrdeistref Sirol. Felly, mae effaith negyddol fach yn debygol yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsw 5</u></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn debyg i Opsw 3, gan fod yr ardaloedd sy'n ganolfannau trafndiaeth gyhoeddus neu sydd â mynediad da at drafndiaeth gyhoeddus yn tueddu i fod yn ardaloedd o amgylch canol trefi. Fodd bynnag, mae ardaloedd ychwanegol yn RhCT sydd â chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da sydd y tu allan i'r prif drefi. Byddai'r opsiwn hwn yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol ac, yn benodol, bolisiau penodol yn y FfDC sy'n ceisio lleoli datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy yn yr aneddiadau presennol ac o'u hamgylch. Gyda'r opsiwn hwn, byddai lefel uwch o fynediad at wasanaethau, cyfleusterau a bydd trafndiaeth gyhoeddus wrth law, yn ogystal â mynediad i bobl heb gar. Er y bydd yr opsiwn hwn o fudd i'r ardaloedd hyn, gallai esgeuluso rhywfaint ar dwf mewn aneddiadau llai a mwy gwledig ledled y Fwrdeistref Sirol, gyda mynediad cyfyngedig i aneddiadau a wasanaethir gan drafndiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, yn gyffredinol, byddai'r strategaeth hon yn arwain at fynediad cymharol gyfartal i wasanaethau a chyfleusterau ac mae effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol.</p> <p><u>Opsw 6</u></p> <p>Mae gan sefydlu Safle Strategol Allweddol newydd yn ne RhCT y potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol yn yr ardal drwy gynyddu hyfywedd gwasanaethau a chyfleusterau newydd – yn enwedig os yw hyn yn arwain at glwstr swyddogaethau newydd. Byddai sefydlu safle newydd mawr mewn un lleoliad yn darparu cyfleoedd i sefydlu cymuned newydd fywiog a chymharol hunangynhaliol. Er y byddai un safle mawr</p>

Amcan yr ACI	Opsiw'n 1	Opsiw'n 2.	Opsiw'n 3	Opsiw'n 4	Opsiw'n 5	Opsiw'n 6	Opsiw'n 7	Opsiw'n 8	Cyfiawnhad
									<p>yn caniatáu ar gyfer y buddion mwyaf posibl o ran rhwymedigaethau cynllunio ac yn caniatáu ar gyfer darparu seilwaith angenrheidiol yn yr ardal honno, byddai dibyniaeth gref ar un safle yn arwain at ddiffyg buddsoddiad a thwf yng ngweddill RhCT. Wrth i'r amcan hwn geisio hyrwyddo cymunedau bywiog ar draws ardal gyfan y cynllun, gallai'r opsiwn hwn gael effeithiau negyddol o ran diffyg datblygiad yn y gogledd. Felly, mae effaith gymysg (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach) yn debygol yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsiw'n 7</u></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn ceisio sicrhau twf yn yr ardal drefol bresennol heb fod angen rhyddhau tir newydd ar gyfer datblygiad. Byddai canolbwyntio datblygiadau newydd mewn ardaloedd trefol presennol yn golygu y dylai preswylwyr newydd fod â mynediad da at wasanaethau a chyfleusterau presennol, a dylai unrhyw gyfleusterau newydd fod ar gael i nifer fawr o breswylwyr presennol. Fodd bynnag, o dan yr opsiwn hwn, gall datblygiad fod yn gymharol dameidiog a gallai arwain at dangyflenwi tai. Gallai hyn olygu na chyrhaeddir y cynnydd angenrheidiol yn y boblogaeth i gyfiawnhau darparu gwasanaethau newydd mewn rhai mannau, a gallai gwasanaethau a chyfleusterau presennol wynebu pwysau ychwanegol. Ni fyddai'r un cyfleoedd chwaith i sefydlu cymunedau newydd bywiog sydd weithiau'n digwydd wrth ddatblygu safleoedd strategol mwy o faint. Felly, nodir effaith gymysg (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach) yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsiw'n 8</u></p> <p>Byddai Opsiw'n 8 yn golygu twf cymesur mewn aneddiadau gwasgaredig ar draws y Fwrdeistref Sirol. Er y byddai hyn yn arwain at rywffaint o ddatblygiad mewn aneddiadau llai lle nad yw mynediad at wasanaethau presennol gystal, byddai hefyd yn cynyddu'r boblogaeth yn yr ardaloedd hynny a allai gefnogi hyfywedd darpariaeth gwasanaethau newydd. Yn ogystal, byddai datblygiad cyfrannol mewn aneddiadau mwy lle mae mynediad at wasanaethau a chyfleusterau presennol yn dda. Mae effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol yn gyffredinol.</p>
<p>Amcan ACI 4: Annog ffyrdd iach a diogel o fyw sy'n hyrwyddo lles ac yn gwella lefelau iechyd cyffredinol yn RhCT.</p>	+	+/-	++/-	+/-	++	++/-	+/-	+/-	<p>Mae RhCT yn cyflawni'n llai ffafriol na Chymru gyfan o ran iechyd, gyda chyfran uwch o'r boblogaeth yn profi iechyd gwael. Gall dosbarthiad datblygiad o fewn y Fwrdeistref Sirol effeithio ar iechyd mewn sawl ffordd. Byddai i ba raddau y byddai'r opsiynau'n gwarchod ac yn darparu mannau agored a seilwaith gwyrdd arall (a all fod o fudd i iechyd) yn cael ei bennu gan y safleoedd penodol a ddewiswyd ar gyfer datblygiad a'u dyluniad; felly, bydd effeithiau'r opsiynau gofodol eang ar yr amcan ACI hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar i ba raddau y maent yn darparu mynediad i gyfleusterau gofal iechyd ac yn hwyluso'r defnydd o gerdded a beicio o ddydd i ddydd.</p> <p><u>Opsiw'n 1</u></p> <p>Mae'r strategaeth ranedig sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn canolbwyntio twf o amgylch y Prif Aneddiadau a'r Aneddiadau Allweddol, gan gefnogi mynediad at hyfywedd gwasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys cyfleusterau gofal iechyd megis meddygfeydd teulu. Dylai lleoli twf yn yr aneddiadau allweddol gynyddu cyfleoedd i gerdded a beicio o ddydd i ddydd. Bydd parhau i hyrwyddo datblygiad yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol yn ogystal â'r de yn cefnogi ymdrechion i adfywio'r gogledd a darparu mwy o fynediad at ofal iechyd a gwasanaethau. Mae'n debygol y bydd effaith gadarnhaol fach yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsiw'n 2</u></p>

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2.	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p>Drwy ganolbwyntio datblygiadau ar hyd y rhwydwaith priffyrdd, ceir y potensial i gefnogi mynediad i gyfleusterau gofal iechyd presennol, gan fod coridorau'r priffyrdd yn cydberthyn i rai o'r aneddiadau mwy yn RhCT. Fodd bynnag, gall canolbwyntio datblygiad ger y rhwydwaith priffyrdd annog a hwyluso'r defnydd o gar yn lle dulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy megis cerdded a beicio. Er efallai na fydd cerdded a beicio yn ddewis hyfyw yn lle teithiau hirach ar draffyrdd a ffyrdd 'A', byddai defnyddio trafndiaeth gynaliadwy megis bysiau a threnau (a allai fod yn llai tebygol o dan yr opsiwn hwn) yn helpu i warchod ansawdd aer a all fod o fudd i iechyd. Fodd bynnag, nodir y byddai'r patrwm datblygu hwn yn cyd-fynd â mynediad i'r Metro. Gall datblygiad o dan yr opsiwn hwn arwain at golli safleoedd maes glas; fodd bynnag, ar y lefel strategol hon, nid oes modd gwybod a fyddai unrhyw seilwaith gwyrdd a mannau agored yn cael eu colli, neu a fyddai seilwaith gwyrdd a mannau agored newydd yn cael eu darparu.</p> <p>Oherwydd natur yr opsiwn hwn, bydd yn bwysig ystyried yn ofalus agosrwydd datblygiad preswyl newydd i'r M4, yr A470 a'r A465, gan fod ardaloedd preswyl ymhlith y rhai mwyaf sensitif i effeithiau llai o ansawdd aer a sŵn sy'n gysylltiedig â llawer iawn o draffig ffyrdd. Mae effaith gymysg (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach) yn debygol yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsiwn 3</u></p> <p>Byddai canolbwyntio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yng nghanol trefi presennol yn debygol o sicrhau mynediad da i breswylwyr newydd at gyfleusterau gofal iechyd presennol. Byddai unrhyw welliannau a ddarperir fel rhan o ddatblygiad newydd neu o ganlyniad i gynnydd yn y boblogaeth leol hefyd yn hygyrch i fwy o breswylwyr presennol. Mae'n debygol y bydd mwy o gyfleoedd i gerdded a beicio o ddydd i ddydd lle canolbwyntir datblygiad newydd yn ganolog, a gall lefelau defnydd trafndiaeth gynaliadwy fod yn uwch ar gyfer teithiau hirach, gan wella lefelau llygredd sŵn ac aer. Fodd bynnag, gall lefelau sŵn a mynediad i gefn gwlad a mannau agored fod yn waeth o dan yr opsiwn hwn. Felly, mae effaith gymysg (effaith gadarnhaol sylweddol ac effaith negyddol fach) yn debygol yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsiwn 4</u></p> <p>Dylai canolbwyntio datblygiadau newydd yn y de, yn enwedig o amgylch coridor yr M4, helpu i sicrhau bod gan y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd fynediad da at gyfleusterau gofal iechyd presennol yn yr ardal honno. Byddai unrhyw welliannau a ddarperir fel rhan o ddatblygiad newydd neu o ganlyniad i gynnydd yn y boblogaeth leol hefyd yn hygyrch i fwy o breswylwyr presennol yn y de. Fodd bynnag, byddai cyfleoedd i ysgogi darpariaeth cyfleusterau gofal iechyd newydd yn y gogledd yn cael eu colli. Bydd agosrwydd uniongyrchol at yr M4 yn ystyriaeth gan y byddai bod yn agored i lygredd sŵn ac aer yn niweidiol i iechyd preswylwyr newydd. Mae hefyd yn bosibl y gallai mynediad rhwydd i'r M4 annog y defnydd o geir, er y byddai datblygiad yn yr ardal hon hefyd yn hygyrch i'r Metro a byddai defnyddio hwnnw yn lle teithio mewn car o fudd i ansawdd aer ac iechyd y cyhoedd. Yn gyffredinol, mae effaith gymysg (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach) yn debygol.</p> <p><u>Opsiwn 5</u></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn debyg i Opsiwn 3, gan fod yr ardaloedd sy'n ganolfannau trafndiaeth gyhoeddus neu sydd â mynediad da at drafndiaeth gyhoeddus yn tueddu i fod yn ardaloedd o amgylch canol trefi. Fodd bynnag, mae ardaloedd ychwanegol yn RhCT sydd â chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da sydd y tu allan i ganol trefi. Bydd mynediad da at drafndiaeth gyhoeddus o fudd i iechyd drwy hwyluso mynediad i gyfleusterau gofal iechyd i bawb, a thrwy leihau'r defnydd o geir a all fel arall gael effeithiau andwyol ar iechyd y cyhoedd drwy lygredd sŵn ac aer yn ogystal â lefelau is o weithgarwch. Gall teithiau a wneir ar drafndiaeth gyhoeddus hefyd gynnwys rhywfaint o gerdded neu feicio, yn ogystal â defnyddio trên/bws. Mae effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol yn gyffredinol.</p>

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2.	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p><u>Opsw'n 6</u></p> <p>Byddai darparu un safle mawr yn caniatáu ar gyfer y buddion mwyaf posibl o ran rhwymedigaethau cynllunio a byddai'n caniatáu darparu seilwaith angenrheidiol megis cyfleusterau gofal iechyd. Gall hyn helpu i atal y cyfleusterau presennol rhag cael eu gorlwytho gan ddatblygiadau newydd. Efallai y bydd cyfleoedd da hefyd i uwchgynllunio un safle mawr a sicrhau cyfleoedd da ar gyfer cerdded a beicio, yn ogystal â darparu manau agored a seilwaith gwyrdd sy'n addas ar gyfer hamdden awyr agored. Fodd bynnag, byddai canolbwyntio datblygiad newydd mewn un ardal yn golygu bod cyfleoedd i ysgogi ac adfywio darpariaeth gwasanaethau (gan gynnwys cyfleusterau gofal iechyd) mewn ardaloedd eraill yn cael eu colli. Felly, mae effaith gymysg (effaith gadarnhaol sylweddol ac effaith negyddol fach) yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 7</u></p> <p>Gallai canolbwyntio datblygiadau newydd o fewn aneddiadau presennol olygu bod datblygiad yn cael ei ddarparu yn agos at gyfleusterau gofal iechyd presennol, er bod risg y gallai datblygiad cymharol dameidiog ar raddfa fach mewn ardaloedd trefol presennol gynyddu'r pwysau ar gyfleusterau presennol heb ddarparu seilwaith ategol newydd megis meddygfeydd teulu. Gall datblygiad yn yr ardal drefol bresennol ddarparu cyfleoedd da i gerdded a beicio o ddydd i ddydd gan ei bod yn debygol y bydd y datblygiad wedi'i leoli'n agos at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae hefyd yn bosibl bod gan ardaloedd trefol lefelau uwch o lygredd sŵn ac aer a'u bod yn cynnig mynediad gwaeth i gefn gwlad, a allai fod yn niweidiol i iechyd preswylwyr newydd. Felly, nodir effaith gymysg (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach) yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsw'n 8</u></p> <p>Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau twf cyfrannol mewn aneddiadau ar draws RhCT. Gallai'r datblygiad mwy gwasgaredig hwn olygu bod gwasanaethau a chyfleusterau presennol, gan gynnwys cyfleusterau gofal iechyd, yn llai tebygol o gael eu gorlwytho, er na fyddai'r un màs critigol yn deillio o ddatblygiad cronol mewn un ardal, a allai fel arall ysgogi darparu cyfleusterau newydd, felly gall rhywfaint o orlwytho ddigwydd. Fodd bynnag, gallai datblygiad mwy gwasgaredig hefyd olygu bod cyfleusterau gofal iechyd presennol mewn aneddiadau llai a mwy gwledig yn parhau i gael eu cefnogi. Er y byddai rhywfaint o ddatblygiad yn digwydd mewn aneddiadau mwy lle mae'r cyfleoedd i gerdded a beicio o ddydd i ddydd yn fwy tebygol, byddai rhywfaint o ddatblygiad hefyd mewn aneddiadau llai lle mae lefelau defnydd ceir yn debygol o fod yn uchel, er anfantais i weithgarwch corfforol. Felly, mae effaith gymysg yn debygol yn gyffredinol.</p>
Amcan ACI 5: Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau teithio mwy cynaliadwy	+	-/+	++	--	++	-/+	++	+/-	<p>Mae darpariaeth trafniadaeth gyhoeddus yn RhCT yn cael ei chyflawni gan gyfuniad o wasanaethau bws a thrên. Y bws yw'r prif ddull trafniadaeth gyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r ardal yn cael ei gwasanaethu gan fwy nag 80 o lwybrau gweithredol, sy'n cynnwys gwasanaethau trawsffiniol rheolaidd i drefi a dinasoedd cyfagos. Mae yna hefyd rwydwaith rheilffyrdd helaeth, gyda'r Fwrdeistref Sirol yn cael ei gwasanaethu gan 22 o orsafoedd, er bod y ddarpariaeth yn fwy helaeth yn y gogledd o gymharu â'r de. Mae gwasanaethau trên yn gweithredu i Gaerdydd o Bontypridd, Treherbert ac Aberdâr ac i Gaerdydd o Ben-y-bont ar Ogwr gyda threnau'n galw ym Mhont-y-clun. Bydd Metro De Cymru sydd ar ddod yn gwella cysylltiadau â Dinas Caerdydd yn sylweddol. Mae'r prosiect yn cynnwys Canolfan Rheoli Metro newydd yn Ffynnon Taf ac adleoli gorsaf bresennol Ystâd Trefforest.</p> <p><u>Opsw'n 1</u></p>

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2.	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p>Drwy ganolbwyntio twf yn yr aneddiadau yn yr hierarchaeth aneddiadau, ceir y potensial i gyflawni'r rhan fwyaf o ddatblygiadau tai a chyflogaeth yn agos at yr ardaloedd sydd â'r ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus orau, gan roi mwy o ddewis i breswylwyr o ddulliau trafndiaeth a lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn debygol y bydd hyd yn oed datblygiad newydd cyfyngedig mewn aneddiadau llai yn cynyddu nifer y teithiau a wneir gan gerbydau preifat. Bydd datblygiadau gwasgaredig yng ngogledd a de y Fwrdeistref Sirol yn helpu i ddiwallu anghenion tai y ddwy ardal, gan alluogi mwy o bobl i fyw yn nes at eu gweithleoedd a gwneud llai o deithiau mewn car. Yn gyffredinol, mae effaith gadarnhaol fach yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 2</u></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio twf o amgylch rhwydweithiau strategol yr M4, yr A470 a'r A465. Mae hyn yn cydberthyn i ryw raddau i dri Phrif Anheddiad Llantrisant/Tonysguboriau, Pontypridd ac Aberdâr lle mae cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus yn dda ar y cyfan, er y gall hefyd annog defnydd ceir oherwydd mynediad cyfleus i'r rhwydwaith priffyrdd. Dylai datblygiadau yn agos at goridorau'r A470 a'r A465 alinio â datblygiad y Metro. Felly, mae effaith gymysg (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach) yn debygol yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsw'n 3</u></p> <p>Mae Opsw'n 3 yn canolbwyntio datblygiad newydd mewn safleoedd sy'n agos at ganolfannau Prif Aneddiadau ac Aneddiadau Allweddol y Sir. Mae gan y dull hwn y potensial i leihau nifer y teithiau, gan fod swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau wedi'u lleoli'n agosach at ei gilydd ar y cyfan. Gall hefyd leihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat, drwy roi mwy o ddewis i breswylwyr o wahanol ddulliau teithio. Felly, mae effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 4</u></p> <p>Gall canolbwyntio'r rhan fwyaf o'r datblygiad yn y de, yn enwedig o amgylch coridor yr M4, annog lefelau uchel o ddefnydd ceir o ganlyniad i fynediad rhwydd i'r rhwydwaith priffyrdd. Mae hyn yn arbennig o wir gan fod llawer o'r ardal yn ddibynnol iawn ar geir, gyda diffyg trafndiaeth gyhoeddus. Felly, mae effaith negyddol sylweddol yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 5</u></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn ceisio canolbwyntio datblygiad yn uniongyrchol lle mae cysylltiadau trafndiaeth cynaliadwy ar eu gorau, felly dylai ddarparu cyfleoedd da i bobl ddefnyddio dulliau teithio nad ydynt yn seiliedig ar geir o ddydd i ddydd. Yn benodol, byddai'r dull hwn yn cefnogi twf Metro De Cymru. Felly, mae effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 6</u></p> <p>Byddai opsiwn 6 yn golygu dyraniad safle allweddol mawr yn ne'r Fwrdeistref Sirol a fyddai'n cynnwys mwyafriaf sylweddol o'r datblygiadau tai newydd dros gyfnod y cynllun. Gall canolbwyntio datblygiadau yn bennaf mewn un lle leihau allfudo a rhywfaint o allgymudo i deithio ar gyfer gwasanaethau, ond prin yw'r ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus mewn rhai ardaloedd yn y de ar hyn o bryd, felly bydd yn hanfodol bod unrhyw safle strategol newydd yn cael ei gefnogi'n ddigonol gan seilwaith trafndiaeth gynaliadwy,</p>

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2.	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p>gyda chatau priodol. Dylai datblygu safle strategol ar raddfa fawr gynnig cyfleoedd da i ymgorffori gwasanaethau newydd o'r fath. Felly, mae effaith gymysg (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach) yn debygol yn gyffredinol.</p> <p>Opsw'n 7</p> <p>Mae Opsw'n 7 yn ceisio sicrhau twf yn yr ardal drefol bresennol heb fod angen rhyddhau tir newydd ar gyfer datblygiad. Drwy ganolbwyntio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau mewn ardaloedd trefol, ceir y potensial i leihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat, drwy roi mwy o ddevis i breswylwyr o wahanol ddulliau teithio gan fod mwy o fynediad at gyflogaeth, gwasanaethau, cyfleusterau a byddai trafnidiaeth gyhoeddus wrth law. Felly, mae effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol.</p> <p>Opsw'n 8</p> <p>Byddai'r opsiwn hwn yn darparu ar gyfer dosbarthu twf cymharol gyfartal ledled y Fwrdeistref Sirol. Er y byddai'r dull hwn yn arwain at lefel gymesur uwch o dwf yn yr aneddiadau mwy lle mae mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn dda ar y cyfan a lle gall fod llai o angen i deithio, byddai rhywfaint o ddatblygiad hefyd yn cael ei ddarparu mewn aneddiadau llai, a fyddai'n cynyddu nifer a phellter y teithiau a wneir gan gerbyd preifat. Fodd bynnag, gall hefyd gefnogi gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus mewn aneddiadau llai a mwy gwledig o ganlyniad i lefelau defnydd uwch. Felly, mae effaith gymysg (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach) yn debygol.</p>
<p>Amcan ACI 6: Hyrwyddo, diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig</p>	-?	-?	--?	--?	--?	-?	+/-?	-?	<p>Mae gan RhCT dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a chyfoeth o asedau treftadaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol, ledled y trefi a'r ardaloedd mwy gwledig. Mae'r rhain yn amrywio o ran maint o adeiladau sengl a henebion i ardaloedd o barciau a gerddi hanesyddol. Mae 369 o adeiladau rhestredig ar draws RhCT, gyda thri ohonynt yn rhai Gradd I. Mae 36 yn adeiladau rhestredig Gradd II* a 330 yn rhai Gradd II.</p> <p>Mae gan bob datblygiad newydd y potensial i gael effaith ar yr amgylchedd hanesyddol, gan effeithio'n uniongyrchol ar asedau ac effeithio'n anuniongyrchol ar eu lleoliad. Fodd bynnag, bydd effeithiau penodol, gan gynnwys i ba raddau mae datblygiad newydd yn gwella'r amgylchedd hanesyddol, yn dibynnu ar ddyluniad a chynllun cynigion penodol. Felly, mae ansicrwydd penodol ynghlwm wrth yr effeithiau a nodir mewn perthynas â'r amcan ACI hwn.</p> <p>Opsw'n 1</p> <p>Gall canolbwyntio'r rhan fwyaf o ddatblygiad yn yr aneddiadau yn yr hierarchaeth aneddiadau ddod â datblygiad newydd yn nes at yr asedau treftadaeth presennol sy'n tueddu i fod wedi'u canolbwyntio'n bennaf mewn ardaloedd adeiledig. Fodd bynnag, gallai datblygiad cymharol wasgaredig yng ngogledd a de'r Fwrdeistref Sirol olygu bod gan asedau treftadaeth yn y ddwy ardal y potensial i gael eu heffeithio gan ddatblygiadau adeiledig newydd; fodd bynnag, gall datblygiad sydd wedi'i wasgaru'n fwy cyfartal leihau crynodiad yr effeithiau mewn ardaloedd penodol. Mae effaith negyddol fach yn debygol yn gyffredinol.</p> <p>Opsw'n 2</p> <p>Mae Opsw'n 2 yn canolbwyntio datblygiadau newydd ar hyd y rhwydwaith priffyrdd, a allai gynnwys nifer o aneddiadau sy'n cynnwys crynodiadau o asedau treftadaeth megis Ardaloedd Cadwraeth (yn enwedig yn y de o amgylch Pontypridd a Llantrisant) ac adeiladau rhestredig. Fodd bynnag, mae rhai o'r coridorau priffyrdd hyn y tu allan i'r ardaloedd mwyaf dwys o ran asedau treftadaeth. Felly,</p>

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2.	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p>nodir effaith negyddol fach bosibl, a fydd yn ansicr i raddau helaeth yn dibynnu ar y safleoedd penodol sy'n cael eu dyrannu a dyluniad y datblygiad.</p> <p><u>Opsw'n 3</u></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio datblygiad yng nghanolfannau Prif Aneiddiadau ac Aneiddiadau Allweddol RhCT lle ceir y crynodiad uchaf o asedau treftadaeth, yn enwedig Pontypridd, Llantrisant ac Aberdâr. Felly, nodir effaith negyddol sylweddol bosibl, sydd unwaith eto'n ansicr.</p> <p><u>Opsw'n 4</u></p> <p>Drwy ganolbwyntio datblygiad yn y de, gallai'r opsiwn hwn arwain at ddatblygiad mewn ardaloedd sydd â chrynodiad o nodweddion treftadaeth dynodedig, yn enwedig Ardaloedd Cadwraeth ger Llanhari, Pont-y-clun, Llanharan a Phontypridd. Mae crynodiadau o adeiladau rhestredig yn ne'r Rhondda hefyd, yn enwedig ger Pontypridd. Mae de RhCT hefyd yn gartref i un o'r ddau barc a gardd hanesyddol yn y Fwrdeistref Sirol, sy'n agos at Bont-y-clun. Gallai canolbwyntio twf yn ne y Fwrdeistref Sirol yn unig hefyd olygu ei bod yn fwy heriol osgoi effeithiau ar asedau treftadaeth yn yr ardal honno. Felly, nodir effaith negyddol sylweddol bosibl, sydd unwaith eto'n ansicr.</p> <p><u>Opsw'n 5</u></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn debyg i Opsw'n 3, gan fod yr ardaloedd sy'n ganolfannau trafndiaeth gyhoeddus neu sydd â mynediad da at dtrafnidiaeth gyhoeddus yn tueddu i fod yn ardaloedd trefol lle mae asedau treftadaeth hefyd wedi'u canolbwyntio'n fwyaf dwys. Fodd bynnag, mae ardaloedd ychwanegol yn RhCT sydd â chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da sydd y tu allan i'r prif ardaloedd trefol. O arwyddocâd i'r amcan ACI hwn, mae hyn yn cynnwys y canolfannau trafndiaeth gyhoeddus o Porth i'r gogledd i Dreherbert, sy'n dirwedd hanesyddol gofrestrdedig arbennig. Felly, nodir effaith negyddol sylweddol bosibl, sydd unwaith eto'n ansicr.</p> <p><u>Opsw'n 6</u></p> <p>Bydd effeithiau'r opsiwn hwn ar dreftadaeth ddiwylliannol yn dibynnu unwaith eto i raddau helaeth ar ei leoliad penodol; fodd bynnag, yn gyffredinol, gall canolbwyntio'r rhan fwyaf o ddatblygiad ar un safle strategol gynnig mwy o gyfleoedd i osgoi effeithiau ar asedau treftadaeth, sy'n tueddu i fod wedi'u lleoli yn bennaf yn yr ardaloedd trefol presennol. Fodd bynnag, fel y trafodwyd o dan Opsw'n 4, mae amrywiaeth o nodweddion treftadaeth dynodedig yn ne RhCT y dylid eu hystyried wrth ddewis y safle, yn enwedig Ardaloedd Cadwraeth ger Llanhari, Pont-y-clun, Llanharan a Phontypridd. Mae nifer o adeiladau rhestredig yn ne RhCT hefyd, yn enwedig ger Pontypridd. Mae de RhCT hefyd yn gartref i un o'r ddau barc a gardd hanesyddol yn y Fwrdeistref Sirol, sy'n agos at Bont-y-clun. Yn gyffredinol, nodir effaith negyddol fach bosibl, sydd unwaith eto'n ansicr.</p> <p><u>Opsw'n 7</u></p> <p>Gallai'r cymorth y mae'r opsiwn hwn yn ei ddarparu ar gyfer darparu datblygiadau newydd ar safleoedd tir llwyd ac aildefnyddio adeiladau gwag arwain at effeithiau cadarnhaol o ran cadw a gwella cymeriad ardaloedd trefol a lleoliad asedau treftadaeth presennol. Gall hefyd yn bosibl sicrhau gwelliannau drwy adfer adeiladau hanesyddol presennol. Fodd bynnag, byddai'r opsiwn hwn hefyd yn canolbwyntio datblygiad newydd mewn ardaloedd trefol lle mae'n debygol o fod yn nes at asedau treftadaeth a allai gael eu heffeithio'n andwyol,</p>

Amcan yr ACI	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4	Opsiwn 5	Opsiwn 6	Opsiwn 7	Opsiwn 8	Cyfiawnhad
									<p>yn dibynnu ar ddyluniad y datblygiad newydd. Felly, nodir effaith gymysg (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach) ond ansicr.</p> <p>Opsiwn 8</p> <p>Drwy ddosbarthu datblygiad yn fwy cyfartal drwy RhCT, gallai'r opsiwn hwn arwain at nifer uwch o asedau hanesyddol yn cael eu heffeithio. Fodd bynnag, mae datblygiadau mwy eang yn llai tebygol o arwain at effeithiau andwyol cronol mewn un ardal. Felly, nodir effaith negyddol fach bosibl ond ansicr.</p>
Amcan ACI 7: – hybu defnyddio'r Gymraeg	0	0	0	0	0	0	0	0	<p>Pob Opsiwn</p> <p>Yng nghyd-destun y De, mae RhCT yn cyflawni'n dda ar y cyfan o ran y defnydd o'r Gymraeg. Adroddodd Cyfrifiad 2021 fod 12.4% o bobl tair oed a hŷn yn RhCT yn gallu siarad Cymraeg. Roedd hyn yn gynydd bach ar y 12.3% o'r boblogaeth yr adroddwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011. Yn ôl StatsCymru, nid yw'n glir a fyddai datblygiadau newydd mewn ardaloedd sydd â chyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yn ysgogi lefelau uwch o ddefnydd o'r Gymraeg, neu a allai effaith datblygiad newydd yn yr ardaloedd hynny wanhau'r defnydd o'r Gymraeg. Felly, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau neu wahaniaethu rhwng effeithiau tebygol yr opsiynau gofodol ar yr amcan ACI hwn, ac ystyrir nad yw pob un o'r wyth opsiwn yn cael fawr o effaith.</p>
Amcan ACI 8: Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd	-?	--?	+?	-?	+?	--?	+?	+/-?	<p>Mae RhCT yn ymestyn o ucheldiroedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd i gyrion Bro Morgannwg. Y nodwedd ganolog yw llwyfandir y meysydd glo, sy'n cynnwys cymoedd afonydd Rhondda a Chynon a rhannau o gymoedd afonydd Taf ac Elái. Mae gan gymoedd Cynon a Rhondda ochrau serth ar y cyfan, gyda lloriau dyffryn cul sy'n llawn adeiladau, a llethrau sydd wedi'u gorchuddio gan redyn, sy'n cael eu ffermio neu'n goediog. I'r de o Bontypridd, mae Cwm Taf yn lletach ond wedi ei ddatblygu'n drwm. Mae gan ran ddeheuol y Fwrdeistref Sirol dirwedd feddalach, fwy iseldirol o ffermydd, coedwigoedd, tiroedd comin, trefi a phentrefi. Ystyrir bod yr holl effeithiau ar yr amcan ACI hwn yn ansicr o ystyried y bydd yr effeithiau yn cael eu dylanwadu'n gryf iawn gan leoliad penodol safleoedd datblygiadau a'u dyluniad.</p> <p>Opsiwn 1</p> <p>O dan y strategaeth ranedig, mae dosbarthiad y datblygiadau yng ngogledd a de y Fwrdeistref Sirol yn rhoi mwy o gyfle i ddewis safleoedd sy'n osgoi'r tirweddau mwyaf sensitif. Fodd bynnag, gall datblygiadau yn y gogledd effeithio ar leoliad Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn dibynnu ar ei leoliad penodol. Er y dylai ffiniau aneddiadau sefydlog a ddefnyddir yn y de osgoi colli safleoedd maes glas a gwasgariad aneddiadau, mae ffiniau aneddiadau yn y gogledd yn fwy hyblyg, sy'n golygu y gallai effeithiau negyddol ar y dirwedd o ymylon datblygiad aneddiadau fod yn fwy tebygol. Nodir effaith negyddol fach bosibl ond ansicr yn gyffredinol.</p> <p>Opsiwn 2</p> <p>Mae Opsiwn 2 yn strategaeth sy'n seiliedig ar rwydwaith priffyrdd, sy'n canolbwyntio ar leoli twf o amgylch rhydwethiau strategol yr M4, yr A470 a'r A465. Mae gan y rwydwaith priffyrdd nifer o Ardaloedd Tirwedd Arbennig, ac mae gan ddatblygiad ar hyd coridor yr A465</p>

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2.	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p>y potensial i effeithio ar leoliad Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Felly, nodir effaith negyddol sylweddol bosibl ond ansicr.</p> <p><u>Opsw'n 3</u></p> <p>Dylai canolbwyntio datblygiadau yng nghanol trefi yn bennaf lywio datblygiadau newydd i ffwrdd o safleoedd maes glas sensitif mewn ardaloedd mwy gwledig a dylai hefyd lywio datblygiadau i ffwrdd o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Er bod rhai o'r prif drefi yn agos at Ardaloedd Tirwedd Arbennig, dylai canolbwyntio datblygiadau adeiledig yn ganolog yn y trefi hynny helpu i osgoi effeithiau niweidiol ar dirwedd. Felly, nodir effaith gadarnhaol fach bosibl ond ansicr o dan yr opsiwn hwn.</p> <p><u>Opsw'n 4</u></p> <p>Byddai lleoli'r rhan fwyaf o'r datblygiad yn ne'r Fwrdeistref Sirol yn golygu bod datblygiadau newydd yn cael eu llywio i ffwrdd o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd. Fodd bynnag, mae nifer o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn y de y gellid effeithio arnynt, a nodir y byddai'r opsiwn hwn yn cynnwys datblygiadau ar safleoedd maes glas yn bennaf. Felly, nodir effaith negyddol fach bosibl.</p> <p><u>Opsw'n 5</u></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio'r rhan fwyaf o'r datblygiadau yn agos at ganolfannau trafnidiaeth gyhoeddus a gorsafoedd rheilffordd presennol; felly, maent yn debygol o lywio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau tuag at ardaloedd mwy trefol lle gallai effeithiau tirwedd fod yn llai tebygol. Felly, nodir effaith gadarnhaol fach bosibl.</p> <p><u>Opsw'n 6</u></p> <p>Mae'n debygol y bydd dyrannu safleoedd strategol allweddol newydd yn cael effaith andwyol ar y dirwedd yn ne RhCT lle mae nifer o Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Er y gallai datblygiadau safle strategol newydd gynnig cyfleoedd da i uwchgynllunio ac ymgorffori dyluniad a mesurau lliniaru o ansawdd uchel o'r cychwyn cyntaf, mae'n annhebygol y gellid osgoi effeithiau sylweddol ar y dirwedd o ganlyniad i ddatblygiad o'r raddfa hon. Felly, nodir effaith negyddol sylweddol bosibl.</p> <p><u>Opsw'n 7</u></p> <p>Bydd sicrhau twf mewn ardaloedd trefol presennol yn arwain at lai o dir newydd yn cael ei ryddhau ar gyfer ei ddatblygu, felly bydd yn lleihau'r potensial ar gyfer effeithiau niweidiol ar dirweddau sensitif. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw safleoedd maes glas yn cael eu rhyddhau a byddai datblygiadau yn digwydd ar safleoedd tir llwyd o fewn ffiniau aneddiadau presennol. Felly, nodir effaith gadarnhaol fach bosibl.</p> <p><u>Opsw'n 8</u></p> <p>Drwy ddosbarthu datblygiadau yn fwy cyfartal ledled y Fwrdeistref Sirol, mae'r opsiwn hwn yn darparu lle i ddewis safleoedd sy'n osgoi'r tirweddau mwyaf sensitif. Heb ganolbwyntio llawer iawn o ddatblygiadau mewn nifer fach o leoliadau, gall yr opsiwn hwn leihau'r potensial ar gyfer effeithiau niweidiol cronol ar dirwedd. Fodd bynnag, gall olygu ei bod yn anoddach osgoi datblygiadau yn yr ardaloedd o sensitifrwydd tirwedd uchaf, oherwydd y patrwm datblygu gwasgareddig a gweddol ragnodol. Felly, nodir effaith gymysg bosibl (effaith gadarnhaol fach ac effaith negyddol fach), sydd unwaith eto'n ansicr.</p>

Amcan yr ACI	Opsiw 1	Opsiw 2	Opsiw 3	Opsiw 4	Opsiw 5	Opsiw 6	Opsiw 7	Opsiw 8	Cyfiawnhad
									<p>O dan yr opsiwn yma gallai ardal ddeheuol RhCT ddiodef gorddatblygiad a difrod ecolegol gan fod mwyafrif y twf mewn un ardal. Mae clwstr o RIGS ar hyd coridor yr M4 ger Llanharan a Llantrisant. O bwysigrwydd cenedlaethol pellach, mae SoDdGA (Comin a Phorfa Llantrisant) a sawl ardal o Goetir Hynafol ymhlith nifer o Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur a allai fod mewn perygl o orddatblygu pellach o dan yr opsiwn yma. Felly, nodir bod effaith negyddol sylweddol i'r ardal yn bosibl ond yn ansicr.</p> <p><u>Opsiw 5</u></p> <p>Mae'r opsiwn yma'n debyg i Opsiw 3, sef bod yr ardaloedd sy'n hybiau trafndiaeth gyhoeddus neu sydd â mynediad da at drafndiaeth gyhoeddus yn tueddu i fod yn ardaloedd o amgylch canol trefi. Serch hynny, mae ardaloedd ychwanegol yn RhCT gyda chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da sydd y tu allan i'r rhain. Dylai'r opsiwn yma roi cyfleoedd da i ganolbwyntio datblygiad ar safleoedd tir llwyd lle mae effeithiau ar fioamrywiaeth yn llai tebygol. Felly, nodir bod effaith negyddol fechan yn bosibl ond yn ansicr.</p> <p><u>Opsiw 6</u></p> <p>Byddai dyrannu safle allweddol mawr yn ne'r Fwrdeistref Sirol yn helpu i osgoi effeithiau ar fioamrywiaeth mewn rhannau eraill o RCT ond gallai olygu bod effeithiau andwyol penodol yn cael eu profi yn y de oherwydd datblygiadau maes glas ar raddfa fawr mewn rhan o'r Fwrdeistref Sirol sydd wedi'i chyfyngu'n gymharol gan nodweddion bioamrywiaeth. Gall lleoli datblygiad o nifer fawr o dai ar un safle yn hytrach na nifer o safleoedd bach a chanolig gynnog cyfleoedd da ar gyfer ymgorffori mesurau lliniaru ac osgoi effeithiau mewn rhannau eraill o RCT; fodd bynnag byddai unrhyw effeithiau yn ardal y dyraniad strategol yn fwy. Yn gyffredinol, nodir bod effaith negyddol fechan yn bosibl ond yn ansicr.</p> <p><u>Opsiw 7</u></p> <p>Byddai opsiwn 7 yn sicrhau twf yn yr ardal drefol bresennol heb fod angen rhyddhau tir newydd i'w ddatblygu. Caiff hyn ei gyflawni drwy aildefnyddio tir ac eiddo presennol a rhai sydd ddim yn cael eu defnyddio ddigon ar gyfer twf yn hytrach na dyrannu tir newydd. Dylai hyn olygu y bydd yr effeithiau ar fioamrywiaeth mewn ardaloedd o ddatblygiad posibl yn fach iawn ac mae effaith ddibwys sy'n bosibl ond yn ansicr wedi'i nodi.</p> <p><u>Opsiw 8</u></p> <p>Mae gan yr opsiwn yma'r potensial i ddsbarthu datblygiadau newydd ymhlith ystod ehangach o aneddiadau, gan arwain yn enwedig at batrwm mwy gwasgaredig o ddatblygiad ar draws y Fwrdeistref Sirol a lleihau'r potensial ar gyfer effeithiau andwyol cronol ar fioamrywiaeth, er y gallai olygu bod rhagor o ardaloedd yn cael eu heffeithio. Yn gyffredinol, nodir bod effaith negyddol fechan yn bosibl ond yn ansicr.</p>
Amcan 10 yr ACI: Diogelu ansawdd a nifer yr adnoddau dŵr RhCT	-?	-?	-?	-?	-?	+/-?	-?	-?	Byddai graddfa'r datblygiad a fyddai'n dod ymlaen o dan unrhyw un o'r opsiynau gofodol yn arwain at gynydd yn y galw am ddefnydd dŵr; fodd bynnag, rhagdybir y byddai datblygiadau newydd yn cael eu dylunio a'u hadeiladu i safonau effeithlonrwydd uchel. Fydd lleoliad eang datblygiad ddim yn cael effaith sylweddol ar argaeledd dŵr, er y gallai patrymau datblygu mwy dwys olygu y bydd cynnydd yn y galw yn cael ei ganolbwyntio mewn ardaloedd llai, gan waethygu'r effeithiau'n ymwneud â chynnydd mewn galw. O ran ansawdd dŵr, mae un Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr yng ngogledd RhCT, ac un arall sydd ychydig o fewn ffin RhCT yn y de-orllewin. Ar hyn o bryd caiff dŵr gwastraff yn RhCT ei drin gan saith o weithfeydd trin dŵr gwastraff (GTDG).

Amcan yr ACI	Opsw 1	Opsw 2	Opsw 3	Opsw 4	Opsw 5	Opsw 6	Opsw 7	Opsw 8	Cyfiawnhad
									<p>Mae gan y mwyafrif o'r rhain gapasiti i dderbyn dŵr gwastraff ychwanegol o ddatblygiadau newydd. Yr eithriad nodedig i hyn yw GTDG Cwm Cynon, sy'n gwasanaethu cwm Cynon, gan gynnwys Abercynon, Aberdâr, Hirwaun ac Aberpennar.</p> <p><u>Opsw 1</u></p> <p>Byddai'r strategaeth hollt yn dosbarthu datblygiadau yng ngogledd a de RhCT felly gallai helpu i osgoi ardaloedd dwys o ran cynnydd yn y galw am gyflenwad dŵr, er, yn dibynnu ar leoliad unrhyw ddyraniadau safleoedd strategol, efallai y bydd angen ystyried hyn. Yn yr un modd, mae'n bosibl y gallai datblygiad ddigwydd yn y gogledd ger yr Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr a/neu yng Nghwm Cynon lle mae problemau posibl yn ymwneud â chapasiti trin dŵr gwastraff. Yn gyffredinol mae effaith negyddol fechan yn debygol, er mae hyn yn ansicr yn dibynnu ar leoliad penodol y datblygiad.</p> <p><u>Opsw 2</u></p> <p>Drwy ganolbwyntio twf ar hyd y rhwydwaith Priffyrdd Strategol, mae'n bosibl y bydd y cynnydd yn y galw am seilwaith trin dŵr a thrin carthion yn fwy gwasgaredig nag o dan rai o'r opsiynau eraill. Mae'r ardal y gwyddys ei bod dan y pwysau mwyaf o ran capasiti GTDG yn sefyll y tu allan i'r prif rwydwaith priffyrdd, ymhellach i'r gorllewin o'r A470. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd datblygiad ar hyd coridor yr A465 yn gyfagos at yr Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr yn y gogledd. Yn gyffredinol, nodir bod effaith negyddol fechan yn bosibl ond yn ansicr.</p> <p><u>Opsw 3</u></p> <p>Dylai canolbwyntio datblygiad yng nghanol trefi RhCT olygu ei fod yn weddol wasgaredig, ac efallai y bydd hyn yn lleihau effeithiau cronol y galw am dynnu a thrin dŵr mewn ardaloedd bach. Dylai'r dull yma hefyd ddargyfeirio datblygiad oddi wrth yr Ardaloedd Diogelu Tarddiad Dŵr; fodd bynnag mae rhai trefi yng Nghwm Cynon lle mae prinder o ran capasiti GTDG. Yn gyffredinol, nodir bod effaith negyddol fechan yn bosibl ond yn ansicr.</p> <p><u>Opsw 4</u></p> <p>Drwy ganolbwyntio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau yn ardal de RhCT, mae'n bosibl y byddai'r cynnydd yn y galw am dynnu a thrin dŵr yn fwy dwys yn yr ardal honno ac y byddai'r effeithiau'n fwy sylweddol. Er y byddai'r dull yma'n osgoi'r Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr yn y gogledd a'r ardal lle gwyddys bod cyfyngiad ar gapasiti GTDG, mae yna Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr yn rhannol yn ardal de RhCT. Yn gyffredinol, nodir bod effaith negyddol fechan yn bosibl ond yn ansicr.</p> <p><u>Opsw 5</u></p> <p>Mae'r opsiwn yma'n debyg i'r ymagwedd canol trefi yn gyntaf (Opsw 3) gan fod yr ardaloedd sy'n hybiau trafndiaeth gyhoeddus neu sydd â mynediad da at drafndiaeth gyhoeddus yn tueddu i fod yn ardaloedd o amgylch canol trefi. Gallai datblygiad mwy wasgaredig ledled RhCT leihau'r potensial ar gyfer effeithiau cronol mewn un ardal; fodd bynnag mae rhai hybiau trafndiaeth gyhoeddus wedi'u lleoli mewn trefi yng Nghwm Cynon lle gwyddys bod pwysau ar gapasiti GTDG. Yn gyffredinol, nodir bod effaith negyddol fechan yn bosibl ond yn ansicr.</p>

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p><u>Opsw'n 6</u></p> <p>Trwy ganolbwyntio datblygiad ar safle Allweddol newydd yn ne RhCT, byddai effeithiau'r cynnydd yn y galw am gyflenwi a thrin dŵr yn fwy dwys; fodd bynnag, dylai safle strategol newydd gynnig cyfleoedd da ar gyfer darparu'r seilwaith gofynnol drwy rwymedigaethau cynllunio. Byddai'r safle strategol hefyd yn osgoi cwm Cynon lle mae'n hysbys bod problem o ran capasiti GTDG, yn ogystal â'r Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr yng ngogledd RhCT. Felly nodir effaith gymysg (cadarnhaol fechan a negyddol fechan), ond mae hyn yn ansicr yn dibynnu ar leoliad a dyluniad penodol y safle.</p> <p><u>Opsw'n 7</u></p> <p>Mae Opsw'n 7 yn canolbwyntio twf o fewn yr ardaloedd trefol presennol ledled RhCT. Byddai modd i'r datblygiad mwy gwasgaredig yma olygu bod yr effeithiau cronol o ran cynnydd yn y galw am gyflenwi a thrin dŵr mewn un ardal yn llai tebygol o ddigwydd. Fodd bynnag, mae ardaloedd trefol yng nghwm Cynon lle mae prinder o ran capasiti GTDG. Ar y cyfan nodir bod effaith negyddol fechan yn bosibl ond yn ansicr.</p> <p><u>Opsw'n 8</u></p> <p>Mae gan yr opsiwn yma'r potensial eto i ddsbarthu datblygiadau newydd ymhlith ystod ehangach o aneddiadau, ac felly galw sy'n fwy gwasgaredig ar gyfer cyflenwi a thrin dŵr. Yn yr un modd gydag Opsw'n 7, fodd bynnag, byddai datblygiad (cymesur yn yr achos yma) o fewn aneddiadau yng nghwm Cynon. Unwaith eto, nodir bod effaith negyddol fechan yn bosibl ond yn ansicr.</p>
Amcan 11 yr ACI: Gwarchod a gwella ansawdd aer	-	--	++/-	--	++	+/-	+/-	+/-	<p>Gallai'r opsiynau gofodol effeithio ar yr amcan yma o'r ACI o ran i ba raddau y bydden nhw'n arwain at ddefnyddio ceir, yn ogystal ag i ba raddau y byddai modd iddyn nhw arwain at ddatblygiad yn un o'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer sydd wedi'u datgan yn RhCT, neu'n agos ato.</p> <p><u>Opsw'n 1</u></p> <p>Mae'r strategaeth hollt sy'n gysylltiedig ag Opsw'n 1 yn canolbwyntio twf ar aneddiadau allweddol, yng ngogledd a de RhCT. Dylai hyn olygu bod yr effeithiau o ran allyriadau ychwanegol o ddefnyddio ceir yn fwy cyfyngedig, gan y bydd datblygiad yn agosach at wasanaethau a chyfleusterau presennol a chyfleoedd cyflogaeth. Ond, mae'r patrwm datblygu mwy gwasgaredig yn golygu y gallai datblygiad fod yn gyfagos at un neu ragor o'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer sydd wedi'u datgan. Gall unrhyw ddyraniadau safleoedd strategol arwain at gynnydd penodol mewn allyriadau traffig yn yr ardaloedd hynny, er y dylai safleoedd strategol gynnig cyfleoedd da i ymgorffori seilwaith trafniadau gynaliadwy. Yn gyffredinol mae effaith negyddol fechan yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 2</u></p> <p>Mae Opsw'n 2 yn strategaeth ar sail rhwydwaith priffyrdd sy'n canolbwyntio ar leoli twf o amgylch rhwydweithiau strategol yr M4, yr A470 a'r A465. Efallai y bydd lleoli datblygiad yn gyfagos at y rhwydwaith priffyrdd yn hwyluso lefelau uchel o ddefnyddio ceir ac atal newid o ran dulliau teithio. Yn ogystal, mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer sydd wedi'u datgan yng nghyffiniau'r A470 yn benodol, ac felly gallai twf newydd yn agos at yr ardaloedd hynny waethygu'r llygredd aer presennol. Felly mae effaith negyddol sylweddol yn debygol.</p>

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p><u>Opsw'n 3</u></p> <p>Mae Opsw'n 3 yn canolbwyntio datblygiadau newydd ar safleoedd canol trefi. Mae gan ddwysáu trefol y potensial i waethygu problemau tagfeydd sy'n bodoli eisoes pe bai trigolion yn dewis defnyddio cerbydau preifat. Nodir bod nifer o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer wedi'u grwpio o amgylch Pontypridd, a fyddai'n Brif Setliad i'w ddatblygu o dan yr opsiwn yma. Fodd bynnag, drwy ganolbwyntio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau yn rhannau canolog y Prif Aneiddiadau a'r Aneiddiadau Allweddol, mae potensial y bydd dibyniaeth ar gerbydau preifat yn gostwng, trwy roi rhagor o ddewis i drigolion o wahanol ddulliau teithio. Mae canolfannau aneiddiadau yn cynnig lefel uwch o fynediad at gyflogaeth, gwasanaethau, cyfleusterau a thrafnidiaeth gyhoeddus yn gyfagos, sy'n lleihau'r angen i deithio mewn cerbydau preifat. Yn gyffredinol, mae effaith gymysg (cadarnhaol sylweddol a negyddol fechan) yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 4</u></p> <p>Byddai Opsw'n 4 yn canolbwyntio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau yn ne RhCT, gan gynnwys coridor yr M4. Mae llawer o'r ardal yma eisoes yn ddibynnol iawn ar geir ac mae diffyg darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus yno. Gallai'r opsiwn yma arwain at orddatblygu'r de, gyda'r potensial i gynyddu allyriadau traffig ar sail gronol, gan gael effaith andwyol ar ansawdd aer. Mae yna hefyd nifer o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn y de lle byddai modd i faterion presennol waethygu. Felly mae effaith negyddol sylweddol yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 5</u></p> <p>Mae Opsw'n 5 yn canolbwyntio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau ger hybiau trafndiaeth gynaliadwy a ddylai helpu i hwyluso newid o ran dulliau teithio a lleihau'r traffig ychwanegol sy'n cael ei gynhyrchu gan ddatblygiadau newydd. Er bod yr ardaloedd sydd â nodau trafndiaeth gyhoeddus yn aml yn rhai canolog ac felly o bosibl yn cyd-fynd â'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer sydd wedi'u datgan ym Mhontypridd yn benodol, byddai datblygiadau'n cael eu dosbarthu ar draws rhannau eraill o'r Fwrdeistref Sirol ac yn arbennig ger y Metro, felly byddai traffig ychwanegol sy'n cael ei gynhyrchu yn yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer hynny yn debygol o fod yn ddiwbys. Yn gyffredinol, mae effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 6</u></p> <p>Byddai Opsw'n 6 yn golygu bod safle strategol mawr yn cael ei ddyrannu yn ne'r Fwrdeistref Sirol a fyddai'n cynnwys mwyafrif sylweddol o'r datblygiadau tai newydd dros gyfnod y cynllun. Byddai cael un safle mawr yn caniatáu'r buddion mwyaf o ran rhwymedigaethau cynllunio a byddai'n caniatáu ar gyfer darparu'r seilwaith angenrheidiol gan gynnwys cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus a seilwaith trafndiaeth gynaliadwy megis llwybrau cerdded a beicio. Serch hynny, mae llawer o dde'r Fwrdeistref Sirol yn ddibynnol iawn ar geir a byddai modd i agoswydd at yr M4 waethygu'r defnydd o geir ymhlith trigolion newydd. Felly, yn gyffredinol mae effaith gymysg (cadarnhaol fechan a negyddol fechan) yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 7</u></p> <p>Mae opsiwn 7 yn ceisio sicrhau twf yn yr ardal drefol bresennol heb fod angen rhyddhau tir newydd i'w ddatblygu. Mae'r opsiwn yma'n canolbwyntio datblygiadau newydd mewn ardaloedd yn RhCT sydd eisoes yn fwy poblog, gyda'r potensial i gynyddu allyriadau traffig ar sail gronol, gan gael effaith andwyol ar ansawdd aer. Serch hynny, drwy ganolbwyntio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau mewn ardaloedd trefol, mae yna botensial i leihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat, trwy roi rhagor o ddewis i drigolion o wahanol ddulliau teithio a gwell mynediad i'r prif nodau trafndiaeth gynaliadwy. Felly, mae effaith gymysg (cadarnhaol fechan a negyddol fechan) yn debygol yn gyffredinol.</p>

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p><u>Opsw'n 8</u></p> <p>Mae Opsw'n 8 yn cynnwys math gwasgaredig o dwf ledled RhCT. Drwy'r opsiwn yma byddai lefel y twf a rennir o amgylch y Fwrdeistref Sirol yn diwallu anghenion lleol heb roi pwysau gormodol ar ardaloedd penodol. Drwy ganiatáu ar gyfer dosbarthiad ehangach a mwy cyfartal o ddatblygiadau ledled RhCT, mae gan yr opsiwn yma'r potensial i ddosbarthu datblygiadau newydd ymhlith ystod ehangach o aneddiadau a safleoedd o wahanol raddfeydd, gan arwain at fwy o wasgaru traffig ffyrdd, a lleihau'r effaith gronol ar ansawdd aer mewn unrhyw un lleoliad.</p> <p>O ystyried hyn, mae caniatáu ar gyfer lefel uwch o dwf mewn aneddiadau mwy gwledig, yn cynnwys y rhai sydd ymhlith y lleiaf a'r mwyaf gwledig yn RhCT, yn debygol o arwain at gyfran o drigolion newydd yn dibynnu ar ddefnyddio cerbydau preifat o ddydd i ddydd.</p> <p>Mae disgwyl y bydd aneddiadau mwy yn darparu ar gyfer lefelau uwch o dwf newydd o dan yr opsiwn yma. Drwy ganolbwyntio datblygiad ar raddfa fawr yn y Prif Aneddiadau, mae potensial i leihau dibyniaeth ar gerbydau preifat, gan fod yr ardaloedd trefol mwy hyn yn debygol o gael mwy o ddewis o ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy. Fodd bynnag, y rhain yw'r lleoliadau sydd hefyd yn profi'r lefelau uchaf o dagfeydd ar y ffyrdd ar hyn o bryd. Mae effeithiau cymysg (cadarnhaol fechan a negyddol fechan) felly yn debygol yn gyffredinol.</p>
Amcan 12 yr ACI: Hyrwyddo defnydd effeithlon o dir, priddoedd a mwynau	+/-	--	++	--	+/-	--?	++	+/-	<p><u>Opsw'n 1</u></p> <p>Byddai'r opsiwn yma'n cynnwys rhywfaint o ddatblygu tir maes glas, lle mae ffiniau aneddiadau'n hyblyg yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol; fodd bynnag, yn y de, byddai ffiniau aneddiadau sefydlog yn golygu y gallai safleoedd tir llwyd fod yn fwy tebygol o gael eu defnyddio. Gallai'r opsiwn gynnwys dyrannu rhai safleoedd strategol mewn unrhyw ran o'r Fwrdeistref Sirol, ac felly byddai'r effeithiau'n dibynnu ar leoliad ond yn debygol o olygu colli tir maes glas. Yn gyffredinol, mae effaith gymysg (cadarnhaol fechan a negyddol fechan) yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 2</u></p> <p>Byddai'r opsiwn yma'n gweld crynhoad twf mewn sawl ardal sy'n cynnwys tir amaethyddol Gradd 3 a rhywfaint o dir amaethyddol Gradd 2, yn enwedig i'r de o'r Fwrdeistref Sirol ac o amgylch coridor yr M4. Byddai hyn yn debygol o arwain at gollir tir amaethyddol gorau a mwyaf amlwrpas, yn enwedig oherwydd y gallai'r opsiwn ddibynnu'n helaeth ar ddefnyddio tir maes glas. At hynny, er mai dim ond yn gyfyngedig ydyw, mae'r tir amaethyddol o'r ansawdd uchaf yng ngogledd RhCT wedi'i ganolbwyntio ar hyd coridor yr A470 tuag at Aberdâr yn y gogledd. Mae hyn o bryder arbennig oherwydd y maint cyfyngedig o dir ansawdd uchel sydd eisoes yn yr ardal. Felly nodir effaith negyddol sylweddol.</p> <p><u>Opsw'n 3</u></p> <p>Mae'r opsiwn yma'n annog defnydd effeithlon o dir trwy leoli datblygiad yng nghanol Prif Aneddiadau ac Aneddiadau Allweddol. Mae'r opsiwn yma'n rhoi cyfleoedd da i ddefnyddio safleoedd tir llwyd ac mae effaith gadarnhaol sylweddol gyffredinol yn debygol mewn perthynas ag osgoi colli tir amaethyddol o'r ansawdd uchel.</p> <p><u>Opsw'n 4</u></p> <p>Yn ne RhCT y mae'r tir amaethyddol o'r ansawdd uchaf, a byddai datblygiad o dan yr opsiwn yma'n cael ei leoli'n bennaf ar dir maes glas. Felly mae effaith negyddol sylweddol yn debygol.</p>

Amcan yr ACI	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4	Opsiwn 5	Opsiwn 6	Opsiwn 7	Opsiwn 8	Cyfiawnhad
									<p><u>Opsiwn 5</u></p> <p>Mae'r opsiwn yma'n debyg i'r ymagwedd canol trefi yn gyntaf (Opsiwn 3) gan fod yr ardaloedd sy'n hybiau trafndiaeth gyhoeddus neu sydd â mynediad da at drafnidiaeth gyhoeddus yn tueddu i fod yn ardaloedd o amgylch canol trefi. Fel y cyfryw, mae'r opsiwn yma'n annog defnydd effeithlon o dir trwy leoli datblygiad ger Prif Aneddiadau ac Aneddiadau Allweddol lle mae colli tir amaethyddol o ansawdd uchel yn llai tebygol. Serch hynny, mae yna ardaloedd o amgylch rhai o'r trefi sydd â'r cysylltiadau gorau a'r hybiau trafndiaeth lle mae ansawdd y tir yn uchel, gan gynnwys ger Aberdâr yn y gogledd, Prif Anheddiad a maes datblygu allweddol a gynigir yn y strategaeth yma. Felly mae effaith gymysg (cadarnhaol fechan a negyddol fechan) yn debygol yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsiwn 6</u></p> <p>Byddai dyrannu safle allweddol mawr yn ne'r Fwrdeistref Sirol yn arwain at ddatblygu ardal fawr o dir maes glas mewn un lleoliad. Mae de RhCT hefyd yn cynnwys y tir amaethyddol gwerth uchaf. Felly mae effaith negyddol sylweddol yn debygol. Caiff yr effaith ei nodi'n un ansicr o ystyried nad yw union leoliad y safle i'w ddatblygu yn hysbys.</p> <p><u>Opsiwn 7</u></p> <p>Mae Opsiwn 7 yn hyrwyddo defnydd effeithlon o dir yn uniongyrchol drwy sicrhau twf yn yr ardal drefol bresennol heb fod angen rhyddhau tir newydd i'w ddatblygu. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy aildefnyddio tir ac eiddo presennol a rhai sydd ddim cael eu defnyddio ddigon ar gyfer twf yn hytrach na dyrannu tir newydd. Bydd hyn yn osgoi colli tir amaethyddol o ansawdd uchel ac mae effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol.</p> <p><u>Opsiwn 8</u></p> <p>Byddai'r opsiwn yma'n dosbarthu datblygiad yn fwy cyfartal ar draws y Fwrdeistref Sirol ac felly gallai helpu i osgoi colli ardaloedd mawr o dir maes glas mewn un rhan o'r Fwrdeistref Sirol. Serch hynny, byddai modd i effeithiau fod yn fwy eang er y bydd yr effeithiau'n dibynnu i raddau helaeth ar y safleoedd penodol a neilltuwyd. Mae effaith gymysg (cadarnhaol fechan a negyddol fechan) yn debygol yn gyffredinol.</p>
Amcan 13 yr ACI: Parhau i leihau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu a hyrwyddo dulliau rheoli gwastraff mwy cynaliadwy	0	0	0	0	0	0	0	0	<p><u>Pob Opsiwn</u></p> <p>Bydd datblygiad newydd yn rhan o'r holl opsiynau gofodol a ystyriwyd yn arwain at ddefnyddio deunyddiau crai a chynhyrchu gwastraff, yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. Serch hynny, ni fydd dosbarthiad gofodol eang y datblygiad yn dylanwadu ar hyn. Mae arferion rheoli gwastraff hefyd yn dibynnu i raddau helaeth ar ymddygiad pobl a chynllun datblygiad ac felly, ni fyddai'r holl opsiynau gofodol yn cael fawr ddim effaith ar gyflawni'r Amcan yma o'r ACI.</p>
Amcan 14 yr ACI: Darparu ar gyfer economi gynaliadwy	+	++	+	+/-	++	+/-	+/-	++/-	Tybir y byddai'r un raddfa gyffredinol o ran twf yn cael ei dargedu o dan unrhyw un o'r opsiynau. Caiff mynediad at gyfleoedd cyflogaeth ei ystyried ar wahân o dan amcan 15 yr ACI.

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p><u>Opsw'n 1</u></p> <p>Mae'r strategaeth hollt o dan Opsw'n 1 yn darparu ymagwedd hyblyg at ddatblygiad economaidd. Mae'n cydnabod swyddogaethau'r Prif Aneidiadau fel y prif ganolfannau cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol ac yn parhau i gefnogi adfywiad economaidd y gogledd yn gymesur. Mae canolbwyntio'n bennaf ar dwf cyflogaeth o amgylch crynodiadau poblogaeth presennol yn hwyluso mynediad at gyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant newydd, a rhai presennol. Felly, mae effaith gadarnhaol fechan yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 2</u></p> <p>Nod yr opsw'n yma yw lleoli twf economaidd i wneud y mwyaf o'r buddion posibl sy'n gysylltiedig â mynediad rhwydd i'r rhwydwaith ffyrdd strategol. Mae galw mawr am yr M4 ac mae gwerthoedd tir cystadleuol i'w cael. Mae'r opsw'n yma'n cynnig cyfle i adeiladu ar hyn. Mae coridor yr A465 yn mynd trwy newid sylweddol ar hyn o bryd yn sgil gwaith deoli'r A465. Mae hyn yn golygu fod yr ardal o bosibl mewn sefyllfa dda i weld buddsoddiad pellach. Byddai'r ffocws newydd ar dwristiaeth yn yr ardal sydd wedi'i gefnogi gan Zipworld, llwyddiant parhaus Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol y Cymoedd yn darparu cyfleoedd pellach. Mae coridor yr A470 yn darparu mynediad i Gaerdydd, Caerffili a Merthyr Tudful, ac oddi yno. Mae'r ardal yn gartref i Brif Anheddiad Pontypridd sydd wedi dechrau trawsnewid dros y blynyddoedd diwethaf gyda datblygiadau fel Llys Cadwyn, Lido Cenedlaethol Cymru a gwaith ailddatblygu'r YMCA er mwyn creu enillion economaidd cryf. Mae datblygiadau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer yr ardal yma. Mae ystâd ddiwydiannol Trefforest ar y coridor hefyd, sef prif safle cyflogaeth y Cyngor sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd cyflogaeth. Ochr yn ochr â hyn mae Prifysgol De Cymru sydd hefyd yn cefnogi cyflogaeth a sgiliau. Mae'r opsw'n yma felly'n cynnig cyfleoedd da iawn i adeiladu ar botensial economaidd y coridorau priffyrdd hyn, a byddai'n arwain at ddatblygiad sydd wedi'i ddsbarthu'n weddol eang ar draws gogledd a de RhCT. Felly, mae effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 3</u></p> <p>Dylai canolbwyntio datblygiadau newydd yng nghanol trefi gynnig cyfleoedd gwyb i adfywio'r ardaloedd hynny, gan hybu eu bywiogrwydd a'u hyfywedd. Dylai'r opsw'n yma gynnig cyfleoedd da hefyd i dynnu datblygiad i mewn i rai o ardaloedd mwyaf difreintiedig RhCT ac i ddsbarthu manteision datblygu ar draws gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, byddai cyfleoedd i gyflawni datblygiad i gefnogi'r economi mewn ardaloedd gwledig yn fwy cyfyngedig. Yn gyffredinol, mae effaith gadarnhaol fechan yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 4</u></p> <p>Mae'r strategaeth yma'n canolbwyntio ar dwf yn ardal strategaeth ddeheuol y Fwrdeistref Sirol (ardal Taf-elái), gan ganolbwyntio'n benodol ar goridor yr M4. Coridor yr M4 yw'r ardal fwyaf marchnadol a mwyaf poblogaidd yn RhCT ac mae gan ddatblygiadau yma gyfle i adeiladu ar y lleoliad cyfleus a denu mewnfuddsoddiad. Serch hynny, byddai'r opsw'n yma'n canolbwyntio buddion datblygu yn y de yn unig ac ni fyddai'n cynnig cyfleoedd i adfywio'r gogledd. Felly mae effaith gymysg (cadarnhaol fechan a negyddol fechan) yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 5</u></p> <p>Mae'r opsw'n yma'n debyg i'r ymagwedd canol trefi yn gyntaf (Opsw'n 3) gan fod yr ardaloedd sy'n hybiau trafndiaeth gyhoeddus neu sydd â mynediad da at drafndiaeth gyhoeddus yn tueddu i fod yn ardaloedd o amgylch canol trefi. Fel y cyfryw, effaith debygol yr ymagwedd yma fyddai canolbwyntio datblygiad newydd yn bennaf yn yr ardaloedd trefol a fyddai o bosibl yn helpu i adfywio canol trefi a gwella eu bywiogrwydd a'u hyfywedd. Dylai canolbwyntio datblygiadau newydd yn agos at nodau teithio trafndiaeth</p>

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p>gyhoeddus olygu bod mynediad at gyflogaeth yn haws, gan helpu i ddenu buddsoddwyr a hwyluso economi mwy cynaliadwy. Byddai datblygiadau hefyd yn cael eu gwasgaru ledled y Fwrdeistref Sirol ac nid yn canolbwyntio ar y de yn unig. Ar y cyfan mae effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 6</u></p> <p>Gallai lleoli llawer iawn o ddatblygiadau ar un safle strategol leddfu'r pwysau ar ardaloedd eraill yn y de lle mae galw enfawr am ddatblygiad. Byddai safle mawr yn caniatáu ar gyfer darparu'r seilwaith a'r cyfleusterau angenrheidiol o fewn y safle, gan gefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy yn y lleoliad hwnnw. Byddai lleoli'r safle yn y de hefyd yn darparu tir masnachol mewn ardal o alw uchel a lefel atyniad uchel. Serch hynny, fyddai'r opsiwn yma ddim yn cefnogi datblygiad economaidd parhaus ardaloedd eraill o'r Fwrdeistref Sirol nac yn cefnogi adfywio'r gogledd. Byddai hefyd yn arwain at fanteision datblygiad yn cael eu canolbwyntio mewn ardal gyfng iawn, a allai fod yn gadarnhaol i'r ardal o amgylch y safle strategol ond yn negyddol ar gyfer rhannau eraill o'r Fwrdeistref Sirol. Felly, nodir effaith gymysg (cadarnhaol fechan a negyddol fechan).</p> <p><u>Opsw'n 7</u></p> <p>Mae Opsw'n 7 yn hyrwyddo economi gynaliadwy yn uniongyrchol drwy geisio sicrhau twf yn yr ardal drefol bresennol. Mae'n bosibl y byddai'r opsiwn yn cefnogi adfywiad canol trefi ledled y Fwrdeistref Sirol a byddai'n arwain at ddsbarthu manteision economaidd datblygiadau newydd yn weddol eang. Serch hynny, ni fyddai'n cefnogi twf yr economi wledig ac mae ansicrwydd ynghylch argaeledd y tir sydd ei angen i gyflawni'r raddfa o dwf sydd ei angen. Felly, nodir effaith gymysg (cadarnhaol fechan a negyddol fechan).</p> <p><u>Opsw'n 8</u></p> <p>Byddai'r opsiwn yma'n darparu ar gyfer dosbarthiad mwy cyfartal o ddatblygiadau ar draws y Fwrdeistref Sirol dros gyfnod y cynllun gyda'r aneddiadau mwy yn darparu lefelau twf cymesurool uwch. Fel y cyfryw, byddai'n cefnogi twf economaidd ac adfywio mewn ardaloedd mwy yn ogystal ag aneddiadau gwledig llai. Byddai manteision twf hefyd i'w gweld ar draws gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol. Serch hynny, mae problemau tebygol o ran hyfywedd a chyflawnadwyedd yr ymagwedd yma ac mae diffyg tir mewn rhai aneddiadau. Byddai llai o gyfleoedd hefyd i gyflawni buddion cronol datblygiad mwy dwys, o ran mewnfuddsoddi. Felly, mae effaith gymysg (sylweddol gadarnhaol a negyddol fechan) yn debygol.</p>
Amcan 15 yr ACI: Darparu ar gyfer ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith	+	+/-	+	-	++	-	+	+/-	<p>Tybir eto y byddai'r holl opsiynau gofodol yn targedu'r un lefel gyffredinol o dwf; felly mae effeithiau'r opsiwn yma ar amcan yma'r ACI yn dibynnu i raddau helaeth ar y graddau y bydden nhw'n darparu swyddi mewn lleoliadau hygyrch neu'n darparu datblygiad preswyl yn agos at gyfleoedd gwaith presennol.</p> <p><u>Opsw'n 1</u></p> <p>Byddai'r opsiwn yma'n darparu datblygiad yng ngogledd a de'r Fwrdeistref Sirol, felly dylai hyn ddarparu swyddi newydd sy'n hygyrch i drigolion presennol y ddwy ran o RhCT. Bydd datblygiadau preswyl newydd hefyd yn cael eu gwasgaru'n weddol eang, gan roi cyfleoedd gwell i fyw a gweithio'n gyfagos. Felly, mae effaith gadarnhaol fechan yn debygol.</p>

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p><u>Opsw'n 2</u></p> <p>Byddai canolbwyntio datblygiad newydd ger y rhwydwaith ffyrdd strategol yn golygu ei fod wedi'i wasgaru'n weddol eang ar draws gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol, gan gynnig mynediad at swyddi i ragor o bobl; fodd bynnag mae perygl y gallai cludiant i safleoedd ar gyfer gwaith, ac oddi yno, fod yn fwy dibynnol ar geir. Byddai hyn yn lleihau mynediad i'r rhai sydd heb gar yn ogystal â bod yn llai cynaliadwy. Felly, nodir effaith gymysg (cadarnhaol fechan a negyddol fechan).</p> <p><u>Opsw'n 3</u></p> <p>Byddai datblygiad trefol cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar Ganol Trefi yn golygu bod modd i ragor o bobl gael mynediad at swyddi yn yr ardaloedd hynny, gan gynnwys trwy ddulliau trafndiaeth gynaliadwy. Efallai y bydd gan drigolion newydd hefyd fynediad at gysylltiadau trafndiaeth gynaliadwy mewn lleoliadau eraill i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth mewn mannau eraill. Serch hynny, byddai'r ymagwedd yma'n cyfyngu ar sefydlu swyddi mewn ardaloedd gwledig. Ar y cyfan mae'r effaith yn debygol o fod yn fân gadarnhaol.</p> <p><u>Opsw'n 4</u></p> <p>Mae'r strategaeth yma'n canolbwyntio ar dwf yn ardal strategaeth ddeheuol y Fwrdeistref Sirol (ardal Taf-elái), gan ganolbwyntio'n benodol ar goridor yr M4. Er bod sylfaen gref o boblogaeth yn y de a fyddai'n elwa o fynediad at y swyddi a sefydlwyd, mae risg o lefelau uchel o ddibyniaeth ar geir a allai leihau mynediad at swyddi i'r rhai sy'n dibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus. Byddai'r ymagwedd yma'n cynnig mynediad da at swyddi yn y de ond ni fyddai'n sicrhau'r un manteision mewn rhannau eraill o'r Fwrdeistref Sirol. Felly, mae effaith negyddol fechan yn debygol yn gyffredinol.</p> <p><u>Opsw'n 5</u></p> <p>Bydd canolbwyntio datblygiad mewn hybiau trafndiaeth gynaliadwy yn sicrhau bod mynediad da at swyddi, gan gynnwys i'r rhai sydd heb gar. Dylai'r ymagwedd yma hefyd olygu bod y swyddi newydd sy'n cael eu sefydlu yn cael eu dosbarthu'n weddol eang ledled RhCT, yn unol â'r rhwydwaith trafndiaeth gynaliadwy. Felly, mae effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 6</u></p> <p>Mae'n bosibl y byddai safle strategol newydd yn cynnig cyfleoedd da i ymgorffori cysylltiadau trafndiaeth gynaliadwy, gan ddarparu mynediad at swyddi i'r rhai sydd heb gar. Serch hynny, o dan yr opsiwn yma byddai unrhyw swyddi sy'n cael eu sefydlu yn cael eu canolbwyntio'n gyfyng yn y de, lle mae'r ddarpariaeth trafndiaeth gynaliadwy bresennol yn wael. Felly, mae effaith negyddol fechan yn debygol.</p> <p><u>Opsw'n 7</u></p> <p>Byddai Opsw'n 7 yn sicrhau twf yn yr ardal drefol bresennol lle mae cysylltiadau trafndiaeth gynaliadwy yn debygol o fod orau, gan felly ddarparu mynediad at swyddi gan gynnwys i'r rheiny sydd heb fynediad at gar. Serch hynny, byddai sefydlu swyddi mewn ardaloedd mwy gwledig yn gyfyngedig. Mae effaith gadarnhaol fechan yn debygol yn gyffredinol.</p>

Amcan yr ACI	Opsw'n 1	Opsw'n 2	Opsw'n 3	Opsw'n 4	Opsw'n 5	Opsw'n 6	Opsw'n 7	Opsw'n 8	Cyfiawnhad
									<p><u>Opsw'n 8</u></p> <p>O dan yr opsiwn yma byddai'r rhan fwyaf o ddatblygiadau yn cael eu cyflawni yn yr aneddiadau mwy, lle mae mynediad at gysylltiadau trafniadaeth gynaliadwy yn debygol o fod yn dda. Byddai rhai datblygiadau yn canolbwyntio ar aneddiadau llai a allai gynnig cyfleoedd da i bobl yn y lleoliadau hynny gael mynediad at swyddi cyfagos; fodd bynnag, lle mae angen i bobl deithio ymhellach i'r safleoedd hynny ac oddi yno ar gyfer gwaith, mae teithiau'n fwy tebygol o ddibynnu ar y car a'r mynediad yn llai rhwydd. Felly, mae effaith gymysg (cadarnhaol fechan a negyddol fechan) yn debygol yn gyffredinol.</p>

Pennod 5

Canfyddiadau'r Arfarniad Cynladwyedd Integredig (ACI) ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir

51 Mae'r bennod yma'n cyflwyno canfyddiadau'r ACI ar gyfer cydrannau dogfen ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir, gan gynnwys y Weledigaeth, y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y Fwrdeistref Sirol (h.y. maint a dosbarthiad gofodol y datblygiad), y Polisiâu Strategol a'r Safleoedd Allweddol Posibl.

52 Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion lle nodwyd y gallai newidiadau i destun o bosibl gryfhau effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau andwyol a nodwyd. Bydd yr argymhellion yma'n cael eu hystyried gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn rhan o'r gwaith o baratoi'r ddogfen CDLI i'w harchwilio gan y cyhoedd.

53 Mae'r disgrifiad o effeithiau yn canolbwyntio ar esbonio'r effeithiau cadarnhaol neu negyddol a nodwyd. Lle disgwylir effeithiau dibwys nid yw hyn yn cael ei esbonio bob tro; fodd bynnag, dylid nodi bod y symbol yma'n cael ei ddefnyddio pan ystyrir nad oes cysylltiad diriaethol rhwng y polisi neu'r safle a chyflawni'r amcan ACI dan sylw. Yr eithriad i hyn yw lle mae modd gweld bod amcan yr ACI y nodir effaith ddibwys ar ei gyfer yn gorgyffwrdd â thema'r polisi ac felly ystyrir bod esboniad o'r effaith ddibwys yn ddefnyddiol.

Gwe ledig aeth

54 Mae Gweledigaeth a set o Amcanion ategol wedi'u drafftio ar gyfer y CDLI Diwygiedig: Strategaeth a Ffefrir i sicrhau bod y cynllun yn mynd i'r afael â'r materion allweddol sy'n wynebu RhCT. Mae'r Weledigaeth yn nodi diben y cynllun a sut mae bwriad i RCT newid a datblygu dros gyfnod y cynllun hyd at 2037. Mae dogfen ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir yn ei gwneud yn glir bod y Weledigaeth a'r Amcanion yn gysylltiedig â'i gilydd ac y dylid eu hystyried gyda'i gilydd.

55 O ystyried bod bron pob un o Amcanion y Cynllun yn un fath ag amcanion yr ACI, nid oes angen cynnal gwerthusiad ohonyn nhw ac yn gyffredinol mae cydnawsedd llwyr rhwng y ddwy set o amcanion. Y tri Amcan ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI Diwygiedig: Mae'r Strategaeth a Ffefrir nad yw wedi'i chynnwys yn fframwaith yr ACI yn cefnogi gwella canol trefi RhCT, adennill priodol o hen safleoedd mwyngloddio a datblygu twristiaeth (gan gynnwys twristiaeth eco/gwyrdd) a fydd yn hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy, a chynllunio ar gyfer adennill safleoedd eraill o'r fath yn y dyfodol. Roedd o'r farn bod cysondeb cyffredinol hefyd rhwng y tri Amcan ychwanegol hynny ac amcanion yr ACI.

Pennod 5

Canfyddiadau'r ACI ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir

Arfarniad Cynladwyedd

56 Mae Gweledigaeth y CDLI wedi'i drafftio i gyd-fynd â strategaethau a pholisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol perthnasol. Mae Cynllun Corfforaethol a Chynllun Llesiant y Cyngor wedi llywio Gweledigaeth y CDLI Diwygiedig yn uniongyrchol, ochr yn ochr â'r Materion a nodwyd ar gyfer RhCT.

57 Thema trosfwaol y Weledigaeth yw i'r Fwrdeistref Sirol gael ei datblygu i fod yn fwy gwydn a chynaliadwy erbyn 2037. Mae'r Weledigaeth yn creu delwedd lefel uchel a dyheadol o RCT ar ddiwedd cyfnod y cynllun ac mae wedi'i drafftio i gwmpasu amrywiaeth o faterion cynaliadwyedd. Mae'r rhain yn cyd-fynd ag amcanion yr ACI ar y cyfan. Er bod y Weledigaeth yn elfen bwysig o'r CDLI Diwygiedig o ran gosod y cyd-destun ar gyfer y polisïau sydd wedi'u cynnwys yn ogystal â'r hyn y dylai'r polisïau yma geisio ei gyflawni, bydd penderfyniadau cynllunio yn RhCT yn cael eu gwneud yn unol â'r polisïau eu hunain ac mae'r gwaith arfarnu mwyaf manwl ar gyfer yr elfennau yma o'r cynllun. O ystyried lefel uchel a natur uchelgeisiol y Weledigaeth, disgwylir iddi gael mân effeithiau cadarnhaol neu ddibwys ar amcanion yr ACI.

Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

58 Pennod 4 cyflwyno gwerthusiad o'r wyth opsiwn gofodol a ystyriwyd gan Gyngor RhCT ar gyfer y CDLI Diwygiedig. Fel y nodir yn nogfen ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir, mae dadansoddiad o'r opsiynau gofodol yn dangos na fyddai'r un o'r opsiynau a ystyriwyd yn briodol yn ei gyfanrwydd. Mae'r Cyngor yn ystyried bod elfennau sylfaenol Strategaeth Ofodol y CDLI cyfredol yn parhau i fod yn briodol. Serch hynny, mae angen gwahaniaethu rhwng rhannau gogleddol a deheuol y Fwrdeistref Sirol sy'n arddangos nodweddion gwahanol iawn. Mae Strategaeth Ddiwygiedig y CDLI a Ffefrir felly wedi'i diffinio fel 'Strategaeth Cymunedau Cynaliadwy'r Gogledd a Thwf Cynaliadwy'r De' gyfunol gydag elfennau ychwanegol yn cael eu dwyn ymlaen i'w cynnwys o'r opsiynau gofodol eraill a ystyriwyd. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys pedwar Safle Allweddol Posibl a fydd yn hanfodol i'w darparu.

59 Mae effeithiau cynaliadwyedd tebygol y Strategaeth a Ffefrir wedi'u nodi yn y tabl isod. Mae'r effeithiau'n adlewyrchu dosbarthiad y datblygiad a nodir yn Adran 9 o'r CDLI Diwygiedig: Y Strategaeth a Ffefrir gan gynnwys y pedwar Safle Allweddol Posibl a nodwyd.

Tabl 5.1: Effeithiau cynaliadwyedd tebygol y Strategaeth a Ffefrir

Amcanion yr Arfarniad Cynladwyedd Integredig (ACI)	Y Strategaeth a Ffefrir
1: Newid yn yr Hinsawdd	+/-
2: Tai	++
3: Cymuned	+

Amcanion yr ACI	Y Strategaeth a Ffefrir
4: Iechyd a Lles	+
5: Trafnidiaeth	++
6: Treftadaeth	-?
7: Y Gymraeg	0
8: Tirwedd	+/-?
9: Bioamrywiaeth	-?
10. Dŵr	-?
11. Ansawdd aer	++/-
12: Adnoddau tir	+/-
13: Gwastraff	0
14: Economi	++
15: Cyflogaeth	++

510 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ymwneud â datblygu yn yr Ardal Strategaeth Ogleddol (ASO) ac Ardal Strategaeth Ddeheuol (ASDd) y Fwrdeistref Sirol. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar yr aneddiadau mwy lle mae rhai ardaloedd lle mae perygl uchel o lifogydd. Er bod datblygiad yn y de yn fwy cyfyng oherwydd y ffiniau aneddiadau sefydlog, ac felly y dylai olygu llai o golli tir maes glas, efallai y bydd mwy o dir glas yn cael ei golli yn y gogledd lle bydd ffiniau aneddiadau yn hyblyg. Gallai dyrannu Safleoedd Allweddol hefyd arwain at golli ardaloedd mawr o dir maes glas, yn enwedig y tir yn Llanilid (Safle Allweddol Posibl 3) a Llanilltud Faerdref (Safle Allweddol Posibl 4) yn yr ASDd. Mae'r olaf o'r safleoedd yma'n gyfanswm o 50 hectar o dir maes glas. Mae'n cynnwys ardaloedd lle mae perygl llifogydd o ddŵr wyneb a chyrtsiau dŵr bach. Mae rhai o'r ardaloedd yma'n ardaloedd lle mae perygl uchel a chanolig o lifogydd. Er hyn, nodir fod yr ardaloedd dan sylw yn gyfran gymharol fach o'r tir cyfan ar y safle ac efallai y caiff y datblygiad ei ddylunio i osgoi'r ardaloedd yma. Er y bydd graddfa gyffredinol y twf a gynigir yn anochel yn arwain at gynydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, dylai'r ffocws ar gael datblygiadau newydd mewn ardaloedd sy'n hygyrch drwy drafnidiaeth gyhoeddus leihau'r cynnydd mewn allyriadau o drafnidiaeth (trafodir hyn ymhellach mewn perthynas ag amcan ACI 5 isod). Yn gyffredinol, mae effaith gadarnhaol fach a negyddol arwyddocaol yn debygol mewn perthynas ag **Amcan 1 yr ACI: newid yn yr hinsawdd.**

511 Mae'r opsiwn yma'n gosod gofyniad tai o 8,450 o anheddau (gyda byffer ychwanegol o 10% i osod y ddarpariaeth tai) a ystyrir yn gyraeddadwy yn realistig. Bydd nifer y tai a ddarperir yn uwch yn yr ASDd

Pennod 5

Canfyddiadau'r ACI ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir

Arfarniad Cynladwyedd

o'i gymharu â'r ASO, gan adlewyrchu argaeledd safleoedd. Yn hynny o beth, disgwylir effaith gadarnhaol sylweddol mewn perthynas ag **Amcan 2 yr ACI: tai**.

512 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn canolbwyntio twf yn unol â Hierarchaeth Aneddiadau'r CDLI Diwygiedig. Mae hyn yn blaenoriaethu'r Prif Aneddiadau a'r Aneddiadau Allweddol ar gyfer datblygiadau newydd, gan gefnogi mynediad at wasanaethau a chynnal hyfywedd gwasanaethau a chyfleusterau yn yr ardaloedd hynny, yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd i gerdded a beicio o ddydd i ddydd. Mae'r Strategaeth a Ffefrir (gan gynnwys yr ASO a'r ASDd) hefyd yn cyd-fynd â'r Strategaeth Cymunedau Cynaliadwy trwy geisio ymagwedd Canol Trefi yn Gyntaf i sicrhau mynediad at wasanaethau a chyfleusterau trwy gryfhau cymunedau yn y gogledd ac annog datblygiad yn y de. Bydd y Safleoedd Allweddol Arfaethedig yn cyfrannu ymhellach at well mynediad ledled y Fwrdeistref Sirol, trwy ddarparu gwasanaethau cymunedol a chyfleoedd ar gyfer datblygiad cynaliadwy i'w cysylltu â chymunedau presennol. Mae effaith gadarnhaol fach yn debygol yn gyffredinol mewn perthynas ag **Amcan 3 yr ACI: cymunedau** ac **Amcan 4 yr ACI: iechyd a lles**.

513 Bydd canolbwyntio twf mewn aneddiadau mwy yn unol â'r Hierarchaeth Aneddiadau yn sefydlu'r rhan fwyaf o ddatblygiadau tai a chyflogaeth yn agos at nodau trafniadaeth ac ardaloedd â darpariaeth trafniadaeth gyhoeddus uwch. Bydd hyn yn rhoi mwy o ddewis o ddulliau trafniadaeth i drigolion a lleihau dibyniaeth ar gerbydau preifat. Nodir ymhellach y bydd datblygiad mewn aneddiadau llai yn cael ei annog i gael cysylltiadau trafniadaeth gynaliadwy i'r aneddiadau lefel uwch. Bydd datblygu Safleoedd Allweddol hefyd yn rhoi'r cyfle yma, yn enwedig oherwydd lleoliad rhai safleoedd ar hyd coridorau rheilffordd allweddol. Bydd datblygiad yng ngogledd a de'r Fwrdeistref Sirol hefyd yn helpu i ddiwallu anghenion tai'r ddwy ardal. Bydd hyn yn galluogi mwy o bobl i fyw'n agosach at eu gweithleoedd a gwneud llai o siwrneiau mewn ceir. Bydd dosbarthiad y datblygiad yn caniatáu ar gyfer creu cysylltiadau â Metro De-ddwyrain Cymru. Yn gyffredinol, mae effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol mewn perthynas ag **Amcan 5 yr ACI: trafniadaeth**.

514 Mae gan bob datblygiad newydd y potensial i gael effaith ar yr amgylchedd hanesyddol, gan effeithio'n uniongyrchol ar asedau ac effeithio'n anuniongyrchol ar eu hamgylchedd. Serch hynny, bydd effeithiau penodol, gan gynnwys i ba raddau y mae datblygiadau newydd yn gwella'r amgylchedd hanesyddol, yn dibynnu ar ddyluniad a gosodiad cynigion datblygu yn ogystal â'u lleoliad penodol (bydd safleoedd yn cael eu dyrannu yn ystod y cam Adneuo). Felly, mae ansicrwydd penodol yn gysylltiedig â'r effeithiau a nodwyd mewn perthynas ag **Amcan 6 yr ACI: treftadaeth**.

515 Gallai canolbwyntio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau ar yr aneddiadau yn yr Hierarchaeth Aneddiadau ddod â datblygiadau newydd yn nes at yr asedau treftadaeth presennol sy'n tueddu i fod yn yr ardaloedd adeiledig yn bennaf. Er yn gymharol wasgaredig gallai datblygiad yng

ngogledd a de'r Fwrdeistref Sirol olygu bod asedau treftadaeth yn y ddwy ardal â'r potensial i gael eu heffeithio gan ddatblygiadau adeiladu newydd. Serch hynny, gallai datblygiad mwy gwasgaredig leihau'r crynodiad o effeithiau mewn ardaloedd penodol. Mae effaith negyddol fechan ansicr yn debygol yn gyffredinol a bydd hyn yn cael ei asesu gyda mwy o sicrwydd yn y cam nesaf o wneud cynllun pan fydd safleoedd penodol yn cael eu dyrannu.

516 Yng nghyd-destun De Cymru, mae RhCT yn gyffredinol yn llwyddiannus o ran defnydd o'r Gymraeg. Adroddodd Cyfrifiad 2021 fod 12.4% o bobl tair oed a hŷn yn RhCT yn gallu siarad Cymraeg. Roedd hyn yn gynydd bach ar y 12.3% o'r boblogaeth yr adroddwyd eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011. Nid yw'n glir a fyddai datblygiadau newydd mewn ardaloedd sydd â chyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yn ysgogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, neu a allai effaith datblygiadau newydd yn yr ardaloedd hynny fod yn gwanhau'r defnydd o'r Gymraeg. Felly, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau na gwahaniaethu rhwng effeithiau tebygol yr opsiynau gofodol **ar amcan 7 o'r ACI: y Gymraeg** ac ystyrir bod y Strategaeth a Ffefrir yn cael effaith ddiwbws.

